

# Adolygiad Addysg Uwch: Cymru o Goleg Castell-Nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp o Golegau NPTC

Mawrth 2016

## Cynnwys

<b>Yr adolygiad yma .....</b>	<b>1</b>
<b>Beirniadaeth ddiwygiedig - Mawrth 2017 .....</b>	<b>2</b>
<b>Canfyddiadau allweddol .....</b>	<b>7</b>
Beirniadaethau ASA am Goleg Castell-Nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp o Golegau NPTC .....	7
Nodweddion o arfer da .....	7
Argymhellion.....	7
Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith .....	8
Ynghylch Coleg Castell-Nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp o Golegau NPTC.....	8
<b>Esboniad o'r canfyddiadau am Goleg Castell-Nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp o Golegau NPTC.....</b>	<b>10</b>
1 Y Feirniadaeth am: Y modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a sefydliadau dyfarnu eraill.....	11
2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr .....	26
3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu.....	52
4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.....	56
5 Sylwadau am Ryngwladoli.....	59
<b>Rhestr termau.....</b>	<b>61</b>

## Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Addysg Uwch: Cymru a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) yng Ngholeg Castell-Nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp o Golegau NPTC. Cafwyd yr adolygiad rhwng 22 a 24 Mawrth 2016 ac fe'i weithredwyd gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Ms Tessa Counsell
- Mr Millard Parkinson
- Mr Rhys Taylor (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Prif bwrpas yr adolygiad oedd ymchwilio'r addysg uwch a ddarperir gan Goleg Castell-Nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp o Golegau NPTC a barnu a yw ei safonau a'i hansawdd academiaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio. Y disgwyliadau hyn yw'r datganiadau yng [Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU](#) (y Cod Ansawdd)<sup>1</sup> sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Yn yr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru, mae tîm adolygu ASA:

- yn gwneud beirniadaethau am
  - y modd y gosodir ac y cynhelir safonau academiaidd
  - ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
  - yr wybodaeth a ddarperir am ddarpariaeth addysg uwch
  - y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
- yn rhoi sylwadau ar y thema a ddewiswyd
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi nodweddion o arfer da
- yn cadarnhau'r camau gweithredu y mae'r darparwr yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd.

Gallwch weld crynodeb o'r canfyddiadau yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 7. Rhoddwyd [esboniadau o'r canfyddiadau](#) mewn paragraffau wedi'u rhifo yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 10.

Mae gwefan ASA yn rhoi rhagor o wybodaeth [am ASA](#) a'i chenhadaeth.<sup>2</sup> Mae adran benodol yn esbonio'r dull ar gyfer gwneud [Adolygiad Addysg Uwch: Cymru](#)<sup>3</sup> ac mae ganddi ddolenni at y llawlyfr adolygiad a dogfennau defnyddiol eraill. I gael esboniad o'r termau gwelwch y [Rhestr Termau](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

---

<sup>1</sup> Cyhoeddir Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (yn y Saesneg yn unig) ar: [www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code](http://www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code).

<sup>2</sup> Gwefan ASA: [www.qaa.ac.uk/cy/aboutus/pages/wales](http://www.qaa.ac.uk/cy/aboutus/pages/wales).

<sup>3</sup> Y gwe-dudalennau am Adolygiad Addysg Uwch: Cymru: [www.qaa.ac.uk/cy/reviewsandreports/pages/higher-education-review-wales.aspx](http://www.qaa.ac.uk/cy/reviewsandreports/pages/higher-education-review-wales.aspx).

## Beirniadaeth ddiwygiedig - Mawrth 2017

### Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2016, gwnaethpwyd Adolygiad Addysg Uwch: Cymru o Goleg Castell-Nedd Port Talbot o dan yr enw masnachu Grŵp o Golegau NPTC (y Coleg), a derbyniodd y beirniadaethau dilynol: mae'r modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran ei gyrff dyfarnu graddau a sefydliadau dyfarnu eraill yn cyflawni disgwyliadau'r DU; mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn cyflawni disgwyliadau'r DU; mae ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu'n cyflawni disgwyliadau'r DU; ac mae'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn gofyn gwelliant i gyflawni disgwyliadau'r DU.

Yn dilyn beirniadaethau negyddol, mae ASA yn gwneud gwaith dilyniant ffurfiol, sy'n cynnwys monitro cynllun gweithredu a gynhyrchir gan y Coleg mewn ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad.

Yn hydref 2016, cyhoeddodd y Coleg gynllun gweithredu sy'n nodi sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion, y cadarnhadau a'r nodweddion o arfer da a nodwyd yn yr adolygiad, ac mae wedi bod yn gweithio dros y chwe mis diwethaf i ddangos sut mae wedi gweithredu'r cynllun hwnnw.

Yn rhan o'r broses ddilyniant, derbyniwyd diweddariadau ddwywaith am y cynnydd a wnaethpwyd a daeth y broses i ben gyda'r tîm adolygu'n craffu ar adroddiadau cynnydd y Coleg a'r dystiolaeth ddogfennol gefnogol, ynghyd ag ymweliad undydd gan ddau adolygwr ar 17 Chwefror 2017. Yn ystod yr ymweliad, cyfarfu'r tîm adolygu â staff uwch, staff addysgu a myfyrwyr i drafod y cynnydd ac i driongli'r sail tystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod y misoedd blaenorol.

Cadarnhaodd yr ymweliad bod y Coleg wedi ymdrin yn llwyddiannus â'r argymhellion yn ymwneud â gwella'r cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr, a bod y nodweddion o arfer da wedi cael eu lledaenu'n briodol. Mae'r Coleg hefyd wedi cwblhau camau gweithredu mewn ymateb i argymhellion, cadarnhadau a nodweddion o arfer da yn y meysydd dilynol: safonau academiaidd, ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch, a'r wybodaeth am y ddarpariaeth addysg uwch, yr oeddent oll wedi derbyn beirniadaethau positif. Cwblhawyd y camau gweithredu o fewn yr amseriadau gofynnol. Cyfrannodd hyn at y datblygiad a wnaed o ran gwella cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.

### Penderfyniad Bwrdd ASA a'r feirniadaeth ddiwygiedig

Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Coleg wedi gwneud digon o gynnydd iddynt argymhell y dylid addasu'r beirniadaethau am y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Derbyniodd Bwrdd ASA argymhelliad y tîm ac mae'r feirniadaeth wedi cael ei diwygio'n ffurfiol erbyn hyn. Dyma'r beirniadaethau am ddarpariaeth y Coleg erbyn hyn.

- Mae'r modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran ei gyrff dyfarnu graddau a sefydliadau dyfarnu eraill yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

Gellir ystyried bod yr adolygiad wedi'i lofnodi i ddangos ei fod yn gyflawn.

## **Canfyddiadau'r broses ddilyniant**

Canfu'r tîm adolygu bod y Coleg wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr argymhellion fel a ganlyn.

**Yr argymhelliad: Sefydlu proses i gofnodi'n systematig ymgysylltiad y staff gyda gweithgareddau ysgolheigaidd a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n benodol i addysg uwch, erbyn mis Gorffennaf 2016 (Disgwyliad B3).**

Ers yr adolygiad, mae'r Coleg wedi gweithredu Cynllun Gweithgareddau Ysgolheigaidd, a chyflwynwyd Adroddiad Datblygiad Staff i'r Grŵp Rheoli Ansawdd a Gwelliant ym maes Addysg Uwch (Grŵp Rheoli AGAU). Mae'r Coleg yn cymryd camau i sicrhau ei fod yn ystyried gweithgareddau DPP sy'n benodol i addysg uwch wrth wneud arfarniadau staff blynyddol, ac yn annog y staff i wneud cais am brosiect Gweithgareddau Ysgolheigaidd ym maes Addysg Uwch. Mae'r Rhaglen Datblygiad Staff ar gyfer 2016-17 yn cynnig gweithgareddau DPP penodol i addysg uwch sy'n gysylltiedig â chymrodoriaethau'r Academi Addysg Uwch ac arsylwadau addysgu ym maes addysg uwch, ochr yn ochr â'r digwyddiadau hyfforddi ar draws y Coleg. Roedd y broses arfarnu hefyd yn gwerthuso gweithgareddau datblygiad staff sydd wedi digwydd ac yn gosod targedau ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

**Yr argymhelliad: Cymryd camau pellach i sicrhau bod prosesau safoni mewnol y Coleg yn gweithio'n effeithiol, a gwneud prosesau o'r fath yn eglur i arholwyr allanol, erbyn mis Gorffennaf 2016 (Disgwyliadau B6, B7).**

Yn dilyn yr adolygiad, penderfynodd y Coleg bod yn rhaid cyflwyno'r holl ffurflenni safoni/ ail farcio ar gyfer pob modiwl i'r arholwyr allanol, ynghyd â samplau o'r gwaith wedi'i asesu. Byddai Cydlynwyr Addysg Uwch yn archwilio pa mor effeithiol yw'r prosesau safoni mewnol mewn trafodaeth gydag arholwyr allanol ac mewn adroddiadau monitro am y rhaglenni a gyflwynir i'r Grŵp Rheoli AGAU. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhaglenni fe weithredwyd y trefnau hyn yn rhy hwyr i broses arholi allanol 2015-16. Darparodd y Coleg esiamplau o'r gwaith ail farcio a safoni mewnol. Adolygir y gwaith safoni mewnol hefyd yn rhan o'r broses o arsylwi addysgu, a thrwy hynny mae tiwtoriaid uwch yn monitro ansawdd a chysondeb y gwaith o safoni mewnol. Mae'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd yn arolygu ac yn monitro hyn ymhellach.

**Yr argymhelliad: Sicrhau bod holl gostau ychwanegol y cyrsiau'n cael eu datgan yn glir ymhob cyhoeddiad priodol, erbyn mis Gorffennaf 2016 (Disgwyliad C).**

Mae'r Coleg wedi addasu proffiliau'r cyrsiau i gynnwys manylion unrhyw gostau ychwanegol y bydd y myfyrwyr yn eu creu ar y rhaglen. Canfu'r tîm adolygu bod yr wybodaeth yn llawn ac yn gywir; cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn fodlon â'r wybodaeth am y costau. Yn ogystal, nododd y Coleg broses ddiwygiedig ar gyfer cymeradwyo gwybodaeth, a fyddai'n sicrhau bod gwybodaeth yn parhau i gael ei darparu am y costau astudio.

**Yr argymhelliad: Cryfhau'r mecanweithiau i fonitro a goruchwyllo'n ganolog gywirdeb a phrydlondeb yr holl wybodaeth gyhoeddedig, erbyn mis Gorffennaf 2016 (Disgwyliad C).**

Erbyn hyn, mae gan y Coleg broses gymeradwyo ar gyfer pob math o wybodaeth, sy'n cynnwys Siart Llif y Broses o Gymeradwyo Gwybodaeth am Ddarpariaeth Addysg Uwch a chalendr y broses o gynhyrchu gwybodaeth am ddarpariaeth addysg uwch. Y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch sy'n gyfrifol am gymeradwyo gwybodaeth ac sy'n goruchwyllo'r broses yn ganolog. Mae Calendr yr Wybodaeth am Ddarpariaeth Addysg Uwch yn galluogi i wybodaeth gyhoeddedig gael ei darparu'n amserol.

**Yr argymhelliad: Cymryd camau i ddatblygu rhwydweithiau cyfredol er mwyn galluogi cyflogwyr i gyfrannu at gynllunio a chymeradwyo rhaglenni, erbyn mis Medi 2016 (Disgwyliadau B1, A3.4).**

Mae Strategaeth Ymgysylltu â Chyflogwyr y Coleg yn hysbysu ei ddull o alluogi cyflogwyr i gyfrannu at gynllunio rhaglenni, sydd yn awr yn ofyniad gorfodol y broses o ddatblygu'r cwricwlwm addysg uwch. Erbyn hyn, mae'r Coleg yn cynnwys cyflogwyr yn y gwaith o baratoi ar gyfer digwyddiadau ail-ddilysu a chymeradwyo rhaglenni. Mae rhaglenni'n dal i elwa o gysylltiadau agos â chyflogwyr mewn adeiladu a pheirianeg, lle mae nifer o'r myfyrwyr yn cael eu noddi.

**Yr argymhelliad: Darparu crynodeb cyfunol blynyddol am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a bennwyd o holl adroddiadau'r arholwyr allanol, erbyn mis Medi 2016 (Disgwyliad B7).**

Mae'r Coleg wedi datblygu templed ar gyfer Adroddiad Trosolwg o Adroddiadau'r Arholwyr Allanol, a ddefnyddiodd am y tro cyntaf pan gafodd ei gyflwyno i'r Grŵp Rheoli AGAU ym mis Hydref 2016. Mae'r adroddiad trosolwg yn crynhoi safon a chysondeb y marcio a'r safoni, y nodweddion o arfer da a'r meysydd i'w gwella. Cadarnhaodd y staff uwch eu bod wedi cael y broses o lunio'r adroddiad yn ddefnyddiol i ganfod argymhellion a nodweddion o arfer da, y bydd yn eu lledaenu drwy ddiwyddiadau DPP.

**Yr argymhelliad: Sicrhau bod yr holl gyflogwyr yn derbyn gwybodaeth briodol am gynnwys y cyrsiau a chynnydd y myfyrwyr, erbyn mis Medi 2016 (Disgwyliad B10).**

Mae'r Coleg wedi gweithio i sicrhau ei fod yn rhoi gwybodaeth am y rhaglenni a'r modiwlau ar ddechrau'r astudiaeth i'r cyflogwyr sy'n darparu lleoliadau gwaith neu sy'n noddi'r myfyrwyr. Mae Cydlynwyr Addysg Uwch yn sicrhau bod cyflogwyr yn derbyn yr wybodaeth angenrheidiol. Yn ogystal, mae'r Coleg wedi llunio templed drafft ar gyfer adroddiadau cynnydd (i'w ddefnyddio yng nghanol ac ar ddiwedd y flwyddyn) ond mae'n bwriadu defnyddio rhaglen gyfrifiadurol ar-lein yn y dyfodol. Mae'r Coleg yn ymgynghori â chyflogwyr ar sut i gyflwyno'r wybodaeth y maent ei hangen ac mae'n bwriadu rhannu adroddiadau cynnydd canol-blwyddyn y myfyrwyr gyda'u cyflogwyr ddechrau bob mis Mawrth.

**Yr argymhelliad: Trwy weithio gyda'r corff dyfarnu, cynnwys elfennau dysgu seiliedig ar waith mewn modiwlau priodol er mwyn cadw at ofynion y Meincnod Cymhwyster Gradd Sylfaen, erbyn mis Ionawr 2017 (Disgwyliad A1).**

Yn dilyn yr adolygiad gwreiddiol, mae'r Coleg wedi gwneud adolygiad o elfennau dysgu seiliedig ar waith y Graddau Sylfaen mewn Twristiaeth Ryngwladol a Rheoli Digwyddiadau, mewn Rheoli Gwesty ac Arlwyo, ac mewn Cerddoriaeth (Perfformio a Chynhyrchu), er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at ofynion y *Meincnod Cymhwyster Gradd Sylfaen*. Mae'r adolygiad wedi cynnwys y myfyrwyr, y cyflogwyr, a'r cyrff dyfarnu perthnasol ar gyfer gweithgareddau ail-ddilysu rhaglenni yn 2017. Cadarnhaodd y staff addysgu bod timau'r rhaglenni'n cynllunio canlyniadau dysgu sy'n adlewyrchu profiad proffesiynol yn y byd gwaith go iawn ac wedi ail-ddylunio'r modiwlau gyda'r bwriad o gynnwys canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar waith.

**Yr argymhelliad: Sicrhau bod adroddiadau'r cyrff dyfarnu i fonitro ac adolygu rhaglenni'n cael eu goruchwylio'n fwy cynhwysfawr gan Uwch Dîm Rheoli'r Coleg, erbyn mis Ionawr 2017 (Disgwyliadau B8, A3.3).**

Mae'r Coleg wedi sefydlu'r Grŵp Rheoli AGAU dan gadeiryddiaeth yr Is-Bennaeth sy'n cynnwys aelodau o blith y Penaethiaid Cynorthwyol, y Penaethiaid Ysgol a'r cynrychiolwyr myfyrwyr. Erbyn hyn, mae adroddiadau gan y Grŵp Rheoli AGAU yn eitemau safonol ar yr agenda yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli. Mae gan y Coleg brosesau ar waith i sicrhau goruchwyliaeth yr uwch reolwyr ar adroddiadau monitro blynyddol y rhaglenni gan

y cyrff dyfarnu drwy gynnwys pedwar aelod o blith yr Uwch Dîm Rheoli yn y Grŵp Rheoli AGAU. Fodd bynnag, dim ond cyfran fechan o'r Uwch Dîm Rheoli yw'r aelodau hyn. Nid yw cofnodion y Grŵp Rheoli AGAU yn cynnwys unrhyw archwiliadau o adroddiadau nag ymatebion iddynt, am nad oeddent wedi cael eu derbyn eto (am fod y Grŵp Rheoli AGAU newydd gael ei sefydlu). Fodd bynnag, fe dderbyniodd y Grŵp Rheoli AGAU adroddiadau hunanwerthuso gan yr ysgolion. Mae'r Grŵp Strategaeth Ansawdd a Gwelliant ym maes Addysg Uwch (Grŵp Strategaeth AGAU) hefyd yn adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli, ond nid yw'r cofnodion yn cyfeirio at adroddiadau monitro blynyddol am y rhaglenni. Nid oedd y cofnodion o gyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli a ddarparwyd yn dangos goruchwyliaeth o adroddiadau monitro blynyddol y cyrff dyfarnu. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod angen i'r Coleg barhau i wneud cynnydd yn erbyn yr argymhelliad yma.

**Yr argymhelliad: Datblygu prosesau ffurfiol i ddethol a hyfforddi'r cynrychiolwyr myfyrwyr, ac i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau, erbyn mis Ionawr 2017 (Disgwyliad B5).**

Mae gwefan y Coleg yn amlinellu'r camau gweithredu y mae'r Coleg yn eu cymryd i sicrhau cynrychiolaeth y myfyrwyr a Llais y Myfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys system ar-lein ar gyfer rhoi adborth, adolygiadau modiwl, y broses o adolygu rhaglenni'n flynyddol, y Pwyllgor Ymgynghorol Staff-Myfyrwyr a'r Senedd Myfyrwyr Addysg Uwch. Erbyn hyn, mae'r Coleg yn cofrestru a hyfforddi cynrychiolwyr myfyrwyr ac yn rhoi gwybodaeth iddynt am unrhyw gyfarfodydd a digwyddiadau sydd ar y gweill. Ym mis Hydref 2016, newidiodd y Grŵp Gweithredu Llais y Dysgwr i'r Gweithgor Cynnwys Myfyrwyr, sy'n cynnwys dau gynrychiolydd myfyrwyr addysg uwch, gyda'r bwriad y byddai myfyrwyr yn arwain y Gweithgor erbyn mis Medi 2017. Cynhaliodd y Coleg hefyd gyfarfodydd Senedd Cynrychiolwyr Myfyrwyr Campws ym misoedd Hydref a Thachwedd 2016, sydd wedi eu cynllunio i'w cynnal unwaith bob tymor ar bob un o gampysau'r Coleg, gyda gwahoddiad i bob cynrychiolydd myfyrwyr fynychu. Bydd y Coleg yn monitro effaith ei Strategaeth Cynnwys Myfyrwyr drwy ddefnyddio adborth gan y myfyrwyr, gan gynnwys o gynhadledd y myfyrwyr, i'r Grŵp Rheoli AGAU ac yna i'r Uwch Dîm Rheoli.

**Yr argymhelliad: Trwy weithio gyda'r cyrff dyfarnu, ystyried sut y gellid dadelfennu adroddiadau arholwyr allanol ar gyfer dyfarniadau a gynigir ar draws nifer o safleoedd darparu i nodi'r partner sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth, erbyn mis Ionawr 2017 (Disgwyliad B7).**

Yn dilyn yr adolygiad gwreiddiol, mae'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch wedi gweithio gyda'r cyrff dyfarnu i adolygu'r templed a ddefnyddir ar gyfer adroddiadau arholwyr allanol. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn dangos gwelliannau o ran pennu'r sefydliad darparu perthnasol yn llawn, ac maent wedi gwneud sylwadau penodol sy'n berthnasol i bob sefydliad partner.

**Yr argymhelliad: Datblygu agwedd strategol tuag at welliant ac yn sicrhau bod mentrau gwelliant yn cael eu datblygu a'u gweithredu mewn ffordd drefnus drwy'r Coleg cyfan drwy'r Coleg cyfan, erbyn mis Ionawr 2017 (Gwelliant).**

Mewn ymateb i'r argymhelliad, sefydlodd y Coleg y Grŵp Rheoli AGAU, sy'n adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli ac sy'n cynnal cyfarfodydd tymhorol. Mae gan y Grŵp oruchwyliaeth strategol ac mae'n gyfrifol am weithredu gwelliannau ar draws y Coleg. Yn ei gyfarfod cyntaf, cytunodd y Grŵp Rheoli AGAU ar ddiffiniad o welliant i'r Coleg cyfan, a nododd yn dilyn hynny nifer o gamau gweithredu ar y Cynllun Datblygu Ansawdd Addysg Uwch a'r Prosiectau Gwella gyda themâu, fel y maent wedi eu pennu yn Strategaeth Addysg Uwch 2016-21. Mae'r Coleg wedi datblygu siart llif Gwelliant, sy'n dangos y broses o ystyried prosiectau gwella ac o baratoi cynigion i'w cymeradwyo gan y Grŵp Rheoli AGAU a'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'r prosiectau gwella'n disgrifio cynlluniau ar gyfer gwelliant yn glir,

gydag amserlenni clir sy'n nodi pwy sy'n gyfrifol am gwblhau pob cam gweithredu. Gallai'r Coleg ddarparu nifer o enghreifftiau o effaith a gwerthusiad y prosiectau hyn hyd yn hyn, gan ddangos system wella sy'n gadarn ac sy'n tynnu ar ddata crai ac adborth gan y myfyrwyr.

**Y cadarnhad: Datblygiad system LIFT (Learner Information for Tutors) i roi Gwybodaeth am Ddysgwyr i Diwtoriaid, sy'n tynnu ynghyd yr holl wybodaeth am y myfyrwyr ac yn hwyluso cefnogaeth effeithiol drwy gydol y cyfnod astudio (Disgwyliadau B2, B4).**

Prynodd y Coleg feddalwedd newydd sy'n mewnfario gwybodaeth o UCAS yn uniongyrchol i'r system EBS. Mae'r swyddogaeth yma'n disodli'r elfennau o'r system LIFT sy'n ymwneud â chymorth bugeiliol a chymorth i fyfyrwyr. Mae'r datblygiad yma'n cyfrannu at y gwelliannau sydd wedi'u rhestru yn y Prosiect Gwella: Derbyniadau. Gall y myfyrwyr hefyd ddefnyddio'r meddalwedd i weld eu cynlluniau dysgu a'u hamserlenni.

**Y cadarnhad: Y datblygiad a wnaed i ddiffinio a datblygu cynrychiolaeth y myfyrwyr, a'r camau sy'n cael eu cymryd i gynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr ar bob lefel (Disgwyliad B5).**

Yn dilyn yr ymweliad adolygu, cychwynnodd y Coleg weithredu'r Strategaeth Cynnwys Myfyrwyr yn llawn. Mae gwaith ar droed ymhob un o'r pedwar llinyn gwaith a hysbysir y Grŵp Rheoli Myfyrwyr a'r Grŵp Rheoli Perfformiad a Safonau am gynnydd. Mae gan bob rhaglen gynrychiolwyr myfyrwyr, ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi derbyn hyfforddiant. Mae eu gwaith yn cyfrannu at yr ystod eang o ddulliau y mae'r Coleg yn eu defnyddio i gasglu adborth gan y myfyrwyr.

## Canfyddiadau allweddol

### Beirniadaethau ASA am Goleg Castell-Nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp o Golegau NPTC

Rhoddodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch yn y Coleg.

- Mae'r modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynnigir ar ran ei gyrff dyfarnu graddau a sefydliadau dyfarnu eraill yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **gofyn gwelliant i gyflawni** disgwyliadau'r DU.

### Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y nodweddion o **arfer da** dilynol yn y Coleg.

- yr amrywiol fecanweithiau i gefnogi'r myfyrwyr, yn arbennig y rheiny o gefndiroedd addysg uwch anhraddodiadol mewn ardaloedd o amddifadedd, i gyflawni eu potensial academiaidd, personol a phroffesiynol (Disgwyliad B4).

### Argymhellion

Mae tîm adolygu ASA yn gwneud yr **argymhellion** dilynol i'r Coleg.

Erbyn mis Gorffennaf 2016:

- sefydlu proses i gofnodi'n systematig ymgysylltiad y staff gyda gweithgareddau ysgolheigaidd a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n benodol i addysg uwch (Disgwyliad B3)
- cymryd camau pellach i sicrhau bod prosesau safoni mewnol y Coleg yn gweithio'n effeithiol, a gwneud prosesau o'r fath yn eglur i arholwyr allanol (Disgwyliadau B6, B7)
- sicrhau bod holl gostau ychwanegol y cyrsiau'n cael eu datgan yn glir ymhob cyhoeddiad priodol (Disgwyliad C)
- cryfhau'r mecanweithiau i fonitro a goruchwyllo'n ganolog gywirdeb a phrydlondeb yr holl wybodaeth gyhoeddedig (Disgwyliad C).

Erbyn mis Medi 2016:

- cymryd camau i ddatblygu rhwydweithiau cyfredol er mwyn galluogi cyflogwyr i gyfrannu at gynllunio a chymeradwyo rhaglenni (Disgwyliadau B1, A3.4)
- darparu crynodeb cyfunol blynyddol am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a bennwyd o holl adroddiadau'r arholwyr allanol (Disgwyliad B7)
- sicrhau bod yr holl gyflogwyr yn derbyn gwybodaeth briodol am gynnwys y cyrsiau a chynnydd y myfyrwyr (Disgwyliad B10).

Erbyn mis Ionawr 2017:

- trwy weithio gyda'r corff dyfarnu, cynnwys elfennau dysgu seiliedig ar waith mewn modiwlau priodol er mwyn cadw at ofnyon y *Meincnod Cymhwyster Gradd Sylfaen* (Disgwyliad A1)
- sicrhau bod adroddiadau'r cyrff dyfarnu i fonitro ac adolygu rhaglenni'n cael eu goruchwyllo'n fwy cynhwysfawr gan Uwch Dîm Rheoli'r Coleg (Disgwyliadau B8, A3.3)



- datblygu prosesau ffurfiol i ethol a hyfforddi'r cynrychiolwyr myfyrwyr, ac i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau (Disgwyliad B5)
- trwy weithio gyda'r cyrff dyfarnu, ystyried sut y gellid dadelfennu adroddiadau arholwyr allanol ar gyfer dyfarniadau a gynigir ar draws nifer o safleoedd darparu i nodi'r partner sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth (Disgwyliad B7)
- datblygu agwedd strategol tuag at welliant ac yn sicrhau bod mentrau gwelliant yn cael eu datblygu a'u gweithredu mewn ffordd drefnus drwy'r Coleg cyfan drwy'r Coleg cyfan (Gwelliant).

## Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith

Mae tîm adolygu ASA yn **cadarnhau** r camau gweithredu dilynol y mae Coleg Castell-Nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp o Golegau NPTC yn eu cymryd yn barod i sicrhau safonau academiaidd ac i wella'r ddarpariaeth addysgol y mae'n ei chynnig i'w myfyrwyr.

- Datblygiad system LIFT (Learner Information for Tutors) i roi Gwybodaeth am Ddysgwyr i Diwtoriaid, sy'n tynnu ynghyd yr holl wybodaeth am y myfyrwyr ac yn hwyluso cefnogaeth effeithiol drwy gydol y cyfnod astudio (Disgwyliadau B2, B4).
- Y datblygiad a wnaed i ddiffinio a datblygu cynrychiolaeth y myfyrwyr, a'r camau sy'n cael eu cymryd i gynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr ar bob lefel (Disgwyliad B5).

## Ynghylch Coleg Castell-Nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp o Golegau NPTC

Daeth y Grŵp o Golegau NPTC (y Coleg) i fodolaeth ar 1 Awst 2013 drwy gyfuno Coleg Castell-Nedd Port Talbot a Choleg Powys, a'i enw gynt oedd Coleg Castell-Nedd Port Talbot. Mae'r Coleg yn un o'r grwpiau mwyaf o golegau a darparwyr addysg yng Nghymru o ran nifer y myfyrwyr ac mae ganddo drosiant o oddeutu £55 miliwn y flwyddyn. Mae'r Coleg yn cynnig tystysgrifau ôl-raddedig a thystysgrifau proffesiynol mewn addysg, graddau sylfaen a graddau baglor, Tystysgrifau a Diplomâu Cenedlaethol Uwch a Thystysgrifau a Diplomâu Addysg Uwch; ac mae'r cwricwlwm addysg uwch yn estyn ar draws 10 ysgol academiaidd. Mae 288 o fyfyrwyr llawn amser a 133 o fyfyrwyr rhan amser wedi'u cofrestru ar raglenni addysg uwch ar hyn o bryd.

Mae'r Coleg yn cwmpasu mwy na thraean o dirfas Cymru ac yn gweithredu o bedair prif ganolfan fawr: Campws Afan, Campws Bannau Brycheiniog, Campws Castell-nedd a Champws Y Drenewydd. Mae gan y Coleg hefyd ganolfannau llai, yn cynnwys Campws Pontardawe, Campws Maesteg, Campws Stryd y Frenhines, Campws Abertawe, Campws Llandrindod ac Academi Chwaraeon o'r radd flaenaf ym Mharc Llandarsi. Mae'r Coleg yn berchen ar nifer o is-gwmnïau sy'n gweithredu ar amrywiol safleoedd yn Abertawe, Llandarsi a Llanelli, ac mae'n rhedeg ysgol iaith ryngwladol yn Hampshire (LSI Portsmouth).

Datganiad cenhadaeth y Coleg yw "bod yn ddarparwr addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf", ac mae hefyd yn defnyddio'r pennawd 'Mwy nag addysg yn unig'. Mae'r Coleg yn ymfalchïo yn y gweithgareddau allgwrwlaidd amrywiol y mae'n eu darparu, sy'n cynnwys chwaraeon, clybiau, cerddoriaeth a dawns, yn ogystal ag addysg a hyfforddiant mewn pynciau galwedigaethol. Mae'n gwasanaethu nifer o ardaloedd o amddifadedd economaidd a chymdeithasol a rhoddir pwyslais sylweddol ar ehangu cyfranogaeth mewn addysg, ar ddysgu seiliedig ar waith, ar bartneriaethau, ac ar annog cynnydd o addysg bellach i addysg uwch. Mae'n ystyried bod ei genhadaeth yn yr ardal yn cynnwys helpu i ymdrin â thlodi drwy wella ffyniant economaidd, ac mae'n cymryd camau i hybu dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r Coleg yn darparu amrediad eang o hyfforddiant wedi'i deilwra'n arbennig i'r diwydiant drwy ei gangen fasnachol Trainingwales.com. Y Coleg yw'r prif ddarparwr a daliwr contract hefyd yn Academi Sgiliau Cymru, sef partneriaeth o wyth darparwr hyfforddiant sy'n darparu rhyngddynt gontract dysgu seiliedig ar waith o £12 miliwn.

Adolygiad Addysg Uwch: Cymru o Goleg Castell-Nedd Port Talbot  
yn masnachu fel Grŵp o Golegau NPTC

Mae'r Coleg yn gweithio gyda phum darparwr addysg uwch allanol: Pearson (rhaglenni HNC a HND mewn Adeiladu, ac mewn Cyfrifiadura a Datblygu Systemau); a gyda phedair prifysgol partner: Prifysgol Glyndŵr (Gradd Sylfaen mewn Busnes Gwledig a rhaglenni BA (Anrh) mewn Rheoli Busnes a Thechnoleg Gwybodaeth, ac mewn Saesneg a Hanes); Prifysgol De Cymru (graddau atodol BA/BSc (Anrh) mewn Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Plentyndod, Tystysgrif Addysg Uwch mewn Camddefnyddio Sylweddau ac Oedolion Agored i Niwed, Diploma Addysg Uwch mewn Iechyd y Cyhoedd, Graddau Sylfaen mewn Astudiaethau Busnes, Astudiaethau Plentyndod, Nyrsio Deintyddol a Hyfforddiant a Datblygiad Chwaraeon, rhaglenni HND mewn Astudiaethau Busnes a'r Dystysgrif Addysg Uwch i Raddedigion); Prifysgol Abertawe (Graddau Sylfaen mewn Peirianeg Drydanol a Pheirianeg Fecanyddol); a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Graddau Sylfaen, graddau atodol BA (Anrh), rhaglenni HNC a HND mewn Rheoli Gwesty ac mewn Twristiaeth Ryngwladol a Rheoli Digwyddiadau, a Graddau Sylfaen mewn Cerddoriaeth (Perfformio a Chynhyrchu) ac Astudiaethau Gofal). Mae'r partneriaethau hyn a phob agwedd o'r ddarpariaeth addysg uwch yn cael eu rheoli a'u monitro gan y Grŵp Rheoli Addysg Uwch (Grŵp Rheoli AU).

## Esboniad o'r canfyddiadau am Goleg Castell-Nedd Port Talbot yn masnachu fel Grŵp o Golegau NPTC

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau'r adolygiad yn fwy manwl.

Mae termau a allai fod yn anghyfarwydd i rai darllenwyr wedi'u cynnwys mewn [rhestr termau byr](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae [rhestr termau](#) llawnach ar gael ar wefan ASA, a gallwch weld diffiniadau ffurfiol o dermau penodol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr ar gyfer y [dull adolygu](#), ac hefyd ar wefan ASA.

# 1 Y Feirniadaeth am: Y modd y cynhelir safonau academaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a sefydliadau dyfarnu eraill

**Disgwyliad (A1):** Er mwyn sicrhau safonau academaidd trothwy, mae cyrff dyfarnu graddau'n:

a) sicrhau bod gofynion y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn cael eu cyflawni trwy'r camau canlynol:

- gosod eu cymwysterau ar lefel briodol y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol
- sicrhau bod canlyniadau dysgu'r rhaglen yn alinio â'r disgrifydd cymhwyster perthnasol yn y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol
- enwi'r cymwysterau yn unol â'r confensiynau teitlo a nodir yn y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch
- dyfarnu cymwysterau i ddynodi cyflawni canlyniadau dysgu'r rhaglen a ddiffinnir yn bositif

b) ystyried arweiniad ASA ar nodweddion cymhwyster

c) lle maent yn dyfarnu credydau'r DU, aseinio gwerthoedd credyd a llunio rhaglenni sy'n alinio â manylebau'r fframwaith credydau cenedlaethol sy'n berthnasol

d) ystyried y Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol.

**Cod Ansawdd, Pennod A1: Pwyntiau Cyfeirio'r DU ac Ewrop ar gyfer Safonau Academaidd**

## Y canfyddiadau

1.1 Nid yw'r Coleg yn gorff dyfarnu graddau, ond mae'n darparu 30 o raglenni addysg uwch gyda phedair prifysgol ddyfarnu, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Abertawe, ynghyd â phedair rhaglen HNC a HND a ddyfernir gan Pearson.

1.2 Mae'r Rhestrau Gwirio o Gyfrifoldebau'n amlinellu cyfrifoldebau'r Coleg o ran cynnal safonau academaidd y dyfarniadau. Er bod y cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu'n gyfrifol am osod safonau academaidd y dyfarniadau, ac er bod ganddynt y cyfrifoldeb cyffredinol am gynnal y safonau hynny, mae'r Coleg yn gyfrifol am ddarparu ac asesu'r rhaglenni astudio, ac am gynnal safonau academaidd y cyrff dyfarnu graddau a'r sefydliad dyfarnu, fel sydd wedi'u disgrifio yn y Rhestrau Gwirio o Gyfrifoldebau a'r Memoranda Cytundeb.

1.3 Mae'r rhaglenni'n arwain at y dyfarniadau dilynol yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ): Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR), graddau baglor gydag anrhydedd, Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg, graddau sylfaen, Diplomâu Cenedlaethol Uwch, Diplomâu Addysg Uwch, Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch a Thystysgrifau Addysg Uwch. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Coleg yn dangos y byddai'r Disgwyliad wedi'i gyflawni.

1.4 Profodd y tîm y Disgwyliad drwy graffu ar ddogfennau pellach, yn cynnwys dogfennau'r prifysgolion dyfarnu, manylebau rhaglenni, adroddiadau arholwyr allanol ynghyd ag ymatebion iddynt, dogfennaeth rhaglenni, a chofnodion cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Addysg Uwch, y Grŵp Strategaeth Ansawdd, y Grŵp Cydlynwyr Addysg Uwch a'r Grŵp Dysgu a Pherfformiad. Cyfarfu'r tîm hefyd â staff uwch, staff academiaidd a staff cymorth, a myfyrwyr.

1.5 Defnyddir y FHEQ fel pwynt cyfeirio i'r holl raglenni addysg uwch yn y Coleg, yn unol â phrosesau cymeradwyo'r cyrff dyfarnu ar gyfer darpariaeth a ddilysir, ac ym mhroses fewnol y Coleg ochr yn ochr â phroses Pearson ar gyfer y ddarpariaeth a ddyfernir gan y sefydliad hwnnw. Mae manylebau rhaglenni ar gyfer y rhaglenni a gymeradwyir gan gyrff dyfarnu'n cynnwys cyfeiriad at Ddatganiadau Meincnodi Pwnc, a'r *Meincnod/Nodweddion Cymhwyster Gradd Sylfaen*, lle bo'n briodol.

1.6 Mae Cynllun Strategol ar gyfer Addysg Uwch 2013-16 y Coleg yn cefnogi Cynllun Strategol 2011-15 cyffredinol Grŵp NPTC, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'r Cynllun Strategol ar gyfer Addysg Uwch yn fanwl ac yn darlunio aliniad y cyfeiriad y mae'r Coleg yn ei roi i'w ddarpariaeth addysg uwch, o fewn yr amgylchedd mewnol (y Coleg) ac allanol (Cymru) fel ei gilydd. Yn benodol, mae'r Coleg yn ystyried bod partneriaethau, yn rhai cyffredol a newydd, yn elfennau pwysig yn y broses o ddatblygu addysg uwch, ochr yn ochr â datblygu rhaglenni hyblyg, yn arbennig y graddau sylfaen a'r prentisiaethau uwch, ac archwilio cyfleoedd rhyngwladol.

1.7 Mae'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch yn gyfrifol am reoli'r addysg uwch yn strategol ar draws y Coleg. Mae'r Grŵp Rheoli AU yn goruchwyllo'r perfformiad ym maes addysg uwch, ac mae'n ystyried adborth gan fyfyrwyr ac yn adolygu a datblygu addysg uwch ar draws y Coleg. Mae canlyniadau cyfarfodydd y Grŵp Rheoli AU yn bwydo i mewn i'r Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd, ac o'r fan honno i'r Grŵp Dysgu a Rheoli Perfformiad ac i'r Uwch Dîm Rheoli, gyda hysbysiadau priodol i gyfarfod Dysgu a Pherfformiad y Corff Llywodraethu.

1.8 Mae'r prifysgolion dyfarnu'n gyfrifol am ddilysu'r rhaglenni y maent yn eu dyfarnu, a defnyddir eu prosesau eu hunain i sicrhau bod y safonau academiaidd ar gyfer y cymwysterau'n cyfateb gyda'u fframweithiau a'u rheoliadau academiaidd eu hunain. Mae pob rhaglen newydd wedi'i halinio gyda'r fframwaith cymwysterau perthnasol drwy broses ddilysu'r corff dyfarnu graddau sydd wedi'i hamlinellu yn y cytundebau partneriaeth a'r dogfennau dilysu, ac mae manylebau rhaglen y corff dyfarnu graddau yn y llawlyfrau rhaglen yn cynnwys disgrifwyr cymhwyster a Datganiadau Meincnodi Pwnc. Mae prosesau ail-ddilysu ac ail-gymeradwyo'n sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal, ac mae'r prifysgolion dyfarnu'n cefnogi hynny drwy fonitro'r Coleg yn flynyddol. Ar gyfer rhaglenni Pearson, mae safonau wedi'u halinio â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol drwy ddedol unedau yn unol â'r rheolau cyfuno. Mae manylebau rhaglenni ar gyfer rhaglenni Pearson yn dangos y pwyntiau cyfeirio allanol yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod y broses gynllunio, yn cynnwys y FHEQ, y Cod Ansawdd a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.

1.9 Ar gyfer graddau sylfaen a gynigir gan y Coleg, mae'r Coleg yn gyffredinol yn ystyried y *Meincnod Cymhwyster Gradd Sylfaen*, gydag elfennau dysgu seiliedig ar waith a chysylltiad rhwng theori a'r ymarferol wedi'i sefydlu wrth ddilysu a'i nodi mewn manylebau rhaglenni yn y dogfennau dilysu. Ond, dilyswyd y Radd Sylfaen mewn Perfformio a Chynhyrchu Cerddoriaeth yn 2012, mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS), heb elfen ddysgu seiliedig ar waith, "nad ydyw'n ymarferol ar gyfer y cymhwyster hwn" yn ôl y sylwadau, gyda rhestr leoliad y myfyrwyr ar gyfer 2015-16 yn nodi y byddai briffiau byw gan gysylltiadau yn y diwydiant yn cael eu defnyddio yn lle lleoliad gwaith. Er nad ydynt yn cyfeirio at ddysgu seiliedig ar waith yn benodol, mae canlyniadau dysgu ar lefel y rhaglen yn cynnwys cyfleoedd i ennill cyflawniad yn amgylchedd y gweithle. Mae'r ddogfen ddilysu'n nodi bod yr 'elfen ddysgu seiliedig ar waith y radd sylfaen ar ei mwyaf amlwg yn y modiwl Cerddoriaeth Gymunedol a'r modiwl Y Fusnes Gerddoriaeth, ac mae hyn yn amlwg yn y disgrifwyr modiwl'. Er bod canlyniadau dysgu modiwlau ar gyfer y modiwlau yma'n

cynnwys y rheiny sy'n addas ar gyfer dysgu ac asesu drwy gyfeirio at y gweithle, nid yw'r briffiau asesu a welwyd gan y tîm yn gofyn bod hwnnw'n rhan o'r rhaglen, yr eithriad i hynny yw un aseiniad, gyda phwysiad o 70 y cant, yn y modiwl Lefel 5 Cerddoriaeth Gymunedol. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Coleg, drwy weithio gyda'r corff dyfarnu, yn cynnwys elfennau dysgu seiliedig ar waith mewn modiwlau priodol er mwyn cadw at ofynion y *Meincnod Cymhwyster Gradd Sylfaen*.

1.10 I gloi, canfu'r tîm adolygu bod y prosesau sydd ar waith yn effeithiol i reoli cyfrifoldebau'r Coleg am gynnal safonau academiaidd, a'r unig ofyniad yw bod raid cyflawni gweithgareddau sydd ar waith yn barod yn rhywle arall mewn perthynas â dysgu seiliedig ar waith ar un rhaglen gradd sylfaen. Felly, mae'r Disgwyliad hwn wedi'i gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (A2.1): Er mwyn sicrhau eu safonau academaidd, mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu fframweithiau a rheoliadau academaidd sy'n eglur a chynhwysfawr i lywio sut y maent yn dyfarnu credyd neu gymhwyster academaidd.**

**Cod Ansawdd, Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academaidd**

**Y canfyddiadau**

1.11 Er bod y cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu'n gyfrifol am safonau academaidd eu dyfarniadau, mae'r Coleg yn gyfrifol am ddarparu ac asesu modiwlau a rhaglenni, ac am gynnal y safonau academaidd hynny drwy ei fframweithiau academaidd.

1.12 Mae'r prifysgolion dyfarnu wedi sefydlu prosesau ar gyfer cymeradwyo ac ail-gymeradwyo'r rhaglenni addysg uwch yn y Coleg, sy'n sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu gosod ar lefel sy'n cwrdd â safon trothwy'r DU ar gyfer y cymhwyster a'u bod yn cyfateb â'u fframweithiau a'u rheoliadau academaidd eu hunain. Disgrifir cyfraniad y Coleg at gynnal safonau academaidd yn y Memoranda Cytundeb gyda'r prifysgolion dyfarnu ac yn y Rhestrau Gwirio o Gyfrifoldebau. Mae'r cytundebau gyda'r cyrff dyfarnu'n nodi cyfrifoldebau bob partner yn glir ac yn nodi bod y Coleg yn gyfrifol am yr holl waith o ddarparu ac asesu'r rhaglenni a ddilyswyd ac y cytunwyd arnynt, tra bo'r prifysgolion yn gyfrifol am benodi arholwyr allanol a byrddau asesu. Mae'r Rhestr Wirio o Gyfrifoldebau ar gyfer rhaglenni Pearson yn rhestr safonol, a gan y Coleg mae'r cyfrifoldeb am y fframweithiau a'r trefniadau academaidd, heblaw am gynllun cychwynnol y rhaglen a chymeradwyaeth gan Ofqual.

1.13 I weithredu ei gyfrifoldebau, mae'r Coleg yn gweithio gyda rheoliadau academaidd y prifysgolion dyfarnu partner ar gyfer yr holl ddarpariaeth sydd o dan eu cytundebau. Mae'r rheoliadau hyn, neu'r cysylltiadau atynt, wedi'u nodi'n amlwg i'r staff a'r myfyrwyr yn llawlyfrau'r rhaglenni. Ar gyfer rhaglenni Pearson, cyfeirir at Lefelau 4 i 7 yn y Canllaw Asesu ar gyfer Canolfannau BTEC fel "llywio'r rheoliadau sy'n ymwneud ag asesu", a rhoddir manylion am gamymddwyn academaidd, amgylchiadau esgusodol ac apeliadau, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae'r Grŵp Rheoli Addysg Uwch, a gadeirir gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch, yn gyfrifol am berfformiad yr holl raglenni addysg uwch yn y Coleg, ac am gyfathrebiad effeithiol ar bob mater sy'n ymwneud ag addysg uwch. Mae'r Grŵp Rheoli AU yn adrodd i'r Grŵp Dysgu a Rheoli Perfformiad ac i'r Uwch Dîm Rheoli. Byddai'r dystiolaeth a ddarperir gan y Coleg yn y dogfennau hunanwerthuso ac mewn dogfennau eraill yn galluogi i'r Disgwyliad hwn gael ei gyflawni.

1.14 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy graffu ar ddogfennau pellach, yn cynnwys dogfennaeth ddilysu rhaglenni a chofnodion cyfarfodydd cymeradwyo'r cyrff dyfarnu, adroddiadau monitro blynyddol y prifysgolion a Pearson, proses gymeradwyo fewnol y Coleg ar gyfer rhaglenni Pearson, Polisi Camymddwyn Academaidd y Coleg, y Canllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Fewnol, Apeliadau Academaidd, Camymddygiad Staff, Gwrthdaro Buddiannau, Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Amgylchiadau Esgusodol, canllawiau'r Byrddau Asesu ac adroddiadau arholwyr allanol, ynghyd ag ymatebion iddynt a'u cynlluniau gweithredu. Cyfarfu'r tîm hefyd â staff uwch, staff academaidd a myfyrwyr yn ystod yr ymweliadau.

1.15 Mae'r Coleg yn gweithio gyda phedwar corff dyfarnu ynghyd â sefydliad dyfarnu. Canfu'r tîm adolygu dystiolaeth i ddangos ei fod yn cael ei reoli'n effeithiol drwy brosesau'r Coleg ei hun ac arweiniad clir i'r staff, er enghraifft, yng Nghlanllawiau Asesu ym maes Addysg Uwch a Strategaeth Addysgu, Dysgu ac Asesu Grŵp NPTC. Gallai staff uwch a staff academaidd ddangos natur gadarn y prosesau sydd ar waith, gan wahaniaethu'n glir rhwng rhaglenni bob prifysgol ddyfarnu a'r staff sy'n cydlynu'r gwaith o'u darparu, gyda thimau gosodedig yn cydweithio â Swyddog Cyswllt bob prifysgol. Mae gwybodaeth glir a manwl ar

gael i'r staff a'r myfyrwyr am bob rhaglen a phob corff dyfarnu ar rith-amgylchedd dysgu'r Coleg, gyda dolenni perthnasol at, er enghraifft, reoliadau academiaidd.

1.16 Mae'r Coleg yn sicrhau bod ei system asesu'n gadarn ac yn glynu at ofynion y cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu drwy ddogfennaeth asesu glir. Ar gyfer darpariaeth a ddyfernir gan brifysgolion, mae'r prifysgolion yn gosod ac yn cymeradwyo asesiadau drwy'r system arholwyr allanol, ac mae Byrddau Maes Astudio, Byrddau Cynnydd a Byrddau Dyfarnu'n cadarnhau'r marciau ar gyfer darpariaeth y prifysgolion wedi'u gwirio drwy broses safoni fewnol. Cyhoeddir gwybodaeth ar-lein am ganlyniadau dysgu ac asesiadau bob rhaglen i'r myfyrwyr cyfredol ac i'r darpar fyfyrwyr, ac mae proses safoni ar waith ar gyfer rhaglenni Pearson. Mae'r Canllawiau ar gyfer Byrddau Asesu a chylchoedd gwaith y Coleg yn glynu at y Canllaw Asesu ar gyfer Canolfannau BTEC 2015-16, ac roedd y Byrddau Asesu yn 2015 ar gyfer rhaglenni'r cyrff dyfarnu a Pearson yn glynu at y gofynion perthnasol.

1.17 Canfu'r tîm adolygu bod y Coleg yn glynu at y prosesau a nodwyd gan y cyrff dyfarnu i osod safonau ar gyfer y rhaglenni gradd sylfaen sydd ar etholfraint a chadarnhawyd hyn yn adroddiadau'r arholwyr allanol. Yn ogystal, mae'r fframweithiau academiaidd sydd yn eu lle i sicrhau safonau academiaidd ar raglenni Pearson yr un mor effeithiol. Felly, canfu'r tîm bod y Disgwyliad hwn wedi'i gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**



**Disgwyliad (A2.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cadw cofnod diffiniol o bob rhaglen a chymhwyster y maent yn eu cymeradwyo (a newidiadau dilynol iddynt) sy'n gweithredu fel pwynt cyfeirio ar gyfer darparu ac asesu'r rhaglen, ei monitro a'i hadolygu, ac ar gyfer darparu cofnodion astudio i fyfyrwyr a chyn-fyfrwyr.**

### **Cod Ansawdd, Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academaidd**

#### **Y canfyddiadau**

1.18 Mae prifysgolion dyfarnu'r Coleg yn llunio ac yn cadw'r dogfennau rhaglen diffiniol ar gyfer eu darpariaeth yn y Coleg, ac mae'r cyfrifoldebau wedi'u nodi yn y Memoranda Cytundeb a'r Rhestrau Gwirio o Gyfrifoldebau. Mae'r Rhestr Wirio o Gyfrifoldebau ar gyfer darpariaeth Pearson yn nodi bod y Coleg yn gyfrifol am "roi gwybodaeth ddiffiniol am y rhaglenni Cenedlaethol Uwch fel y maent wedi'u darparu yn eu sefydliad, sy'n cynnwys manyleb rhaglen wedi'i theilwra" a glynir at hyn.

1.19 Mae'r Coleg yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod y ddogfen ddiffiniol ar gyfer bob rhaglen ar gael i'r staff a'r myfyrwyr, i hysbysu'r gwaith o ddarparu ac asesu. Gwneir hyn drwy lawlyfrau rhaglen, sydd ar gael mewn print ac ar rith-amgylchedd dysgu'r Coleg, a chyfeirir y myfyrwyr atynt wrth eu hymsefydlu ar ddechrau'r rhaglen. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Coleg yn y dogfennau hunanwerthuso, ynghyd â thystiolaeth bellach, yn galluogi i'r Disgwyliad hwn gael ei gyflawni yn ei ddyluniad.

1.20 Profodd y tîm y Disgwyliad drwy graffu ar ddogfennau a ddarparwyd gan y Coleg, yn cynnwys manylebau bob rhaglen, samplau o friffiau asesu a chanllawiau modiwlau, cofnodion Byrddau Asesu, adroddiadau'r arholwyr allanol, ac adroddiadau monitro blynyddol y cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu, ac aethent ati i asesu lledaeniad effeithiol y dogfennau rhaglen diffiniol mewn cyfarfodydd gyda staff a myfyrwyr.

1.21 Mae'r dogfennau diffiniol yn cynnwys canlyniadau dysgu ar lefel y rhaglen, a disgrifir y rheiny ar lefel y modiwl/uned mewn canllawiau modiwlau. Ar gyfer y rhaglenni a ddyfernir gan y prifysgolion, disgrifir canlyniadau dysgu ar lefel y rhaglen a'r modiwl yn y manylebau rhaglenni, sydd ar gael yn llawlyfrau'r rhaglennini ac ar wefan y brifysgol berthnasol. Ar gyfer rhaglenni Pearson, mae gan y Coleg fanylebau rhaglen cyd-destunol, sy'n amlinellu canlyniadau ar lefel y rhaglen fel sgiliau lefel uwch, gyda chanlyniadau'r unedau wedi'u disgrifio gan y sefydliad dyfarnu.

1.22 Cynhelir Byrddau Asesu ymhob prifysgol ddyfarnu, ac yn y Coleg ar gyfer rhaglenni Pearson, i sicrhau bod modiwlau wedi cael eu darparu yn unol â'r disgrifwyr modiwl cymeradwy.

1.23 Mae'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch yn llunio adroddiad monitro blynyddol ar gyfer pob corff dyfarnu, ac adroddiad mewnol i'r Grŵp Rheoli AU. Mae'r adroddiadau hyn yn amlinellu gwelliannau i'r adnoddau, canlyniadau prosesau o adolygu rhaglenni'n gyfnodol a chymeradwyo rhaglenni newydd, gweithgareddau sicrhau a gwella ansawdd, ac adolygiad o adroddiadau arholwyr allanol. Mae'r broses fonitro flynyddol hefyd yn cynnwys adroddiad hunanasesu blynyddol yn benodol i ddarpariaeth addysg uwch, ac yn rhoi adroddiad am gamau gweithredu mewn cymhariaeth â meysydd allweddol sydd angen eu datblygu i sicrhau bod safonau'n cael eu monitro a'u cynnal.

1.24 Mae dogfennau rhaglen diffiniol yn darparu sylfaen ar gyfer y gwaith o fonitro ac adolygu rhaglenni, sy'n cynnwys adroddiadau monitro blynyddol y cyrff dyfarnu ac adroddiadau trosolwg y prifysgolion partner a Pearson.

1.25 Mae'r canlyniadau dysgu ar lefel rhaglenni ac unedau neu fodiwlau, fel y maent wedi'u disgrifio yn y manylebau rhaglen, yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer y gwaith asesu ac o hynny gynnydd a chyflawniad y myfyrwyr, ac yn darparu cofnodion astudio. Mae arholwyr allanol yn craffu ar y broses o asesu canlyniadau dysgu a chaiff ei gwirio gan Fyrddau Asesu (gwelwch hefyd Ddisgwyliadau B6 a B7).

1.26 Canfu'r tîm adolygu bod y prosesau sydd ar waith i ddarparu a chynnal dogfennaeth rhaglen-ddiffiniol yn y Coleg yn sail gref ar gyfer darparu ac asesu rhaglenni, a bod y Disgwyliad hwn wedi'i gyflawni felly, gyda lefel isel o risg.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (A3.1): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu prosesau, a'u gweithredu'n gyson, ar gyfer cymeradwyo rhaglenni a addysgir a graddau ymchwil sy'n sicrhau bod safonau academiaidd yn cael eu gosod ar lefel sy'n cwrdd â safon trothwy'r DU ar gyfer y cymhwyster a'u bod yn cyfateb â'u fframweithiau a rheoliadau academiaidd eu hunain.**

**Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau**

### Y canfyddiadau

1.27 Mae'r Coleg yn darparu rhaglenni ar etholfraint gan bedair prifysgol yng Nghymru, a rhaglenni Cenedlaethol Uwch gan Pearson. Mae'r cyfrifoldebau am y rhaglenni hyn wedi'u nodi yn y Memoranda Cytundeb gyda'r cyrff dyfarnu. Mae cyfrifoldebau penodol wedi'u pennu yn y Rhestrau Gwirio o Gyfrifoldebau ar gyfer pob un o'r cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu, sy'n datgan yn eglur mai gan y cyrff dyfarnu a Pearson mae'r cyfrifoldeb am gynllunio rhaglenni a'u halinio â safonau trothwy'r DU, yn y drefn honno. Mae'r cyrff dyfarnu'n gyfrifol am osod a gwirio safonau mewn cyfatebiaeth â throthwyon y DU, y FHEQ a'u safonau rheoliadol unigol.

1.28 Mae timau rhaglen yn cyfranogi rhywfaint yn y gwaith o gynllunio rhaglenni. Er enghraifft, dewiswyd modiwlau ar y rhaglen atodol BSc Cyfrifiadureg a Systemau Gwybodaeth o blith y rheiny a gynigir gan gorff dyfarnu PCYDDS, i gyfateb ag anghenion penodol myfyrwyr Grŵp NPTC, a dewiswyd unedau ar y rhaglen HND Datblygu Systemau Cyfrifiadurol o blith y rheiny a gynigir gan Pearson i ddarparu cynnydd cydlynol i'r radd atodol BSc. Dyfeisiwyd a dilyswyd modiwl newydd ar gyfer y rhaglen FdSc mewn Hyfforddiant a Datblygiad Chwaraeon o ganlyniad i adborth gan y myfyrwyr. Ar raglenni eraill, mae timau wedi cymryd rhan yn y broses o ddatblygu modiwlau.

1.29 Cynhyrchir manylebau rhaglen gan y cyrff dyfarnu ar gyfer eu dyfarniadau a ddarperir yn y Coleg. Mae'r cyrff dyfarnu'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda safonau trothwy'r DU a'r FHEQ ac yn cael eu hysbysu gan y Datganiadau Meincnodi Pwnc priodol. Mae'r Coleg yn cynhyrchu manylebau rhaglen ar gyfer rhaglenni Pearson ar sail eu gwybodaeth.

1.30 Mae'r cyrff dyfarnu'n gyfrifol am osod asesiadau fel sydd wedi'i nodi yn y Rhestr Wirio o Gyfrifoldebau, ond mae timau rhaglen yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio tasgau asesu i sicrhau bod dulliau asesu'n amrywiol ac yn briodol i fyfyrwyr Grŵp NPTC.

1.31 Mae rhaglenni sy'n arwain at ddyfarniadau'r prifysgolion partner yn cael eu hadolygu'n gyfnodol yn unol â'u rheoliadau a'u Memoranda Cytundeb. Cwblhawyd nifer o ddilysiadau ac adolygiadau dilysu'n llwyddiannus yn y flwyddyn academiaidd flaenorol. Aeth y Coleg drwy weithgaredd Ail-gymeradwyo Sefydliadol llwyddiannus a weithredwyd gan Brifysgol De Cymru yn 2014 a gan PCYDDS yn 2015.

1.32 Mae'r Coleg yn nodi ei fod yn defnyddio'r FHEQ fel pwynt cyfeirio wrth gynllunio ac adolygu pob rhaglen addysg uwch yn y Coleg. Mae dyraniad rhaglenni a modiwlau newydd ar lefel briodol yn y FHEQ yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y corff dyfarnu wrth ddilysu. Ar gyfer bob rhaglen sy'n cael ei chymeradwyo/dilysu gan y prifysgolion dyfarnu, mae manyleb y rhaglen yn cynnwys disgrifydd y cymhwyster, cyfeiriad at feincnod y pwnc, a chanlyniadau'r dysgu, ar gael yn llawlyfr y rhaglen. Mae graddau sylfaen yn cael eu datblygu a'u darparu yn unol â'r *Nodweddion Cymhwyster Gradd Sylfaen*. Ar gyfer rhaglenni Pearson, mae'r Coleg yn sicrhau bod y broses o ddethol unedau'n alinio gyda'r rheolau cyfuno.

1.33 Mae proses i gymeradwyo rhaglenni'n fewnol cyn eu cyflwyno i'r cyrff dyfarnu i'w dilysu. Mae'r broses hon yn cynnwys datblygu sail resymegol sy'n canolbwyntio ar anghenion y myfyrwyr, cyfleoedd i symud ymlaen, y galw am sgiliau yn y rhanbarth a gwybodaeth am

y farchnad lafur, sy'n cael eu hystyried ochr yn ochr â'r gofynion adnoddau o ran dysgu a staffio. Wrth ddewis pa gorff dyfarnu i gyflwyno iddo i gael dilysiad, edrychir ar arbenigedd y brifysgol honno yn y maes astudio. Mae'r Coleg wedi derbyn Cymeradwyaeth fel Canolfan gan Pearson i ddarparu rhaglenni mewn sawl maes astudio, ac mae hyn yn caniatáu iddo gofrestru rhaglenni Cenedlaethol Uwch newydd gyda Pearson gan ddilyn y broses gymeradwyo fewnol.

1.34 Mae'r tîm datblygu cwrs yn llenwi Ffurflen Gynnig Rhaglen Addysg Uwch Newydd y Coleg, sy'n cael ei gwerthuso, ynghyd â dogfennau cynnig, gan y Grŵp Rheoli AU, ac, os yw'n llwyddiannus, cyflwynir y rhaglen i'r Grŵp Strategaeth Cwricwlwm sy'n trafod yr achos academaidd a'r achos busnes ar gyfer y rhaglen newydd, cyn ei chyflwyno i brosesau cymeradwyo'r brifysgol berthnasol.

1.35 Archwiliodd y tîm adolygu dystiolaeth megis manylebau rhaglen a gwybodaeth yn llawlyfrau'r rhaglenni. Darparwyd tystiolaeth o'r broses gyflawn o ystyried rhaglenni newydd drwy broses gymeradwyo fewnol y Coleg ac o weithgareddau dilysu ac ail-ddilysu llwyddiannus. Cadarnhawyd hyn gan gynrychiolwyr y cyrff dyfarnu mewn cyfarfodydd. Trwy graffu ar gyfarfodydd pwyllgorau perthnasol, gan gynnwys y Grŵp Rheoli AU a'r Grŵp Strategaeth Cwricwlwm, cadarnhawyd bod y prosesau wedi cael eu dilyn. Mae gweithgareddau dilysu ac ail-ddilysu llwyddiannus yn cadarnhau mor effeithiol yw'r broses gymeradwyo fewnol. Dywedodd y myfyrwyr eu bod yn fodlon bod y rhaglenni'n addas ar gyfer eu hanghenion.

1.36 O ganlyniad i archwiliad o brosesau'r Coleg a'r cyrff dyfarnu, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (A3.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu dim ond pan fo:**

- **asesiad yn dangos cyflawni'r canlyniadau dysgu perthnasol (canlyniadau dysgu'r modiwl ar gyfer credydau, a chanlyniadau dysgu'r rhaglen ar gyfer cymwysterau)**
- **safonau trothwy'r DU a'u safonau academaidd eu hunain wedi'u bodloni.**

**Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau**

**Y canfyddiadau**

1.37 Mae'r cyrff dyfarnu graddau'n gyfrifol am y canlyniadau dysgu a'r asesiadau ar gyfer bob rhaglen, er bod y Coleg yn gyfrifol am ddatblygu rhaglenni a gosod asesiadau ar gyfer dyfarniadau Pearson, fel y maent wedi'u hamlinellu yn y Rhestr Wirio o Gyfrifoldebau.

1.38 Mae'r Coleg yn defnyddio Canllawiau Asesu mewnol ac allanol i osod asesiadau addysg uwch ar gyfer dyfarniadau Pearson, ac mae'n defnyddio meincnodau allanol i sicrhau bod asesiadau'n cael eu gosod ar y lefel gywir. Cynhelir byrddau asesu i gadarnhau cyflawniad y canlyniadau dysgu ac i gadarnhau bod y safonau academaidd wedi'u bodloni, ac mae arholwyr allanol wedi nodi bod y Byrddau Asesu'n cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn cadw at y rheoliadau.

1.39 Amlinellir canlyniadau dysgu bob rhaglen i'r staff a'r myfyrwyr yn llawlyfrau'r rhaglenni (gwelwch hefyd Ddisgwyliad A2.2), ac maent yn amlinellu'n glir i'r myfyrwyr beth yw'r disgwyliadau a'r meini prawf ar gyfer y rhaglen. Mae'r broses o gynllunio asesiadau'n cynnwys mapio canlyniadau dysgu a phrosesau gwirio mewnol, ac mae'r cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu'n penodi arholwyr allanol ar gyfer bob rhaglen i sicrhau bod yr holl ganlyniadau dysgu'n cael eu cyflawni drwy asesiad.

1.40 Mae'r Coleg yn gyfrifol am farcio a safoni rhaglenni PCYDDS a Phrifysgol Abertawe am y tro cyntaf; ond, mae Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr yn gyfrifol am farcio a safoni am y tro cyntaf y rhaglenni hynny y maent yn eu dilysu. Hefyd, mae'r arholwyr allanol yn derbyn dogfennau sy'n amlinellu'r broses o safoni gwaith wedi'i asesu i ddangos y broses asesu ac i sicrhau safonau academaidd, ac i wirio bod y myfyrwyr yn cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir.

1.41 Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod canlyniadau'r dysgu a lefelau'r cyflawniad a geir gan y myfyrwyr yn gyson â'r rheiny mewn sefydliadau eraill, ac mae'r adroddiadau hefyd yn cadarnhau bod yr asesiadau wedi'u gosod ar y lefel gywir i fesur cyrhaeddiad y myfyrwyr a chanlyniadau'r dysgu.

1.42 Profodd y tîm adolygu ymateb y Coleg drwy graffu ar fanyleb pob rhaglen, samplau o friffiau asesu a chofnodion gwiriadau mewnol, ynghyd ag adroddiadau'r arholwyr allanol a chofnodion byrddau asesu. Cyfarfu'r tîm hefyd ag amrediad o'r staff yn y Coleg.

1.43 Mae gan y Coleg brosesau ar waith i sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu ar sail y canlyniadau dysgu a gyflawnwyd, a bod y rhain yn cyrraedd y safonau y cytunwyd arnynt sydd ym manyleb y rhaglen. Daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (A3.3): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod prosesau ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni wedi'u gweithredu sy'n ymroi'n amlwg i ganfod a yw safonau academaidd trothwy'r DU wedi'u cyflawni ac a yw'r safonau academaidd sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu graddau unigol yn cael eu cadw.**

**Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau**

### **Y canfyddiadau**

1.44 Mae'r gwaith o fonitro ac adolygu rhaglenni yn y Coleg wedi'i seilio ar brosesau monitro blynyddol; ar gyfer rhaglenni a ddyfernir gan brifysgolion mae hyn wedi'i seilio ar y prosesau sydd ar waith yn y prifysgolion eu hunain, gyda phroses wedi'i dyfeisio gan y Coleg ar gyfer rhaglenni Pearson. Mae'r prosesau monitro blynyddol ar lefel y rhaglenni'n cynnwys data'r myfyrwyr, gwybodaeth o adolygiadau'r modiwlau, adborth gan y myfyrwyr ac adroddiadau'r arholwyr allanol.

1.45 Mae'r rhaglenni addysg uwch y mae'r Coleg yn eu darparu ar etholfraint gan brifysgolion dyfarnu a chan Pearson, ac maent yn atebol i'w rheoliadau hwy ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni. Mae pob rhaglen addysg uwch yn cyflwyno adroddiadau monitro blynyddol yn unol â rheoliadau ac amserlenni'r corff dyfarnu perthnasol. Mae'r Coleg wedi dyfeisio adroddiad monitro blynyddol ar gyfer rhaglenni Cenedlaethol Uwch Pearson. Mae adroddiadau monitro blynyddol yn cael eu harchwilio gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch a'r Grŵp Rheoli AU, cyn eu cyflwyno i'r prifysgolion dyfarnu. Nid yw'r esiamplau a roddwyd o gofnodion y Grŵp Rheoli AU yn cynnwys archwilio adroddiadau monitro blynyddol ond mae adroddiadau addysg uwch yn cael eu cyflwyno hefyd i'r Grŵp Rheoli AU i gael eu hystyried. Mae'r adroddiadau monitro hyn yn hysbysu adroddiad hunanasesu cyffredinol y Coleg, sy'n cynnwys adran ar wahân ar gyfer addysg uwch. Mae'r adran hon yn nodi enghreifftiau o arfer da a meysydd i'w gwella, er nad yw'n cyfeirio at y rheiny a nodwyd mewn rhaglenni unigol.

1.46 Mae Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol De Cymru a PCYDDS yn cynhyrchu Adroddiadau Trosolwg Blynyddol Partner. Mae PCYDDS wedi gwneud Adolygiad Partneriaeth, ac mae wedi cynhyrchu adroddiad. Mae hyn yn rhan o weithdrefn y Brifysgol, ac roedd yn archwilio'r bartneriaeth yn dilyn cynhwysiad Prifysgol Fetropolitan Abertawe yn PCYDDS, yr oedd gan y Coleg bartneriaeth â hi yn y gorffennol oedd yn dilysu nifer o ddyfarniadau.

1.47 Mae'r cyrff dyfarnu'n gwneud adolygiad cyfnodol, a gall hwn arwain at broses ail-gymeradwyo. Cynhaliodd Prifysgol De Cymru ddiwyddiad Ail-gymeradwyo Sefydliadol yn 2014 i gymeradwyo parhad y gymeradwyaeth i'r Grŵp NPTC ddarparu ei dyfarniadau. Mae casgliad yr adroddiad yn dangos cymeradwyaeth am bum mlynedd arall. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys cyfeiriad at gyflenwi darpariaeth TAR yng Ngholeg Powys cyn yr uno.

1.48 Mae'r broses ar gyfer goruchwyllo safonau academaidd ac ymateb i faterion a godir yn aneglur ac mae angen i'r Uwch Dîm Rheoli ei harchwilio. Mae adroddiadau monitro blynyddol ar lefel y rhaglenni, adroddiadau monitro blynyddol gan Pearson, ac adroddiadau monitro trosolwg gan y prifysgolion dyfarnu'n cael eu hystyried gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch, ond mae prosesau yn eu lle i alluogi i'r adroddiadau hyn gael eu goruchwyllo gan yr Uwch Dîm Rheoli, sy'n cael gweld pob un o'r adroddiadau. Byddai hyn yn galluogi i'r broses gael ei chyflawni. Nid yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn cadarnhau bod adroddiadau'n cael eu hystyried gan y Grŵp Rheoli AU neu gan unrhyw uwch gorff rheoli arall. Mae'n ymddangos bod problemau sy'n ymwneud â recriwtiad, cadwraeth a chyflawniad ar rai rhaglenni, yn arbennig ar raglenni Cenedlaethol Uwch, nad ydynt wedi cael sylw cyflawn mewn adroddiadau monitro blynyddol nac wedi cael eu hystyried gan y Grŵp Rheoli AU.

1.49 Archwiliodd y tîm adroddiadau monitro blynyddol, adroddiadau trosolwg gan y partneriaid, a'r adroddiad ail-gymeradwyo gan Brifysgol De Cymru. Hefyd, archwiliwyd esiamplau o adroddiadau'r Grŵp Rheoli AU, a thrafodwyd y broses mewn cyfarfodydd gyda staff uwch a chynrychiolwyr dau gorff dyfarnu. Mae adroddiadau AU yn cael eu hystyried hefyd gan y broses hon.

1.50 Mae'r tîm adolygu'n argymhell (gwelwch Ddisgwyliad B8) bod y Coleg yn datblygu ymhellach ac yn gweithredu'n drwyadl ei fecanweithiau presennol i ddarparu goruchwyliaeth fanylach gan Uwch Dîm Rheoli'r Coleg dros brosesau'r cyrff dyfarnu perthnasol o fonitro ac adolygu rhaglenni, ond daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn ganolig.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Canolig**

**Disgwyliad (A3.4): Er mwyn bod yn eglur ac yn atebol i'r cyhoedd, mae cyrff dyfarnu graddau'n defnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol ar gamau allweddol o osod a chynnal safonau academiaidd i gynghori a yw:**

- **safonau academiaidd trothwy'r DU wedi'u gosod, eu darparu a'u cyflawni**
- **safonau academiaidd y corff dyfarnu graddau wedi'u gosod a'u cynnal yn briodol.**

**Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau**

**Y canfyddiadau**

1.51 Mae'r Coleg yn cynnwys staff o'r Coleg ac o'r corff dyfarnu graddau perthnasol yn y broses o ddilysu ac ail-ddilysu ei ddarpariaeth, gan gynnwys adrodd i'r Grŵp Rheoli AU a'r Grŵp Strategaeth Cwricwlwm. Mae cynigion am ddarpariaeth newydd yn gofyn cwblhau proses fewnol, sy'n cynnwys ystyried y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer cyflenwi'r ddarpariaeth, gan sicrhau bod y rhaglen yn ddichonol. I ddatblygu darpariaeth newydd sydd wedi cael ei phennu, mae'r Coleg yn darparu Cronfa Datblygu Cwricwlwm, sy'n gofyn i'r staff ystyried amcanion, sail resymegol, gweithgareddau, amseriadau, a chynaliadwyedd y rhaglen unwaith y daw'r cyllido i ben. Mae'r broses hon yn cael ei chwblhau a'i chymeradwyo cyn cyflwyno cynigion i'r cyrff dyfarnu i'w dilysu.

1.52 Mae cynghorwyr allanol yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu rhaglenni a ddyferir gan brifysgolion partner y Coleg; ond mae'n ymddangos bod diffyg allanoldeb ym mhroses fewnol y Coleg i gymeradwyo datblygu rhaglenni newydd Pearson, er gwaethaf y ffaith fod cyflogwyr yn awyddus i ymgysylltu â'r gwaith o gynllunio rhaglenni. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** (gwelwch Ddisgwyliad B1) bod y Coleg yn cymryd camau i ddatblygu rhwydweithiau cyfredol er mwyn galluogi cyflogwyr i gyfrannu at gynllunio a chymeradwyo rhaglenni.

1.53 Mae'r broses ddilysu'n cynnwys ystyried sail resymegol, adnoddau, datblygiad staff a chynllun wrth gefn ar gyfer rhaglenni lle gallai cyflogaeth myfyrwyr fod mewn perygl.

1.54 Unwaith y mae cymeradwyaeth fewnol wedi'i sicrhau, dilynir trefnau cymeradwyo'r corff dyfarnu. Mae nifer o randdeiliaid o bob rhan o'r Coleg ac o'r cyrff dyfarnu'n cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu rhaglenni, megis Marchnata a Chymorth Myfyrwyr. Defnyddir adborth gan y myfyrwyr i hysbysu'r broses o ddatblygu darpariaeth newydd, er enghraifft, i ddatblygu'r uned Cryfhau a Chyflyru yn rhan o'r rhaglen Gradd Sylfaen mewn Hyfforddiant a Pherfformiad Chwaraeon.

1.55 Ar gyfer gweithgareddau ail-ddilysu, mae aelodau allanol o gyrff dyfarnu'r Coleg yn cael eu cynnwys yn y panel ail-ddilysu, sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr y myfyrwyr.

1.56 Ystyriodd y tîm adolygu'r dystiolaeth ddogfennol cyn yr ymweliad adolygu, a gofynnodd y tîm am dystiolaeth ddogfennol ychwanegol yn ystod yr adolygiad. Cyfarfu'r tîm adolygu â nifer o staff y Coleg, staff cyrff dyfarnu, cyflogwyr a myfyrwyr yn ystod yr ymweliad.

1.57 Cyfarfu'r tîm adolygu â'r myfyrwyr yn ystod yr ymweliad ac roeddent yn ymddangos yn awyddus ac yn alluog i gymryd rhan yn y broses o roi adborth a'r prosesau dilysu ac ail-ddilysu; ond, mae'n ymddangos bod yr ymgysylltiad yma'n anffurfiol ac yn brin o hyfforddiant neu arweiniad gan y Coleg.

1.58 Mae rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod safonau trothwy, Datganiadau Meincnodi Pwnc, y FHEQ, a safonau a rheoliadau'r corff dyfarnu'n cael eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys



ystyried gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio, er enghraifft, ar y rhaglen Gradd Sylfaen mewn Astudiaethau Gofal. Roedd rhai o'r staff academiaidd y cyfarfu'r tîm arolygu â nhw'n llai cyfarwydd gyda defnyddio'r *Nodweddion Cymhwyster Gradd Sylfaen* a'r Cod Ansawdd wrth gymeradwyo rhaglenni newydd.

1.59 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Coleg weithdrefnau digonol a phrosesau wedi'u seilio ar dystiolaeth dda sy'n cadarnhau arbenigedd allanol annibynnol mewn gosod a chynnal safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran ei gyrff dyfarnu. Ond, mae prosesau cymeradwyo mewnol yn gofyn bod y Coleg yn sicrhau bod cyflogwyr yn cyfrannu fwy at gynllunio a chymeradwyo rhaglenni a ddyfernir gan Pearson. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

## Y modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a sefydliadau dyfarnu eraill: Crynodeb o'r canfyddiadau

1.60 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am y modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a sefydliadau dyfarnu eraill, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr a gyhoeddwyd.

1.61 Mae pob un o'r saith Disgwyliad yn y maes yma wedi'u cyflawni; mae'r tîm adolygu o'r farn bod lefel y risg yn isel mewn chwech o'r Disgwyliadau. Mae'r tîm o'r farn bod lefel y risg yn ganolig yn Nisgwyliad A3.3 (prosesau ar gyfer monitro ac adolygu). Er bod y tîm wedi gweld tystiolaeth i ddangos bod gan y prifysgolion partner eu systemau monitro ac adolygu eu hunain, mae'n argymhell (gwelwch Ddisgwyliad B8) y dylai'r Coleg, ar y cyd gyda'i gyrff dyfarnu, ddatblygu mecanweithiau i'r Coleg oruchwylio'n fwy manwl brosesau'r partneriaid o fonitro ac adolygu, fel bod ganddo oruchwyliaeth barhaus dros ei ddarpariaeth addysg uwch i gyd. Mae'r tîm adolygu'n argymhell hefyd (gwelwch Ddisgwyliad B1) bod y Coleg yn cymryd camau i ddatblygu rhwydweithiau cyfredol er mwyn galluogi cyflogwyr i gyfrannu at gynllunio a chymeradwyo rhaglenni.

1.62 Yn gyffredinol, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a sefydliadau dyfarnu eraill yn y Coleg yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

## 2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

**Disgwyliad (B1): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academiaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol ar gyfer cynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B1: Cynllunio a Chymeradwyo Rhaglenni**

#### **Y canfyddiadau**

2.1 Nid oes gan y Coleg unrhyw gyfrifoldeb am gynllunio rhaglenni addysg uwch; maent oll ar etholfraint gan sefydliadau dyfarnu a chan Pearson. I wneud cynigion am raglenni newydd, mae timau rhaglen a'r Pennaeth Ysgol perthnasol yn llenwi Ffurflen Gynnig Rhaglen Addysg Uwch Newydd, sy'n disgrifio sail resymegol y rhaglen, anghenion y farchnad, aliniad i amcanion strategol y Coleg, goblygiadau o ran adnoddau a hyfywdra'r rhaglen. Yna, bydd y cynnig yn cael ei archwilio gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch, cyn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Rheoli AU i'w gymeradwyo'n fewnol, gyda monitro gan y Grŵp Strategaeth Cwricwlwm cyn cyflwyno'r cynnig i'r corff dyfarnu perthnasol i'w ddilysu a'i gymeradwyo. Yn 2014-15, cafodd dwy raglen BA Adolygiad ac Ail-gymeradwyaeth ar gyfer Darpariaeth Gydweithredol. Cafodd nifer o raddau sylfaen a rhaglenni Cenedlaethol Uwch eu dilysu hefyd. Roedd pob adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion, sydd wedi'u gweithredu. Gellir gwneud addasiadau bychain i raglenni gyda chymeradwyaeth y cyrff dyfarnu.

2.2 Craffodd y tîm ar gofnodion cyfarfodydd y Grŵp Rheoli AU a'r Grŵp Strategaeth Cwricwlwm lle trafodwyd cynigion am raglenni newydd, ynghyd â chofnodion cyfarfodydd cymeradwyo diweddar y cyrff dyfarnu, a bu'r tîm yn trafod gyda staff sy'n cymryd rhan mewn prosesau cymeradwyo ac ail-gymeradwyo.

2.3 Mae myfyrwyr yn cymryd rhan yn y broses ddilysu ac adolygu mewn grwpiau ffocws, lle mae datblygiad rhaglenni ac addasiadau i raglenni'n cael eu hystyried, ac mae panelau dilysu'n cynnwys myfyrwyr hefyd.

2.4 Fel arfer, mae rhaglenni'n cael eu hadolygu a'u hail-ddilysu gan brifysgolion dyfarnu unwaith bob pum mlynedd yn unol â'u rheoliadau academiaidd. Nid oes unrhyw arwydd bod cyflogwyr yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio neu ddatblygu rhaglenni. Dywedodd cyflogwyr wrth y tîm y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cyfranogaeth o'r fath. Mae'r tîm yn **argymell** bod y Coleg yn cymryd camau i ddatblygu'r rhwydweithiau cyfredol er mwyn galluogi cyflogwyr i gyfrannu at gynllunio a chymeradwyo rhaglenni (gwelwch hefyd Ddisgwyliad A3.4).

2.5 Cwblheir adroddiadau monitro blynyddol ar gyfer bob rhaglen sy'n cynnwys asesu perfformiad rhaglenni newydd.

2.6 Mae Cynllun Strategol ar gyfer Addysg Uwch 2013-16 y Coleg yn nodi bod y Coleg wedi'i ymrwmo i sicrhau "cynnig addysg uwch sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol a dyheadau a blaenoriaethau economaidd Cymru, ac sy'n hygyrch i unigolion, cyflogwyr a'r cymunedau yn y rhanbarth". Trwy ddatblygu partneriaethau gyda phrifysgolion dyfarnu, gall y Coleg gynllunio a darparu cyfleoedd addysg uwch addas i gyfateb gyda'r amcanion strategol.

2.7 Daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (B2): Mae polisiau a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, dethol a derbyn yn glynu at egwyddorion mynediad teg. Maent yn eglur, dibynadwy, dilys a chynhwysol ac maent wedi'u tanategu gan strwythurau a phrosesau sefydliadol priodol. Maent yn cefnogi darparwyr addysg uwch i dethol myfyrwyr sy'n gallu cwblhau eu rhaglenni.**

## **Cod Ansawdd, Pennod B2: Recriwtio, Dethol a Derbyn**

### **Y canfyddiadau**

2.8 Mae'r Rhestr Wirio o Gyfrifoldebau ar gyfer pob un o'r cyrff dyfarnu'n amlinellu cyfrifoldebau'r Coleg, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am recriwtio a derbyn myfyrwyr. Mae Grŵp NPTC yn gyfrifol am recriwtio a derbyn myfyrwyr i raglenni Prifysgol De Cymru, Prifysgol Glyndŵr, PCYDDS a Pearson. Nid yw Grŵp NPTC yn rheoli'r broses o recriwtio a derbyn myfyrwyr i raglenni ar etholfraint gan Brifysgol Abertawe. Mae'r broses dderbyn ar gyfer rhaglenni ar etholfraint gan y Brifysgol yn dilyn ei rheoliadau a'i pholisiau ei hun.

2.9 Pennawd y Coleg yw 'Graddau ar Garreg Eich Drws', ac mae wedi'i ymrwymo i ddarparu llwybrau galwedigaethol at astudiaethau addysg uwch, i ehangu cyfranogaeth a mynediad, ac i gynnig cyfleoedd dysgu hyblyg a hygyrch i ddysgwyr a chyflogwyr, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau lleol a'r economi lleol. Daeth yn amlwg o'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r tîm adolygu ac yn y trafodaethau gyda staff a myfyrwyr yn ystod ymweliad y tîm adolygu bod y weledigaeth hon wedi'i chynnwys yng ngweithgareddau a darpariaeth y Coleg.

2.10 Mae gan y Coleg Bolisi Derbyn sy'n amlinellu'r prosesau a'r polisiau sydd yn eu lle i gefnogi ymgeiswyr, ac mae hwn yn cynnwys yr wybodaeth y bydd y Coleg yn ei rhoi i ymgeiswyr ac i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.

2.11 Y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Cymorth Myfyrwyr a Chynhwysiad sy'n gyfrifol am y polisi. Y Grŵp Strategaeth Myfyrwyr a'r Grŵp Dysgu a Rheoli Perfformiad sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r polisi. Mae'r polisi hefyd yn amlinellu'r addasiadau fydd yn cael eu gwneud i gefnogi'r dysgwyr sy'n datgelu unrhyw anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Polisi Derbyn yn ymwneud â derbyn myfyrwyr i holl ddarpariaeth y Coleg. Nid oes adran ar wahân yn ymwneud â cheisiadau a derbyniadau ar raglenni addysg uwch a does dim cyfeiriad at Ddisgwyliad B1 y Cod Ansawdd, UCAS neu Gefnogi Proffesiynoldeb mewn Derbyniadau.

2.12 Ystyriodd ac adolygodd y tîm adolygu dystiolaeth ddogfennol a gwybodaeth gyhoeddedig y Coleg a bu'n cwrdd â staff a myfyrwyr o bob rhan o'r Coleg ac o gyff dyfarnu'r Coleg.

2.13 Mae'r coleg yn cyhoeddi ystod o wybodaeth i'r myfyrwyr a'r cyhoedd mewn amrywiaeth o ffurfiau sy'n hygyrch a hawdd eu deall, y mae'r mwyafrif ohonynt ar gael yn ddwyieithog. Mae'r wybodaeth yn cynnwys asesiadau, costau'r cyrsiau, cymwysterau a enillir, cymorth i fyfyrwyr, trefnau cwyno, gofal plant, ac addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu ac/neu anableddau eraill.

2.14 Mae'r coleg yn cyhoeddi gwybodaeth benodol i fyfyrwyr rhyngwladol am y gofynion a'r broses ymgeisio, yn cynnwys cymhwysedd i astudio. Mae gwybodaeth ar gael hefyd i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr am y Coleg a'r ddarpariaeth sydd ar gael yng Ngrŵp NPTC.

2.15 Mae arweiniad ar gael i'r myfyrwyr am y broses ymgeisio ar wefan y Coleg. Gwneir cyfeiriadau, lle bo'n briodol, at sefydliadau megis UCAS neu'r corff dyfarnu graddau. Mae gwybodaeth eang i ymgeiswyr sydd â throsedd ddifrifol flaenorol, ac mae Polisi Derbyn y

Coleg yn rhoi manylion y camau a'r sefydliadau eraill y byddai'r Coleg yn gweithio gyda nhw yn y sefyllfa hon.

2.16 Cyfarfu'r tîm adolygu â nifer o staff a myfyrwyr yn ystod yr adolygiad, ac roeddent yn ymwybodol o ofynion unigol corff dyfarnu graddau perthnasol eu rhaglen.

2.17 Rhoddir gwybodaeth sy'n benodol i gyrsiau am ofynion mynediad, asesiadau a strwythur y cwrs ar broffil y cwrs/rhaglen unigol, sydd ar gael ar wefan y Coleg. Mae llawlyfrau'r rhaglenni'n amlinellu'n glir fanyleb, credyd a math o asesiad y rhaglen, a'r hyn a ddisgwylir gan y myfyriwr ar y rhaglen.

2.18 Mae'r Coleg yn gofyn i'w Dîm Derbyn ymateb i geisiadau o fewn pum niwrnod, ac o fewn deg diwrnod i ganlyniadau cyfweiliadau. Mae'r Coleg wedi datblygu system LIFT fewnlol (Learner Information for Tutors) i roi Gwybodaeth am Ddysgwyr i Diwtoriaid i helpu'r broses o gofrestru a derbyn. Dywedodd staff o bob rhan o'r Coleg bod y system LIFT yn symleiddio cyfranogaeth y staff yn y gwaith o gefnogi tiwtoriaid, ac mae hyfforddiant mewn defnyddio'r system ar gael i'r staff ar draws y campysau i gyd. Mae tîm adolygu ASA yn **cadarnhau** datblygiad system LIFT (Learner Information for Tutors) i roi Gwybodaeth am Ddysgwyr i Diwtoriaid, sy'n tynnu ynghyd yr holl wybodaeth am y myfyrwyr ac yn hwyluso cefnogaeth effeithiol drwy gydol y cyfnod astudio (gwelwch hefyd Ddisgwyliad B4).

2.19 Mae'r system yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol am bob ymgeisydd i'r staff derbyn ac asesu, megis nodiadau cyfweiliad ac unrhyw asesiadau ar gyfer rhaglenni llawn amser ym meysydd addysg bellach/addysg uwch ac ar gyfer rhaglenni dysgu seiliedig ar waith, gan olrhain unrhyw anghenion am gymorth ychwanegol drwy Gynlluniau Dysgwr unigol. Cofnodir anghenion dysgu ychwanegol drwy'r system er mwyn rhannu gwybodaeth am ddysgwyr gyda'r gwasanaethau cymorth proffesiynol a'r staff addysgu i gyd.

2.20 Mae'r Coleg yn gweithredu Trefn Gyhoeddi a Marchnata sy'n amlinellu'r broses o gyhoeddi gwybodaeth i'r staff, y myfyrwyr a'r cyhoedd mewn amrywiaeth o ffurfiau, ac mae'r Grŵp Marchnata'n bwynt canolog i gymeradwyo pob deunydd cyhoeddedig. Mae'n ymddangos bod y Drefn Gyhoeddi a Marchnata'n ganllaw dylunio, ac ni welodd y tîm adolygu unrhyw broses ffurfiol i gymeradwyo a monitro gwybodaeth gyhoeddedig.

2.21 Cyflwynir ceisiadau i'r Coleg am astudio llawn amser drwy system geisiadau UCAS, ac mae'r Coleg yn gweithio i sicrhau fod pob cais, gan gynnwys y rhai gan fyfyrwyr hŷn a myfyrwyr ar raglenni ehangu cyfranogaeth, yn cael ei gyflwyno drwy UCAS.

2.22 Mae'r myfyrwyr yn cydnabod cefnogaeth y Coleg i fyfyrwyr sy'n symud ymlaen i astudiaeth bellach, ac mae'r Rhaglen Cyfoethogi Tiwtorial i Fyfyrwyr (Student Tutorial Enrichment Programme STEP HE) yn cefnogi'r myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau ac yn cynnig cefnogaeth un-i-un gan diwtoriaid, i'w helpu i symud ymlaen. O 2015-16 ymlaen, mae'r Coleg yn cynnig modiwl 'Edrych Ymlaen at Addysg Uwch', a gyflenwir gan diwtoriaid Lefel 3, sy'n rhoi cyflwyniad i sgiliau academiaidd a disgwyliadau astudiaethau addysg uwch. Mae tîm derbyn y Coleg yn ymgysylltu hefyd gyda Phartneriaethau Ymgysylltu yn Ehangach rhanbarthol er mwyn cefnogi ymgeiswyr lleol ym maes addysg uwch, gan gynnwys drwy gyhoeddi gwybodaeth hygyrch am recriwtio a derbyn myfyrwyr ar raglenni ehangu cyfranogaeth.

2.23 Mae'r Coleg yn defnyddio data am gynnydd a chyrraedd i annog y myfyrwyr sy'n barod i symud ymlaen i ystyried astudio pellach. Mae'r Coleg yn goruchwyllo data am gadwraeth a phresenoldeb drwy adrodd i gyfarfod y Penaethiaid Ysgol ac adrodd yn fisol i'r Grŵp Dysgu a Rheoli Perfformiad, gyda'r staff addysgu a'r staff cymorth mewn cyfathrebiad rheolaidd i ganfod meysydd lle mae angen ymyrraeth.

2.24 Mae oddeutu 60 y cant o fyfyrwyr newydd y Coleg yn ferched, sydd wedi'i esbonio'n rhannol gan recriwtiaid cryf ar raglenni iechyd a gofal a rhaglenni hyfforddi athrawon. Mae dros

50 y cant o'r myfyrwyr newydd dros 30 oed a llai na 25 y cant ohonynt o dan 21. Mae hyn yn cyfateb gydag ymrwymiad y Coleg i ehangu cyfranogaeth mewn addysg uwch yn y rhanbarth.

2.25 Trwy sefydlu Arolwg Cofrestriad a Recriwtiad i fyfyrwyr addysg uwch ac i fyfyrwyr addysg bellach, mae'r Coleg yn defnyddio'r data hwn i wella polisiau ac arferion cofrestru a recriwtio. Nid yw'r arolwg yn gwahaniaethu rhwng ymatebion gan fyfyrwyr addysg uwch a chan myfyrwyr addysg bellach, a fyddai'n cefnogi'r Coleg i barhau i wella arferion derbyn mewn ymateb i adborth gan ddysgwyr addysg uwch a dysgwyr addysg bellach.

2.26 Mae Canllawiau'r Coleg ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Fewnol yn ymdrin â chydabod dysgu blaenorol hefyd, ac mae'r cyrff dyfarnu'n cyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â'r broses o gydnabod dysgu blaenorol. Mae polisi ar wahân yn ymwneud ag achredu dysgu blaenorol ar gyfer derbyn myfyrwyr ar raglenni Pearson, ac mae'r Coleg a'i staff yn ymwybodol o'r polisi hwn ac y maent yn glynu ato. Cyhoeddir gwybodaeth yn ymwneud ag achredu dysgu blaenorol i'r darpar fyfyrwyr ym Mhecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr ym maes Addysg Uwch y Coleg, ac ar broffiliau cyrsiau addysg uwch. Mae'r Coleg yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Abertawe drwy Swyddogion Cyswllt academiaidd a staff cymorth proffesiynol i reoli'r amrywiol drefniadau ymgeisio ar gyfer recriwtio a derbyn myfyrwyr ar raglenni a ddyfernir gan Brifysgol Abertawe.

2.27 Mae Polisi Derbyn y Coleg wedi'i gysylltu at y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac mae'n cynnwys datganiadau am yr ystyriaeth gyfartal a roddir i ymgeiswyr sydd wedi datgelu anabledau. Mae'r Coleg yn canfod unrhyw anghenion ychwanegol fel elfen graidd y broses ymgeisio drwy'r system LIFT. Canfyddir addasiadau wrth gofrestru, a rhoddir ystod o adnoddau neu gymorth ychwanegol i'r myfyrwyr ar y cam yma i gwrdd ag anghenion unigol y myfyrwyr.

2.28 Mae'r Coleg yn defnyddio data a gwybodaeth yn ymwneud â cheisiadau a derbyniadau a chaiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd gan amrediad o staff a phwyllgorau, yn cynnwys Penaethiaid Ysgol, y Grŵp Rheoli AU a'r Uwch Dîm Rheoli i hysbysu adolygiadau i bolisiau ac arferion derbyn y Coleg.

2.29 Daeth y tîm i'r casgliad bod prosesau, gweithdrefnau a gwybodaeth gyhoeddedig y Coleg, ynghyd â datblygiad effeithiol y system LIFT a'i waith mewn partneriaeth gyda'i gyrff dyfarnu graddau, yn sicrhau bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**  
**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (B3): Mae darparwyr addysg uwch, wrth weithio gyda'u staff, eu myfyrwyr a'u rhanddeiliaid eraill, yn llunio, ac yn adolygu a gwella'n systematig, y dull o ddarparu cyfleoedd dysgu ac arferion addysgu, fel bod modd i bob myfyriwr ddatblygu fel dysgwr annibynnol, astudio eu pwnc/pynciau dewisedig yn fanwl a gwella eu gallu i feddwl yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B3: Dysgu ac Addysgu**

#### **Y canfyddiadau**

2.30 Mae gan y Coleg Strategaeth Addysgu, Dysgu ac Asesu sy'n amlinellu ei amcanion strategol a sut mae'n bwriadu gweithredu a chyflawni'r amcanion hynny sydd wedi'u nodi. Mae'r strategaeth yn ymdrin â'r holl ddarpariaeth a ddarperir gan y Coleg, gydag atodiad ar wahân yn ymwneud â darpariaeth addysg uwch. Nid yw'r atodiad hwn yn cyfeirio at y Cod Ansawdd nac at ganllawiau'r cyrff dyfarnu. Nid oes unrhyw arwydd o addysgeg neu ddulliau dysgu ac addysgu penodol a ddefnyddir mewn darpariaeth addysg uwch, sy'n wahanol i hwnnw a ddefnyddir mewn addysg bellach ac a fyddai'n hybu'r trawsnewidiad i ddysgu annibynnol.

2.31 Archwiliodd y tîm adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a bu'n trafod gyda staff a myfyrwyr.

2.32 Mae'r Rhestrau Gwirio o Gyfrifoldebau'n dangos fod pob un o'r pedair prifysgol dyfarnu'n gyfrifol am ddethol a phenodi staff. Esboniwyd mewn cyfarfodydd gyda'r staff beth yw lefel cyfranogaeth y prifysgolion mewn hysbysebu swyddi, cyfweld a phenodi staff i'r Coleg neu gyfranogaeth y Coleg yn y broses hon.

2.33 Yn ddiweddar, mae'r Coleg wedi sefydlu menter datblygiad staff 'addysg uwch mewn addysg bellach'. Mae esiamplau o gofnodion datblygiad proffesiynol parhaus yn dangos bod nifer o'r staff addysg uwch wedi mynd i'r cyfarfod yn 2014-15 a bod gwaith y grŵp wedi'i gymeradwyo yn yr Adolygiad o'r Bartneriaeth gyda PCYDDS.

2.34 Mae'r Coleg yn cynhyrchu Siarter y Myfyrwyr Addysg Uwch, sy'n amlinellu cyfrifoldebau a disgwyliadau'r myfyrwyr a'r staff pan oeddent yn y Coleg. Mae hyn yn awgrymu'r meysydd o gefnogaeth a gynigir i'r myfyrwyr, yn cynnwys datblygiad sgiliau academiaidd. Mae Siarter y Myfyrwyr yn amlinellu'r hyn mae'r Coleg yn ei ddisgwyl o ymgysylltiad y dysgwyr gyda'r dysgu a'r addysgu, a'r hyn y gall y dysgwyr ei ddisgwyl gan y Coleg.

2.35 Mae'r Coleg yn cynnal rhith-amgylchedd dysgu ar-lein, sy'n storio adnoddau am ddysgu ac addysgu a gwybodaeth benodol i gyrsiau, ac sydd â dolenni at rith-amgylchedd dysgu'r brifysgol berthnasol. Mae'r ysgolion academiaidd yn gyfrifol am gynnal yr adran am eu rhaglenni hwy ar y rhith-amgylchedd dysgu.

2.36 Mae gan bob myfyriwr diwtor personol sy'n aelod o dîm y rhaglen. Mae myfyrwyr llawn amser yn cael sesiynau tiwtora mewn grŵp wythnosol gyda chyfle i gael sesiynau tiwtora personol. Does dim proses ffurfiol o hyfforddi tiwtoriaid personol. Gellir cyfeirio myfyrwyr at staff cymorth y Coleg i gael cymorth mwy arbenigol ac, os yw'n angenrheidiol, at asiantaethau cymorth allanol. Mae'r ddarpariaeth diwtora i'r myfyrwyr rhan amser yn llai eglur, gydag amser wedi'i ddyrannu ar ddechrau neu ar ddiwedd sesiynau addysgu ar gyfer sesiynau tiwtoria os oes eu hangen.

2.37 Cyhoeddir gwybodaeth lawn am y rhaglenni, yn cynnwys amserlenni'r asesiadau, mewn llawlyfrau rhaglen i alluogi i fyfyrwyr wneud cynlluniau i gyd-fynd â hynny.

2.38 Penodir Uwch Ddarlithwyr Dysgu ac Addysgu i hybu a sicrhau'r safonau uchaf o ddysgu ac addysgu i'r holl fyfyrwyr. Goruchwylir y grŵp gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer

Ansawdd. Mae hwn yn sicrhau cyfle defnyddiol i rwydweithio, ond nid oes unrhyw broses ffurfiol i rannu arfer da.

2.39 Rhennir arfer da drwy'r Uwch Ddarlithwyr (Dysgu ac Addysgu). Rhennir arfer da yn ffurfiol yng nghyfarfodydd yr ysgolion academaidd lle mae dysgu ac addysgu'n eitem safonol ar yr agenda, yn niwrnodau cwrdd i ffwrdd yr ysgolion academaidd ac mewn datblygiad staff ar draws y Coleg, er enghraifft mewn gweithdai rhagoriaeth a chynadleddau dysgu ac addysgu.

2.40 Mae gan y Coleg bolisi datblygiad proffesiynol parhaus sy'n amlinellu cyfrifoldebau rheolwyr ac unigolion, a datblygiad staff y Coleg. Mae'r ddogfen polisi'n amlinellu'r prosesau ar gyfer gwneud cais, meini prawf a gwerthusiadau. Cedwir cofnodion yn ganolog o'r holl weithgareddau a wneir gan y staff, a defnyddir y cofnodion hyn i hysbysu cyfweiliadau rheoli a gwerthuso perfformiad. Gall y staff wneud cais am ddatblygiad staff unrhyw bryd, ond mae ceisiadau am ddatblygiad staff tymor hir neu gost uchel yn cael eu hystyried gan banel sy'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn.

2.41 Gall y staff fynd i gynadleddau dysgu ac addysgu drwy brifysgolion partner. Mae'r Coleg yn cynnal gweithdai a chyfleoedd ar gyfer gwelliant a datblygiad staff ac mae wedi cefnogi Grŵp Datblygiad Staff Addysg Uwch mewn Addysg Bellach gyda nifer o ddarparwyr lleol, er mwyn rhannu arfer gorau. Mae'r Coleg yn annog ei staff i wneud cais am gydnabyddiaeth gan yr Academi Addysg Uwch (AAU). Nid yw'n eglur sut y bydd mynediad at waith ymchwil a wneir gan yr AAU yn cael ei ddefnyddio yn y dysgu a'r addysgu.

2.42 Mae'r Coleg wedi sefydlu dau gorff cefnogi academaidd. Mae Grwpiau Astudio mewn Gwers yn canolbwyntio ar wella a choethi technegau addysgu gyda'r ffocws ar gwrdd ag anghenion dysgu arbennig y myfyrwyr. Mae Grwpiau Ymholi Proffesiynol yn canolbwyntio ar ymdrin â materion yn uniongyrchol ac yn ceisio datrys problemau y mae'r athrawon wedi'u pennu yn eu hystafell ddosbarth eu hunain ac yn y broses ddysgu. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd i'w chael o effeithiolrwydd y grwpiau hyn yn ymarferol.

2.43 Mae'r Coleg yn gweithredu system o arsylwadau addysgu na chânt eu graddio sy'n cael eu gwneud mewn dosbarthiadau a addysgir gan ddefnyddio ffurflen benodol ar gyfer arsylwi mewn addysg uwch ac archwilio Lefel yr Hyder. Mae canlyniadau'r arsylwadau'n dangos Lefel o Hyder o 100 y cant a lefelau uchel o addysgu. Nid oes unrhyw arwydd o'r ffordd y mae adroddiadau o arsylwadau addysgu wedi'u cysylltu at berfformiad modiwlau/unedau neu foddhad y myfyrwyr. Nid oes unrhyw arwydd o broses arsylwi gan gymheiriaid rhwng y staff sy'n cyflenwi darpariaeth addysg uwch.

2.44 Nid yw'r ddogfen hunanwerthuso'n cynnwys manylion y ffordd y mae gwerthusiad myfyrwyr o'r dysgu a'r addysgu ar raglenni neu fodiwlau/unedau unigol yn cael ei gasglu, ei ddadansoddi a'i ddefnyddio i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu. Mae cyflwyniad y myfyrwyr i'r adolygiad hwn yn nodi nad yw myfyrwyr yn teimlo eu bod yn gallu rhoi sylwadau ar yr addysgu.

2.45 Nid oes unrhyw arwydd o'r cyfleoedd neu'r cymorth y mae'r Coleg yn eu cynnig ar gyfer gweithgareddau ysgolheigaidd neu sut y mae staff y Coleg yn cyfranogi mewn gweithgareddau ysgolheigaidd sy'n digwydd mewn prifysgolion partner. Os yw hyn yn digwydd, nid oes unrhyw arwydd o'r ffordd y gellir gweithredu hwn mewn dysgu ac addysgu. Mae'r Coleg wedi cynhyrchu Cynllun Gweithgareddau Ysgolheigaidd drafft ar gyfer 2016-17 ond nid yw hwn wedi'i gymeradwyo na'i weithredu eto. Mae'r tîm yn **argymell** bod y Coleg yn sefydlu proses i gofnodi'n systematig ymgysylltiad y staff gyda gweithgareddau ysgolheigaidd a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n benodol i addysg uwch.

2.46 Cytunir ar gynlluniau datblygiad unigol ar gyfer y flwyddyn academaidd ddilynol rhwng y staff a'r Penaethiaid Ysgol drwy'r broses flynyddol o reoli, gwerthuso ac adolygu perfformiad. Mae amrywiaeth o ddogfennau a thaflen newyddion am ddysgu ac addysgu ar gael i'r staff



ar rith-amgylchedd dysgu'r Coleg, ond nid yw'n glir sut y rheolir hyn. Mae rhaglenni unigol yn cwblhau adroddiadau monitro blynyddol naill ai i'r prifysgolion neu'n fewnol i'r Grŵp Rheoli AU. Mae'r adroddiadau hyn yn amlinellu gwelliannau i'r adnoddau, canlyniadau prosesau o adolygu rhaglenni'n gyfnodol a chymeradwyo rhaglenni newydd, gweithgareddau sicrhau a gwella ansawdd, ac adolygiad o adroddiadau arholwyr allanol. Mae'r broses fonitro flynyddol hefyd yn cynnwys adroddiad hunanasesu blynyddol yn benodol i ddarpariaeth addysg uwch, ac yn rhoi adroddiad am gamau gweithredu mewn cymhariaeth â meysydd allweddol sydd angen eu datblygu i sicrhau bod safonau'n cael eu monitro a'u cynnal.

2.47 Mae'r ddogfen hunanwerthuso'n cyfeirio at gamymddwyn academiaidd dan adran B6. Mae gan y Coleg bolisi ar Gamymddwyn Academiaidd sy'n ymwneud â holl ddarpariaeth addysg bellach a darpariaeth cymwysterau Cenedlaethol Uwch Pearson, ac mae'n cynnwys esiamplau, trefnau ymchwilio a chosbau am gamymddwyn. Mae ei Ganllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Fewnol yn ymdrin â chamymddwyn academiaidd hefyd. Mae rhaglenni ar etholfraint gan brifysgolion yn atebol i'w polisiau a'u gweithdrefnau ar gamymddwyn academiaidd. Mae gwybodaeth am gamymddwyn academiaidd wedi'i chynnwys yn y samplau o lawlyfrau rhaglen y mae pob un o'r cyrff dyfarnu wedi'u darparu. Mae Polisi Camymddwyn Academiaidd y Coleg yn nodi y bydd meddalwedd canfod llên-ladrad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith a gyflwynir yn electronig ar bob un o'r rhaglenni addysg uwch. Dywedodd y staff academiaidd na chafwyd unrhyw enghreifftiau o gamymddwyn academiaidd.

2.48 Mynegodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw edmygedd am wybodaeth, ymrwymiad a chefnogaeth y staff addysgu.

2.49 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**  
**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (B4): Mae gan ddarparwyr addysg uwch drefniadau ac adnoddau sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol ac maent yn monitro a gwerthuso'r rhain.**

**Cod Ansawdd, Pennod B4: Galluogi Datblygiad a Chyflawniad y Myfyriwr**

**Y canfyddiadau**

2.50 Mae'r Coleg yn gweithredu Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a oruchwylir gan y Grŵp Rheoli Amrywiaeth, ac a gadeirir gan Bennaeth campysau Castell-nedd Port Talbot. Mae gan yr holl reolwyr llinell ddyletswydd i fabwysiadu dull rhagweithiol a chyson wrth gymryd camau i ymdrin â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

2.51 Mae'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i'r myfyrwyr, gan gynnwys drwy gysylltiadau gydag asiantaethau allanol, er enghraifft cynghorwyr Gyrfa Cymru. Mae'r Coleg hefyd yn darparu gwasanaeth cwnsela proffesiynol i'r myfyrwyr.

2.52 Mae'r Coleg yn darparu Person Dynodedig sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal ar gyrsiau addysg uwch ac addysg bellach. Mae'r Person Dynodedig yn sicrhau bod y myfyrwyr yn derbyn cyngor, arweiniad a chefnogaeth cyn mynediad, yn ystod y cofrestru a thrwy gydol eu hamser yn y Coleg. Mae'r Coleg wedi derbyn Marc Ansawdd Ymddiriedolaeth Buttle.

2.53 Trwy broses y Coleg o gyfnewid a sgrinio cychwynnol, mae'r Coleg yn asesu anghenion y myfyrwyr ac yn ymateb iddynt fel sy'n addas. Nid yw'r broses sgrinio ar gyfer rhaglenni addysg uwch wedi bod yn gyson ond mae'n derbyn sylw ar gyfer y cyfnod 2016-17.

2.54 Mae canlyniadau'r broses sgrinio'n bwydo i mewn i'r system LIFT, sydd ar gael i'r staff a'r myfyrwyr, ac sy'n caniatáu i'r myfyrwyr weld canlyniadau'r broses sgrinio a chael gafael ar y gefnogaeth briodol drwy ailgyfeirio, gweithdai sgiliau astudio ac adnoddau ar-lein. Mae'r tîm adolygu wedi cadarnhau datblygiad y system LIFT, sy'n tynnu ynghyd yr holl wybodaeth am y myfyrwyr ac yn hwyluso cefnogaeth effeithiol drwy gydol y cyfnod astudio (gwelwch Ddisgwyliad B2).

2.55 Gall y myfyrwyr drafod unrhyw anghenion sy'n codi yn ystod y flwyddyn gyda'r Tîm Cymorth Astudio, a gyda'u tiwtor personol. Mae'r Coleg yn cynnig nifer o systemau i gefnogi'r staff a'r myfyrwyr, ac mae'n canolbwyntio ar gynnydd a chadwraeth. Cyflwynwyd Swyddogion Cadw a Throsoglwyddo Myfyrwyr yn 2015-16 i gefnogi'r myfyrwyr wrth iddynt drosglwyddo i'r Coleg a symud rhwng rhaglenni a'r tu hwnt i'w cyfnod yng Ngrŵp NPTC. Soniodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw eu bod yn fodlon gyda'r gefnogaeth a gynigir gan y Coleg.

2.56 Mae Polisi Addas i Astudio'r Coleg yn darparu agwedd tuag at reoli iechyd corfforol a meddyliol y myfyrwyr. Mae'r polisi'n gweithredu tair lefel o bryder, yn cynnwys yr angen am ddatblygu cynlluniau gweithredu yn ystod y cofrestru, a gyda chyfarfodydd rheolaidd, os oes angen, i olrhain y datblygiad ac i fonitro'r sefyllfa. Mae'r Pennaeth Cymorth Myfyrwyr yn gyfrifol am gynnal a gweithredu'r polisi. Mae'r ddogfen polisi'n cynnwys y ffurflenni perthnasol i'r staff a'r myfyrwyr eu llenwi. Mae hefyd yn cynnwys dogfen Asesu a Sgrinio Effaith ar Gydraddoldeb ac Effaith Ieithyddol y Coleg.

2.57 Mae sesiynau tiwtora ar gael i'r holl fyfyrwyr addysg uwch llawn amser i gefnogi eu dysgu ac olrhain eu datblygiad, ac i gynnig cymorth academaidd a bugeiliol. Mae sesiynau tiwtora'n gyfuniad o sesiynau grŵp a sesiynau un-i-un. Cynigir sesiynau tiwtora i'r myfyrwyr rhan amser ar amseroedd a ddyrannwyd ar ddechrau neu ddiwedd sesiynau addysgu ond nid yw'r rhain wedi'u hamserlennu mor ffurfiol â'r rheiny i'r myfyrwyr llawn amser. Nid oes unrhyw hyfforddiant ffurfiol i diwtoriaid personol.

2.58 Mae'r cyfnod ymsefydlu, a gefnogir gan lawlyfr rhaglen, yn canolbwyntio ar drosglwyddiad, disgwyliadau, ac ar ofynion a gweithgareddau yn ymwneud â llythrennedd. Mae'r Arolwg Cofrestriad ac Ymsefydliad yn dangos adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr, ond hefyd bod ymatebion wedi gostwng yn 2014-15.

2.59 Mae'r Coleg yn gweithredu system bwrsariaeth i gefnogi myfyrwyr rhyngwladol, pobl o ardaloedd o amddifadedd lluosog yng Nghymru, pobl sy'n gadael gofal a'r rheiny sy'n symud ymlaen i astudiaeth Lefel 6, gyda 91 o geisiadau'n cael eu hystyried yn 2015-16. Mae'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr yn gweinyddu Cronfa Galedi'r Coleg sy'n seiliedig ar brawf modd i helpu'r myfyrwyr gyda chostau byw; mae dau fyfyrwr wedi derbyn arian o'r gronfa hon yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol.

2.60 Archwiliodd y tîm dystiolaeth ddogfennol, a bu'n trafod gyda staff, myfyrwyr a chyflogwyr.

2.61 Yn gyffredinol, mae'r Coleg yn dangos ymrwymiad cryf i egwyddorion ac arferion ehangu cyfranogaeth. Mae'n recriwtio myfyrwyr o ardaloedd o amddifadedd economaidd a chymdeithasol sylweddol gyda chyfranogaeth mewn addysg uwch islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae llawer o'r myfyrwyr yn oedolion sy'n dychwelyd wedi cyfnod hir allan o fyd addysg ac mae nifer ohonynt yn dod o deuluoedd sydd heb gael unrhyw gysylltiad ag addysg uwch. Mae'r Coleg yn cynnig arweiniad cynhwysfawr, cefnogaeth ac anogaeth i'r myfyrwyr yma, sy'n eu galluogi i lwyddo mewn amgylchedd sy'n ateb eu hanghenion academaidd a phersonol ac yn un sy'n cael ei werthfawrogi'n llawn gan y myfyrwyr. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod yr amrywiol fecanweithiau i gefnogi'r myfyrwyr, yn arbennig y rheiny o gefndiroedd addysg uwch anhraddodiadol mewn ardaloedd o amddifadedd, i gyflawni eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol, yn cynrychioli **arfer da**.

2.62 Rhoddir ystyriaeth i ofynion bob rhaglen am adnoddau dysgu ym mhroses y Coleg o gymeradwyo rhaglenni, ac ym mhrosesau dilysu'r prifysgolion a phroses Pearson o Gymeradwyo Canolfannau. Mae'r Coleg yn gyfrifol am ddarparu adnoddau dysgu priodol. Nid oes unrhyw arwydd o'r ffordd mae lefelau o adnoddau priodol yn cael eu cynnal, nac o strategaeth gwariant cyfalaf i sicrhau bod adnoddau'n parhau i gael eu caffael i gefnogi dysgu ac addysgu. Mewn cyfarfodydd gyda'r tîm, dywedodd y staff academaidd eu bod yn fodlon gyda'r lefel o adnoddau dysgu ac ymateb cyflym y Coleg i geisiadau am adnoddau ychwanegol. Roedd y myfyrwyr yn llai bodlon gyda'r ddarpariaeth adnoddau dysgu, gan sôn am broblemau gydag adnoddau llyfrgell, technoleg gwybodaeth a chyfleusterau technegol. Dywedodd y cyflogwyr y cyfarfu'r tîm â nhw nad oedd rhai o'r cyfleusterau technegol yn gyfatebol gyda'r rhai a ddefnyddir yn y diwydiant.

2.63 Mae llyfrgelloedd ar chwe phrif gampws y Coleg, ac maent yn cynnwys cyfleusterau TG a manau astudio. Mae'r staff academaidd yn gweithio gyda'r staff llyfrgell i ddiweddarau stoc y llyfrau ac adnoddau eraill. Archwilir y ddarpariaeth llyfrgell yn rhan o'r prosesau dilysu ac adolygu, a derbyniodd gymeradwyaeth gan Brifysgol De Cymru yn ei adroddiad Ail-gymeradwyo Sefydliadol 2014. Mae manau astudio dynodedig i addysg uwch a manau cymdeithasol ar bedwar campws, sydd wedi'u sefydlu o ganlyniad i adborth gan y myfyrwyr. Mae'r Coleg yn gweithio i ymdrin â gostyngiad y sgorau boddhad yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) yn y maes yma, gyda thrafodaeth barhaus yn y Grŵp Cynrychiolwyr Myfyrwyr Addysg Uwch, a phresenoldeb Pennaeth y Gwasanaethau Llyfrgell. Gall y myfyrwyr ddefnyddio adnoddau llyfrgelloedd y prifysgolion dyfarnu.

2.64 Mae'r staff llyfrgell a'r staff cymorth yn rhoi cymorth ychwanegol gyda sgiliau academaidd sy'n ofynnol ar gyfer astudiaethau addysg uwch, ac mae gan y Coleg amrywiol fecanweithiau i gefnogi'r myfyrwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol, yn arbennig y rheiny o gefndiroedd addysg uwch anhraddodiadol mewn ardaloedd o amddifadedd.

2.65 Yn 2014-15, roedd rhai problemau gyda chyfleusterau technoleg gwybodaeth, sy'n ymddangos fel petaent wedi'u datrys erbyn hyn drwy osod gweinyddion ffeiliau newydd, cyfnewid hen gyfrifiaduron a chwblhau prosiect seilwaith TG.

2.66 Daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (B5): Mae darparwyr addysg uwch yn cymryd camau pwrpasol i gynnwys yr holl fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn bartneriaid yn y broses o sicrhau a gwella eu profiad addysgol.**

**Cod Ansawdd, Pennod B5: Ymgysylltiad â'r Myfyrwyr**

**Y canfyddiadau**

2.67 Mae'r Coleg yn cyhoeddi Siarter y Myfyrwyr, sy'n amlinellu ei ofynion a'i ddisgwyliadau ei hun, a rhai ei fyfyrwyr, ynghyd ag ymrwymiad y Coleg i ddarparu cynrychiolaeth i'r holl fyfyrwyr ar lefel y rhaglenni neu'r ysgolion, i roi adborth i'r myfyrwyr ar ganlyniadau'r sylwadau a gyflwynwyd gan y myfyrwyr, ac i ddarparu hyfforddiant i'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y broses gynrychioli. Mae'r Siarter yn cael ei adolygu bob blwyddyn gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch a'r Grŵp Cynrychiolwyr Myfyrwyr. Roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw'n ymwybodol o'r Siarter ond nid ei gynnwys, ac roeddent wedi cael cynnig hyfforddiant i fod yn gynrychiolwyr gan y cyrff dyfarnu.

2.68 Mae gan bob rhaglen ddau gynrychiolydd myfyrwyr ar gyfer bob grŵp blwyddyn sy'n ffurfio'r Grŵp Cynrychiolwyr Myfyrwyr ac yn cyfarfod bob mis drwy gyswllt fideo i ddod â'r cynrychiolwyr o'r holl gampysau at ei gilydd. Does dim proses ffurfiol o benodi cynrychiolwyr a dim proses i gasglu sylwadau'r myfyrwyr am y ffordd y dylent gael eu cynrychioli.

2.69 Mae gan y Coleg Lawlyfr i Gynrychiolwyr Myfyrwyr, sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r cynrychiolwyr myfyrwyr, yn cynnwys arweiniad ar sut i gynrychioli'r myfyrwyr yn effeithiol a chyfathrebu'n effeithiol, ond nid oedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw'n ymwybodol o hyn.

2.70 Archwiliodd y tîm dystiolaeth ddogfennol a ddarparwyd cyn ac yn ystod yr ymweliad, a bu'n trafod gyda staff a myfyrwyr.

2.71 Nid yw'n ymddangos bod system glir i gyflwyno llais y myfyrwyr a'u hadborth yn uniongyrchol i'r uwch reolwyr mewn ffordd gynhwysfawr a gwrthrychol. Mae'n aneglur sut mae adborth penodol gan fyfyrwyr yn cael ei ystyried ar y lefelau uchaf, sut mae camau gweithredu'n cael eu cytuno, sut mae datblygiad yn cael ei fonitro a sut mae'r penderfyniadau'n cael eu bwydo'n ôl i'r myfyrwyr. Mae cynrychiolaeth y myfyrwyr ar bwyllgorau'r Coleg yn achlysurol ond mae wedi gwella'n ddiweddar gyda chyfranogaeth y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.

2.72 Mae sylwadau gan y myfyrwyr yn awgrymu nad ydynt yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar gyfeiriad strategol neu benderfyniadau'r Coleg, ac nid yw'r myfyrwyr yn ymwybodol o unrhyw gyfleoedd yn y cyrsiau i roi adborth ar arferion dysgu ac addysgu. Mae'r tîm yn **argymhell** bod y Coleg yn datblygu prosesau ffurfiol i ethol a hyfforddi'r cynrychiolwyr myfyrwyr, ac i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau.

2.73 Mae'r Grŵp Strategaeth Myfyrwyr yn goruchwyllo profiadau'r myfyrwyr a'u taith addysgol drwy Grŵp NPTC. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fyfyrwyr yn y grŵp hwn ac nid oes unrhyw arwydd o'r ffordd y mae'r grŵp yn derbyn neu'n ystyried sylwadau ac adborth y myfyrwyr. Mae cofnodion y grŵp hwn ar gyfer Medi 2015 yn nodi Strategaeth Ymgysylltiad Myfyrwyr arfaethedig sydd i gael ei chyflwyno yn ei gyfarfod nesaf; mae cofnodion cyfarfodydd dilynol yn dangos nad yw wedi cael ei chynhyrchu eto. Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu Undeb y Myfyrwyr yn y Coleg, gyda'r nod o gynnal etholiadau yn y flwyddyn academaidd 2015-16.

2.74 Ym mis Medi 2015, cyflwynodd y Coleg broses VocalEyes ar y campws yn Aberhonddu, sef y prif blatfform i ymgysylltu â'r myfyrwyr ac i gasglu adborth gan fyfyrwyr y tu allan i arolygon sefydliadol. Cyflwynwyd hyn drwy'r Coleg cyfan yn 2015 er mwyn darparu proses yn benodol ar gyfer rhaglenni addysg uwch. Mae arweiniad ar gael i'r myfyrwyr i'w helpu i lywio'r system VocalEyes, ac mae'r adborth gan y Grŵp Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn nodi

nad yw'r awgrymiadau y mae'r myfyrwyr yn eu cyflwyno drwy VocalEyes yn ymarferol bob amser.

2.75 Mae myfyrwyr yn cael eu cynnwys ym mhrosiectau'r Coleg i helpu i wella profiad y myfyrwyr, er enghraifft, mae myfyrwyr Technoleg Gwybodaeth yn cymryd rhan mewn prosiectau TG, ac mae myfyrwyr Twristiaeth Ryngwladol a Rheoli Digwyddiadau'n cymryd rhan mewn rheoli prosiect ar gyfer 'Ffeiriau'r Glas' yng Nghampws Castell-nedd a Champws Afan.

2.76 Mae cyflawniad y myfyrwyr yn cael ei ddathlu yn Seremoni Wobrwyo flynyddol y Coleg, lle gofynnir i'r staff gyflwyno enwebiadau.

2.77 Mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr yn ymwneud â'r gwasanaethau llyfrgell, bydd y Coleg yn gwahodd y Pennaeth Gwasanaethau Llyfrgell i fynd i gyfarfodydd y Grŵp Cynrychiolwyr Myfyrwyr Addysg Uwch i ymateb i'r adborth yn uniongyrchol.

2.78 Mae'r Coleg yn cymryd camau i ymgysylltu â'r holl fyfyrwyr. Mae tîm adolygu ASA yn **cadarnhau** r datblygiad a wnaed i ddiffinio a datblygu cynrychiolaeth y myfyrwyr, a'r ymrwymiad i gynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr ar bob lefel.

2.79 Daeth y tîm i'r casgliad bod y lefelau da o gyfathrebu, cyd-dynnu a pharch o'r ddwy ochr oedd yn amlwg mewn cyfarfodydd gyda'r staff a'r myfyrwyr wedi arwain at brosesau o ymgysylltiad ystyrlon y myfyrwyr sy'n addas i fath y sefydliad ac anghenion y myfyrwyr, ac felly bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (B6): Mae darparwyr addysg uwch yn gweithredu prosesau asesu sy'n gyfiawn, dilys a dibynadwy, yn cynnwys y rheini ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol, sy'n galluogi pob myfyriwr i arddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir ar gyfer y credyd neu'r cymhwyster sy'n cael ei geisio.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B6: Asesu Myfyrrwyr a Chydnabod Dysgu Blaenorol**

#### **Y canfyddiadau**

2.80 Mae Strategaeth Addysgu, Dysgu ac Asesu'r Coleg yn ymrwmo'r Coleg i ddatblygu prosesau asesu i'w fyfyrwyr sy'n ddilys, trwyadl a datblygiadol. Mae gan y Coleg Strategaeth Addysgu, Dysgu ac Asesu generig, a'i nod yw sicrhau bod y prosesau asesu 'yn ddilys, yn hollol drwyadl, yn deg, cytbwys, priodol, perthnasol a datblygiadol.' Ar gyfer rhaglenni a gymeradwyir gan brifysgolion, mae'r strategaethau a'r dulliau asesu'n cael eu cymeradwyo yn rhan o'r broses gymeradwyo neu ail-gymeradwyo.

2.81 Mae'r Coleg yn amlinellu ei ymrwymiad i brosesau asesu sy'n datblygu sgiliau'r myfyrrwyr ac yn caniatáu i'r myfyrrwyr fesur eu datblygiad addysgol. Ar gyfer darpariaeth a ddyfernir gan brifysgolion, mae'r asesiadau a'r arholiadau ar Lefelau 5 a 6 yn cael eu gwirio gan arholwyr allanol y brifysgol, neu'n cael eu darparu gan y brifysgol ei hun, yn dibynnu ar gyfrifoldebau'r Coleg fel y maent wedi'u hamlinellu yn y Rhestr Wirio o Gyfrifoldebau. Ar gyfer rhaglenni Pearson, mae'r asesiadau yn cael eu gosod a'u gwirio drwy broses arholi allanol y Coleg, sy'n sicrhau bod y cyd-destun galwedigaethol yn alinio gyda damcaniaeth a chanlyniadau dysgu'r rhaglen.

2.82 Mae dulliau asesu a chanlyniadau dysgu pob rhaglen ar gael i'r myfyrrwyr cyfredol a'r darpar fyfyrwyr ar wefan y Coleg, ac maent hefyd ar gael yn llawlyfrau'r rhaglenni. Mae'r wybodaeth a gyhoeddwyd i'r myfyrrwyr yn llawlyfrau'r rhaglenni'n gynhwysfawr, ac mae'n dilyn templed a ddarparwyd gan y corff dyfarnu.

2.83 Amlinellir y dulliau asesu a ddefnyddir ar raglenni unigol yn y proffiliau ar-lein am y cyrsiau ac mewn manylebau modiwlau sydd ymhob manyleb rhaglen yn llawlyfrau'r rhaglenni, sydd hefyd yn cynnwys amserlenni'r asesiadau.

2.84 Mae'r holl arholiadau'n cael eu gweithredu yn unol â chanllawiau'r brifysgol berthnasol a'r Cyd-gyngor Cymwysterau ac yn cael eu goruchwyllo'n annibynnol ac yn gyfan gwbl. Mae'r tîm arholi'n trefnu'r agwedd hon o'r broses asesu ac yn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r cyrff dyfarnu. Yn gyffredinol, mae'r cyrff dyfarnu'n gofyn bod yr holl arholiadau'n cael eu marcio'n anhysbys. Mae dulliau ar wahân ar gyfer aseiniadau, fel y maent wedi'u hamlinellu yn y polisïau asesu perthnasol. Mae'r staff addysgu'n gyfrifol am weithredu'r meini prawf marcio ar gyfer y modiwlau, a'r arferion asesu. Mae'r corff dyfarnu'n pennu'r cyfrifoldeb am ail farcio a/neu safoni. Codir materion mewn tri o adroddiadau arholwyr allanol ar gyfer 2014-15 yn ymwneud â safon y marcio a'r safoni (gwelwch Ddisgwyliad B7).

2.85 Mae proffiliau'r cyrsiau ar wefan y Coleg hefyd yn amlinellu ac yn disgrifio'r broses ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol, ac mae tîm derbyn y Coleg yn gweithio gyda'r Swyddogion Cyswllt academaidd a'r staff perthnasol yn y corff dyfarnu.

2.86 Mae'r Coleg yn rhannu marciau'r myfyrrwyr gyda'r corff dyfarnu drwy system ar-lein i bwrpas Byrddau Asesu. I ateb i'r adborth, mae'r Coleg yn penodi aelod allanol i'r Bwrdd Asesu a Chynnydd erbyn hyn, ac mae wedi datblygu Cylch Gwaith, agenda templed a dogfen drefn sydd ar gael i'r staff ers y flwyddyn academaidd 2015-16.

2.87 Mae'r adborth gan y myfyrwyr am arferion yn ymwneud ag asesiadau ac adborth yn gyffredinol gadarnhaol, ac yn dangos bod adborth yn eu helpu nhw i wella eu gwaith. Cytunodd 76 y cant o'r myfyrwyr bod yr adborth ar eu gwaith yn brydlon yn 2015. Mae hyn yn cymharu â 95 y cant yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Mae'r myfyrwyr yn ymwybodol o bolisiâu a rheoliadau eu corff dyfarnu graddau mewn perthynas ag asesiadau ac adborth, megis ar gyfer dychwelyd adborth. Mae polisi'r Coleg yn datgan y dylid dychwelyd adborth i'r myfyrwyr o fewn 15 diwrnod, ac mae'r Coleg wedi ymateb i bryderon gan fyfyrwyr am oediad cyn derbyn adborth.

2.88 Mae enghreifftiau o arfer da gydag adborth cadarnhaol gan y myfyrwyr ac ymatebion gan yr arholwyr allanol.

2.89 Mae'r adborth gan yr arholwyr allanol yn ymwneud â'r trefnau marcio a safoni yn gadarnhaol; ond, mae nifer o achosion lle mae arholwyr allanol wedi sôn am bryderon ynglŷn â'r broses o safoni gwaith a aseswyd a marciau a oedd wedi'u chwyddo ar rai rhaglenni.

2.90 Mae'r Coleg yn gyfrifol am farcio a safoni rhaglenni PCYDDS a Phrifysgol Abertawe am y tro cyntaf; ond, ym Mhrifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr, mae'r Coleg yn gyfrifol am farcio am y tro cyntaf. Rhoddir dogfennaeth i'r arholwyr allanol sy'n amlinellu'r broses o safoni gwaith a aseswyd. Mae'n ymddangos, fodd bynnag, nad yw'r broses safoni wedi'i hegluro i'r arholwyr allanol bob amser.

2.91 Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Coleg yn cymryd camau pellach i sicrhau bod prosesau safoni mewnol yn gweithio'n effeithiol ac yn gwneud prosesau o'r fath yn eglur i'r arholwyr allanol.

2.92 Mae arholwyr allanol hefyd yn nodi lefel manylder yr adborth i'r myfyrwyr, ac yn nodi pryderon yn ymwneud â chynnydd yn nifer y myfyrwyr a'r effaith ar lefel yr adborth y gallai staff ei ddarparu o bosib. Mae adroddiadau blynyddol yn cyfeirio at nifer cynyddol y myfyrwyr ar y rhaglenni, ac mae'r Coleg yn bwriadu sicrhau bod nifer y myfyrwyr ym maes addysg uwch yn parhau i gynyddu.

2.93 Mae'r Coleg yn cynnal cyfnod ymsefydlu i gyflwyno'r myfyrwyr i'r gofynion yn ymwneud â llythrennedd, yn cynnwys arddull ysgrifennu a chyfeirio, ac mae'r Coleg yn cynnig cefnogaeth gan ei lyfrgellwyr a thrwy'r rhaglen Tiwtorial STEP er mwyn datblygu sgiliau'r myfyrwyr. Gweithredir asesiad diagnostig llythrennedd a rhifedd yn y cyfweiliadau, ac mae'r wybodaeth o'r asesiad yn cael ei defnyddio mewn cynlluniau dysgu unigol, gan nodi unrhyw ofynion am gymorth ychwanegol a fydd yn ofynnol ar y rhaglen.

2.94 Mae gwybodaeth ar gael i'r myfyrwyr yn llawlyfrau'r rhaglenni am amgylchiadau esgusodol, trefnau sicrhau ansawdd mewnol ac apeliadau academaidd, sydd ar gael hefyd drwy rith-amgylchedd dysgu'r Coleg. Mae gan y gwahanol gyrff dyfarnu ganllawiau a pholisiâu ar wahân, ac mae polisiâu'r Coleg yn berthnasol i fyfyrwyr ar raglenni Pearson yn unig. Mae canllawiau'r Coleg i fyfyrwyr ar raglenni Pearson yn disgrifio ei drefnau sicrhau ansawdd mewnol, a'r trefnau ar gyfer Apeliadau Academaidd, Camymddygiad Staff, Gwrthdaro Buddiannau, Cydnabod Dysgu Blaenorol ac Amgylchiadau Esgusodol. Mae'r myfyrwyr a'r staff yn ymwybodol o sut i gael gafael ar yr wybodaeth berthnasol i'r corff dyfarnu.

2.95 Mae'r coleg yn cyhoeddi ac yn cynnal Polisi Camymddwyn Academaidd, sy'n rhoi diffiniad o lèn-ladrad ac yn amlinellu'r broses os gwelir bod dysgwr yn ymddwyn yn amhriodol. Mae'r polisi ar gael i'r myfyrwyr yn llawlyfrau'r rhaglenni, ac mae'r staff a'r myfyrwyr yn y Coleg yn ymwybodol o'r gweithdrefnau perthnasol ac o'r wybodaeth yn ymwneud â Chwynion ac Apeliadau Academaidd. Mae'r polisi'n diffinio llèn-ladrad a mathau eraill o gamymddwyn academaidd, ac mae ar gael i'r myfyrwyr y mae'n ymwneud ag o ar raglenni Pearson. Ar gyfer y rhaglenni a ddyfernir gan brifysgolion, mae polisiâu'r brifysgol berthnasol yn weithredol, gan gynnwys ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol, ac maent ar gael i'r myfyrwyr yn llawlyfrau'r rhaglenni.



2.96 Ar gyfer darpariaeth a ddyfernir gan brifysgolion, ymdrinnir ag asesiadau ac arholiadau mewn gwahanol ffyrdd. Mewn rhai achosion, cyflwynir asesiadau a chwestiynau arholiad i'r brifysgol i gael eu cymeradwyo gan yr arholwr allanol ar Lefelau 5 a 6, cyn eu dosbarthu i'r myfyrwyr, ac mewn achosion eraill, y brifysgol sy'n darparu'r asesiadau ac yn gosod yr arholiadau. Ar gyfer rhaglenni Pearson, mae'r asesiadau yn cael eu gosod yn y cyd-destun galwedigaethol gyda chysylltiad rhwng theori a'r ymarferol, ac yn cael eu gwirio yn ystod y broses arholi allanol.

2.97 Fel arfer, mae'r aseiniadau'n cael eu cyflwyno drwy feddalwedd canfod llên-ladrad. Mae'r marciau asesu ar gael i'r myfyrwyr drwy rith-amgylchedd dysgu'r brifysgol partner berthnasol, gyda marciau rhaglenni Pearson yn cael eu darparu drwy rith-amgylchedd dysgu'r Coleg, ac mae trawsgrifiad ar gael ar ddiwedd bob blwyddyn academiaidd.

2.98 Mae'r dystiolaeth oedd ar gael i'r tîm a'r wybodaeth a ddarparwyd mewn cyfarfodydd gyda staff addysgu a staff uwch yn y Coleg yn awgrymu bod y Coleg yn gweithredu prosesau sy'n galluogi i'r myfyrwyr ddangos i ba raddau maent wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu. Mae rhai problemau'n ymwneud â'r broses o farcio a safoni gwaith a aseswyd ar draws darpariaeth y Coleg, ac mae angen i'r Coleg wneud rhagor o waith i ymdrin â'r materion hyn. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad hwn yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**  
**Lefel y risg: Isel**

## Disgwyliad (B7): Mae darparwyr addysg uwch yn gwneud defnydd gofalus o arholwyr allanol.

### Cod Ansawdd, Pennod B7: Arholi Allanol

#### Y canfyddiadau

2.99 Mae'r cyrff dyfarnu'n penodi arholwyr allanol yn unol â'u rheoliadau academiaidd i sicrhau bod safon bob dyfarniad yn y Coleg yn cael ei chynnal ar y lefel briodol, bod y prosesau ar gyfer asesu, cynnydd a chyflawniad yn gadarn, a bod y safonau a gyflawnwyd yn gymaradwy gyda rhaglenni tebyg a meysydd astudio tebyg mewn sefydliadau eraill yn y DU. Mae'r dogfennau a ddarparwyd gan y cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu, er enghraifft llawlyfrau PCYDDS a Phrifysgol Glyndŵr i arholwyr allanol, a rheoliadau Prifysgol Abertawe ar gyfer arholi allanol, yn eglur mewn perthynas â rôl yr arholwyr allanol. Darperir arweiniad a hyfforddiant i arholwyr allanol gan y cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu.

2.100 Ar gyfer y rhaglenni a ddyfernir gan brifysgolion partner, mae pob prifysgol yn penodi Swyddog Cyswllt, sy'n darparu cysylltiadau â phob Cydlynnydd Addysg Uwch Colegol ac â'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch. Mae ymweliadau â'r Coleg gan arholwyr allanol yn cael eu trefnu naill ai'n uniongyrchol gyda'r Cydlynnydd Addysg Uwch perthnasol neu drwy Swyddogion Cyswllt y prifysgolion. Trefnir ymweliadau â'r Coleg fel arfer unwaith ymhob blwyddyn academiaidd, ac mae iddynt fod yn bresennol hefyd yn y byrddau asesu terfynol. Gwahoddir yr arholwr allanol o Pearson i'r bwrdd asesu, ond nid oes gofyn iddo/iddi fynychu yn ôl canllawiau BTEC.

2.101 Mae Gofynion Grŵp NPTC o ran Ymateb i Arholwyr Allanol yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau arholwyr allanol, ynghyd â'r camau gweithredu sy'n ofynnol. Ar gyfer rhaglenni ar etholfraint, mae Cydlynnydd Addysg Uwch y rhaglen yn gyfrifol am baratoi'r ymateb ffurfiol i'r arholwr allanol erbyn y dyddiad cau perthnasol a bennir gan y brifysgol, gan ddefnyddio trefn briodol y brifysgol. Rhaid i'r ymateb gael ei lofnodi gan Bennaeth yr Ysgol cyn cael ei anfon i'r brifysgol.

2.102 Profodd y tîm y Disgwyliad drwy graffu ar ddogfennau, gan gynnwys Gofynion Grŵp NPTC o ran Ymateb i Arholwyr Allanol, holl adroddiadau'r arholwyr allanol ar gyfer 2013-14 a 2014-15, ymatebion gan y Coleg i'r adroddiadau yn 2014-15, adolygiad Prifysgol De Cymru o Adroddiadau Arholwyr Allanol ar gyfer Darpariaeth Bartner yn 2014-15, adroddiadau trosolwg arholwyr allanol, a chofnodion cyfarfodydd y Grŵp Dysgu a Rheoli Perfformiad, lle cafodd y cynlluniau gweithredu o'r adroddiadau eu monitro ac yr adroddwyd am gynnydd yn unol â'r cynlluniau. Cyfarfu'r tîm hefyd â staff uwch, staff academiaidd a myfyrwyr.

2.103 Yn ymateb y Coleg i'r materion a godwyd yng nghyflwyniad y myfyrwyr i'r adolygiad hwn, yn dilyn yr ymweliad cyntaf gan y tîm, penderfynodd y Grŵp Dysgu a Rheoli Perfformiad y byddai argaeledd adroddiadau arholwyr allanol i'r myfyrwyr yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau gyda'r cyrff dyfarnu fel ei bod hi'n amlwg pa agweddau sy'n berthnasol i'r Coleg ac nid i sefydliadau partner eraill. Yn sicr, mae'r agwedd yma'n amlwg yn adroddiad trosfwaol 2014-15 Prifysgol De Cymru am adroddiadau arholwyr allanol ar gyfer darpariaethau partner. Ar hyn o bryd, nid yw rhai o adroddiadau'r arholwyr allanol wedi'u dadelfennu i nodi'r partner sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Coleg, drwy weithio gyda'r corff dyfarnu, yn sicrhau eglurder i arholwyr allanol lle cyflenwir darpariaeth ar draws nifer o safleoedd.

2.104 Pan fyddent yn eu derbyn, mae pob ysgol yn trafod adroddiadau'r arholwyr allanol ac yn sicrhau bod y materion allweddol yn cael eu hystyried yng nghyfarfodydd pwyllgorau rhaglenni (a fynyichir gan gynrychiolwyr myfyrwyr) ac yn cael eu defnyddio i hysbysu'r broses fonitro flynyddol. Mae'r adroddiadau monitro blynyddol (AMB) a welwyd gan y tîm yn awgrymu

bod y broses hon yn gyffredinol effeithiol, gyda chymau gweithredu allweddol o'r adroddiadau wedi'u cynnwys yng nghynlluniau gweithredu AMB, a chadarnhaodd y staff a'r myfyrwyr a welwyd yn ystod yr ymweliad y camau gweithredu a gymerwyd. Lle mae'r adroddiadau'n tynnu sylw at bryderon difrifol, mae'r Coleg yn datgan bod cynllun gweithredu yn cael ei gynhyrchu gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch, Pennaeth yr Ysgol a thîm y rhaglen, ac yn cael ei fonitro yng nghyfarfodydd y Grŵp Rheoli AU a'r Grŵp Dysgu a Rheoli Perfformiad. Mae rhai o adroddiadau'r arholwyr allanol a ddarparwyd i'r tîm yn gadarnhaol, gan nodi, er enghraifft, bod 'Rhaglenni'n defnyddio amrediad da o strategaethau asesu, ac y cyflwynir elfennau arloesol gan ystyried dysgu'r myfyrwyr. Ar y cyfan, mae'r arferion asesu'n drwyadl a theg, gyda thystiolaeth ddogfennol gynyddol o'r broses safoni'; 'Ymhob achos roedd y gwaith a welwyd yn briodol ar gyfer lefel yr astudio, heblaw ar gyfer y darnau hynny o waith oedd wedi'u cyfeirio'n benodol am eu bod o safon annigonol mewn termau academaidd'.

2.105 Ar hyn o bryd, nid yw holl adroddiadau arholwyr allanol y cyrff dyfarnu'n cael eu derbyn yn ganolog yn y Coleg; mae rhai'n cael eu hanfon yn uniongyrchol at y Cydlynedd Addysg Uwch perthnasol. Mae'r Coleg yn gofyn bod y cyrff dyfarnu perthnasol yn cywiro hyn fel bod modd sicrhau goruchwyliaeth ganolog, ac y rhoddir cynlluniau gweithredu ar waith os codir unrhyw faterion yn yr adroddiadau. Pan gânt eu derbyn yn ganolog, rhoddir yr adroddiadau ar wefan rannu dogfennau ac felly maent ar gael i'r Pennaethiaid Ysgol a'r timau cwrs. Mae holl adroddiadau'r arholwyr allanol yn cael eu hastudio gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch, sy'n cynhyrchu crynodebau misol i'w hanfon i'r Grŵp Rheoli AU, y Grŵp Strategaeth Cwricwlwm ac Ansawdd, y Grŵp Dysgu a Rheoli Perfformiad, ac i'r Uwch Dîm Rheoli, ynghyd ag atgyfnerthiad o'r crynodebau, lle gellir tynnu themâu at ei gilydd o bob rhan o'r rhaglenni a'r safleoedd darparu. Mae'r Coleg yn nodi eu bod ar gael hefyd i'r myfyrwyr ar y rhith-amgylchedd dysgu; ond mae'r myfyrwyr yn dweud bod rhaid iddynt ofyn am gael eu gweld, yn hytrach na'u bod yn agored ac ar gael bob amser. Felly mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Coleg yn dangos bod rhai gwendidau o ran defnyddio ac argaeledd adroddiadau arholwyr allanol.

2.106 Ond, canfuwyd materion mewn nifer o adroddiadau'r arholwyr allanol yn 2014-15, lle tybiwyd bod yr ymatebion a welwyd gan y tîm yn annigonol. Er enghraifft, mae adroddiad 2014-15 yr arholwyr allanol ar gyfer y rhaglenni BA/HND/HNC Gwesty ac Arlwy/Twristiaeth Ryngwladol/Rheoli Digwyddiadau'n nodi bod angen i'r 'broses fewnol o wirio/safoni fod yn fwy trwyadl a dibynadwy. Yn y mwyafrif o achosion, gwelwyd bod y marciau a ddyfarnwyd gan yr ail farciwr yn hollol gyson â'r rhai gan y marciwr gyntaf. Yn fy marn i, mae'r marciau a ddyfarnwyd yn or-garedig wrth eu cymharu gyda'r safonau cenedlaethol'. Nodwyd hyn yn adroddiad trosolwg yr arholwyr allanol a aeth i gyfarfodydd y Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd a'r Grŵp Dysgu a Rheoli Perfformiad ym mis Medi 2015, a dim ond nodyn sydyn a gafwyd amdano yng nghyfarfod y Grŵp Rheoli AU ym mis Tachwedd 2015, lle gofynnwyd am gynllun gweithredu. Yn ogystal, nododd dau adroddiad gan yr arholwyr allanol bod y marcio'n or-garedig a soniwyd am sefyllfa lle nad oedd meini prawf graddio Pearson yn cael eu defnyddio ac heb gael eu pennu yn y broses wirio fewnol.

2.107 Nid oes unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion y cyfarfodydd i ddangos bod materion a godwyd yn yr adroddiadau arholwyr allanol hyn yn cael eu hystyried ar lefel yr Uwch Dîm Rheoli, na bod crynodeb trosfwaol o faterion a godwyd yn adroddiadau'r arholwyr allanol wedi derbyn ystyriaeth yn y pwyllgor hwn nac mewn pwyllgorau ymgynghori eraill, gan arwain at gollu cyfleoedd mewn perthynas ag atgyfnerthu themâu, er enghraifft marcio a safoni, a phennu a gweithredu ar arferion da neu feysydd i'w gwella. Yn y cyfarfod gyda'r staff uwch, clywodd y tîm fod modd i reolwyr ddewis gweld adroddiadau llawn yr arholwyr allanol, am fod yr adroddiadau ar gael ar wefan rannu dogfennau, bod materion allweddol yn cael eu codi yn y crynodebau misol, a bod problemau ar raglenni sydd ar etholfraint yn derbyn sylw yn adroddiadau trosolwg y corff dyfarnu ac yng nghyfarfodydd y Bwrdd Astudiaethau gyda'r cyrff dyfarnu. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Coleg yn darparu crynodeb cyfunol

blynyddol o holl adroddiadau'r arholwyr allanol am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a bennwyd yn yr adroddiadau hyn.

2.108 I grynhoi, mae'r tîm adolygu o'r farn bod y prosesau sydd ar waith yn y Coleg i sicrhau y defnyddir arholwyr allanol - yn arholwyr allanol y Coleg ac arholwyr allanol y cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu, yn gyffredinol effeithiol. Felly, mae'r Disgwyliad yn cael ei gyflawni, ond mae lefel y risg yn ganolig, am fod y trefnau sicrhau ansawdd yn ddigonol i raddau, ond mae rhai gwendidau i'w cael o ran pa mor drwyadl y maent yn cael eu gweithredu.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Canolig**

**Disgwyliad (B8): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academiaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol, rheolaidd a systematig i fonitro ac adolygu rhaglenni.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B8: Monitro ac Adolygu Rhaglenni**

#### **Y canfyddiadau**

2.109 Y cyrff dyfarnu sy'n diffinio'r prosesau ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni yn unol â'u rheoliadau academiaidd, a chynhyrchir yr adroddiadau monitro gan ddefnyddio eu templedi. Mae dyfarniadau Pearson yn cael eu monitro yn unol â'u rheoliadau a chynhyrchir adroddiadau gan ddefnyddio templed y Coleg.

2.110 Mae adroddiadau monitro blynyddol yn cynnwys cyfeiriadau at adroddiadau arholwyr allanol, data am y garfan myfyrwyr, a chynlluniau gweithredu ar gyfer y flwyddyn academiaidd gyfredol, ynghyd â'r cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r flwyddyn flaenorol. Mae adroddiadau'n cael eu cynhyrchu gan Gydlynwyr y Cyrsiau, a'u craffu gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch a'r Grŵp Rheoli AU, cyn cael eu cyflwyno i'r cyrff dyfarnu. Cynhelir byrddau adolygu yn y cyrff dyfarnu i gytuno ar adroddiadau a chynlluniau gweithredu, a fynychir gan Gydlynwyr Cyrsiau Addysg Uwch a myfyrwyr. Mae'r adroddiadau rhaglen hyn yn hysbysu'r broses o gynhyrchu adroddiadau trosolwg y cyrff dyfarnu ac adroddiad hunanasesu'r Coleg.

2.111 Mae'r cyrff dyfarnu'n penodi Swyddogion Cyswllt ar gyfer bob rhaglen, sy'n cefnogi timau rhaglen i gynnal safonau academiaidd a monitro rhaglenni. Mae Cydlynwyr Cyrsiau Addysg Uwch y Coleg mewn cysylltiad rheolaidd gyda'u Swyddogion Cyswllt ac yn mynychu byrddau asesu a chyfarfodydd yn y cyrff dyfarnu.

2.112 Mae'r cyrff dyfarnu'n gwneud adolygiadau o bartneriaethau, ac yn cymeradwyo darpariaeth eu dyfarniadau gan golegau partner. Derbyniodd y Coleg adolygiadau llwyddiannus gan Brifysgol De Cymru yn 2014 a chan PCYDDS yn 2015.

2.113 Archwiliodd y tîm dystiolaeth ddogfennol a ddarparwyd cyn ac yn ystod yr ymweliad, a thrafododd gyda staff a myfyrwyr, yn ogystal â gyda chynrychiolwyr dau gorff dyfarnu.

2.114 Nid oes unrhyw dystiolaeth o ystyriaeth fanwl yr adroddiadau monitro blynyddol gan uwch reolwyr. Mae adroddiadau ar gyfer rhaglenni addysg uwch yn cael eu harchwilio gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch, a'r rheiny ar gyfer addysg bellach gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd. Nid oes unrhyw dystiolaeth o fonitro parhaus y rhaglenni ganol-blwyddyn, dim ond yr adroddiadau monitro blynyddol sy'n cael eu cynhyrchu i ddyddiadau cau'r cyrff dyfarnu ym mis Tachwedd, nad ydynt yn rhoi unrhyw gyfle i wneud gwelliannau erbyn dechrau'r flwyddyn academiaidd ym mis Medi.

2.115 Ni chynhyrchir unrhyw adroddiad monitro addysg uwch i'r Coleg cyfan. Mae adroddiad monitro blynyddol trosolwg y Coleg yn gwneud rhai cyfeiriadau cyffredinol at addysg uwch ond mae ffocws cyffredinol yr adroddiad ar ddarpariaeth addysg bellach wedi'i gysylltu at feini prawf Estyn. Mae'r adran ar wahân ar addysg uwch, a gynhyrchwyd ym mis Mawrth 2015, ar ffurf cynllun gwella ansawdd, heb unrhyw gyfeiriad at raglenni unigol a dim dadansoddiad data manwl. Mae targedau ar gyfer cwblhau camau gweithredu, yr oedd y mwyafrif ohonynt ym misoedd olaf 2015; nid oes arwydd o gynnydd ar y camau gweithredu hyn. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Coleg yn datblygu mecanweithiau i ddarparu goruchwyliaeth fanylach gan Uwch Dim Rheoli'r Coleg dros brosesau'r cyrff dyfarnu perthnasol o fonitro ac adolygu rhaglenni, ac yn monitro'n rheolaidd y cynnydd ar y cynllun gwella ansawdd addysg uwch (gwelwch hefyd Ddisgwyliad A3.3).

2.116 Daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn ganolig.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Canolig**

**Disgwyliad (B9): Mae gan ddarparwyr addysg uwch weithdrefnau i ymdrin ag apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr am ansawdd y cyfleoedd dysgu; mae'r gweithdrefnau hyn yn deg, yn hygyrch ac yn amserol, ac yn galluogi gwelliant.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B9: Apeliadau Academaidd a Chwynion Myfyrwyr**

#### **Y canfyddiadau**

2.117 Mae'r Coleg yn cyhoeddi ac yn cynnal Polisi Cwynion, Polisi Asesiadau Mewnol a Chymwysterau Allanol. Mae'r ddau bolisi yma'n ymdrin â'r holl ddarpariaeth a'r holl wasanaethau a gynigir gan y Coleg. Nid yw'r Polisi Asesiadau a Chymwysterau Allanol yn gwahaniaethu rhwng prosesau ar gyfer rhaglenni addysg bellach ac addysg uwch ac nid yw'n cyfeirio o gwbl at *Bennod B9* y Cod Ansawdd. Ymdrinnir â chwynion ac apeliadau academaidd sy'n ymwneud â'r broses o asesu dyfarniadau prifysgolion yn unol â gweithdrefnau'r cyrff dyfarnu. Ymdrinnir â chwynion ac apeliadau gan y myfyrwyr ar raglenni a ddyfernir gan Pearson yn unol â Pholisi Asesiadau a Chymwysterau Allanol y Coleg, nad ydynt yn cynnwys cyfeiriadau at y Canllaw Asesu ar gyfer Canolfannau BTEC.

2.118 Mae'r Rhestr Wirio o Gyfrifoldebau'n amlinellu cyfrifoldebau'r Coleg mewn perthynas â chwynion myfyrwyr. Ar gyfer rhaglenni a ddyfernir gan brifysgolion, ymdrinnir â chwynion ac apeliadau yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau'r prifysgolion, sydd ar gael i'r myfyrwyr trwy'r rhith-amgylchedd dysgu ac yn llawlyfrau'r rhaglenni. Nodir yr amrywiol weithdrefnau ar gyfer y gwahanol gyrff dyfarnu ar y rhith-amgylchedd dysgu. Defnyddir polisiau a chanllawiau'r Coleg ei hun ar gwynion ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni a ddyfernir gan Pearson.

2.119 Mae'r Polisi Asesiadau Mewnol a Chymwysterau Allanol yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer delio gyda a derbyn apeliadau sy'n ymwneud â'r broses asesu, ac mae arweiniad ar gael i'r staff mewn perthynas â'r dystiolaeth a'r dogfennau sydd eu hangen yn rhan o'r apêl.

2.120 Cyhoeddwyd yr amseriadau ar gyfer cwynion ac ar gyfer apeliadau gan fyfyrwyr yn y Polisi Cwynion. Ag yntau'n danysgrifiwr i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, mae'r Coleg yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr am y posibilrwydd o anfon cwynion ymlaen i'r Swyddfa hon.

2.121 Mae cwynion yn cael eu hystyried a'u hadolygu gan nifer o grwpiau yn y Coleg, sy'n cynnwys y Grŵp Strategaeth Cwricwlwm ac Ansawdd, a chânt eu craffu ymhellach yng nghyfarfodydd y Grŵp Dysgu a Rheoli Perfformiad a'r Grŵp Llywodraethwr Dysgu a Rheoli Perfformiad. Mae'r coleg yn cyhoeddi Adroddiad Cwynion blynyddol, sy'n nodi'r holl gwynion a wnaed i'r Coleg, gan gynnwys y dyddiadau a phenderfyniad y Coleg, y rhoddir adroddir amdano i Fwrdd Corfforaethol y Coleg.

2.122 Mae'r adroddiadau am gwynion yn datgan bod y Coleg yn ystyried cwynion ac apeliadau er mwyn gwella ei ddarpariaeth drwy gyflwyno neu adolygu canllawiau, a thrwy fonitro ymhellach y meysydd sy'n achosi cwynion. Mae'r Coleg hefyd yn adrodd am gwynion gan y campws ac yn rhoi dadansoddiad thematig.

2.123 Fel arfer, ymdrinnir â'r holl gwynion gan ddefnyddio polisi'r Coleg ei hun yn y lle cyntaf cyn eu pasio ymlaen i'r corff dyfarnu i dderbyn ystyriaeth. Gall y myfyrwyr hefyd fynd at y Cydlynnydd Addysg Uwch yn y lle cyntaf i fynegi unrhyw bryderon, cyn cychwyn y drefn gwyno. Mae'r myfyrwyr a'r staff yn ymwybodol o brosesau'r Coleg ar gyfer Cwynion ac Apeliadau Academaidd, ac mae'r myfyrwyr yn gyfforddus yn mynd at y staff gydag unrhyw ymholiadau neu bryderon. Mae'r myfyrwyr yn ymwybodol hefyd o'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn llawlyfrau eu rhaglenni ac ar y rhith-amgylchedd dysgu.

2.124 Canfu'r tîm adolygu bod y staff a'r myfyrwyr yn gyfarwydd â pholisïau'r Coleg yn y maes yma, a bod yr wybodaeth ar gael mewn gwahanol ffurfiau. Mae'r wybodaeth a gyhoeddwyd i'r myfyrwyr yn glir a chynhwysfawr. Mae'r Coleg yn monitro cwynion drwy adrodd am yr wybodaeth o'r cwynion drwy bwyllgorau ymgynghori'r Coleg, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth i hysbysu newidiadau i bolisïau neu arferion. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r tîm adolygu'n golygu bod y Disgwyliad hwn yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**



**Disgwyliad (B10): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cymryd y cyfrifoldeb pennaf am safonau academiaidd ac am ansawdd y cyfleoedd dysgu, lle bynnag y cânt eu darparu neu pwy bynnag sy'n eu darparu. Mae trefniadau ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu gyda sefydliadau heblaw'r corff dyfarnu graddau wedi'u gweithredu'n gadarn a'u rheoli'n effeithiol.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B10: Rheoli Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill**

#### **Y canfyddiadau**

2.125 Er nad yw'r Coleg yn gorff dyfarnu graddau, mae'r Disgwyliad hwn yn berthnasol i'r ffordd y mae'r Coleg yn cynnig cyfleoedd lleoliad gwaith ac yn darparu graddau sylfaen sy'n cynnwys elfennau dysgu seiliedig ar waith, a ddarperir neu a gefnogir gan sefydliadau eraill, drwy gytundeb ei gyrff dyfarnu.

2.126 Mae Cynllun Strategol ar gyfer Addysg Uwch 2013-16 y Coleg yn nodi y bydd y Coleg, yn rhan o'r cyfeiriad strategol, yn 'parhau i weithio gyda systemau darparu ar sail modiwlau a chredydau i wella hyblygrwydd a chynnydd drwy ddatblygu rhaglenni hyfforddiant galwedigaethol/seiliedig ar waith, yn arbennig Graddau Sylfaen a Phrentisiaethau Uwch'. Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn darparu 11 o raddau sylfaen, drwy ei bartneriaethau â'r pedair prifysgol. Mae gan Brifysgol De Cymru a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ganllawiau a phrotocolau manwl yn eu lle ar gyfer lleoliadau gwaith, gyda Phrifysgol De Cymru'n darparu templed manwl hefyd sydd i gael ei lenwi gan y Coleg a'i roi i'r cyflogwr.

2.127 Mae'r Coleg yn gweithredu'n unol â fframweithiau academiaidd y prifysgolion dilysu a Pearson, gyda'r cyfrifoldebau dirprwyedig wedi'u hamlinellu yn y rhestrau gwirio a'r cytundebau partneriaeth, ynghyd â dogfennaeth benodol gan y cyrff dyfarnu sy'n ymwneud â dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle. Mae'r Rhestrau Gwirio o Gyfrifoldebau ar gyfer Prifysgol De Cymru, Prifysgol Glyndŵr a PCYDDS yn nodi bod y Coleg yn gyfrifol am reoli'r berthynas gyda darparwyr lleoliadau gwaith, tra bo'r cyfrifoldeb o ran Prifysgol Abertawe wedi'i rannu rhwng y Brifysgol a'r Coleg. Defnyddir gweithdrefnau gan y cyrff dyfarnu lle maent ar gael, a chânt eu tynnu at ei gilydd ym Mholisi a Gweithdrefnau Profiad Gwaith trosfwaol y Coleg ac ym Mholisi Iechyd a Diogelwch Grŵp NPTC - Adran 13.2 - Profiad Gwaith. Byddai'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Coleg yn galluogi i'r Disgwyliad hwn gael ei gyflawni.

2.128 Profodd y tîm y Disgwyliad drwy graffu ar ddogfennau pellach a ddarparwyd gan y Coleg, sy'n cynnwys cytundebau lleoliad gwaith a ffurflenni i werthuso lleoliadau gwaith ar eu diwedd, yn ogystal ag mewn cyfarfodydd gyda'r cyflogwyr, y myfyrwyr a'r staff.

2.129 Mae Polisi a Gweithdrefnau Profiad Gwaith y Coleg yn disgrifio'r berthynas â chwricwlwm y maes astudio dan sylw, ac mae'n cefnogi'r myfyrwyr i wneud cysylltiad rhwng dysgu yn y Coleg a'i weithrediad ymarferol. Mae'r Polisi'n nodi'r aelod o'r staff sy'n gyfrifol am gydlynw gweithgareddau profiad gwaith y Coleg.

2.130 Mae'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch yn gyfrifol am fonitro'r gweithgareddau mewn cydweithrediad â'r brifysgol partner. Mae'r holl raddau sylfaen a ddarperir yn y Coleg yn cynnwys elfennau dysgu seiliedig ar waith, heblaw'r rhaglen FdA Perfformio a Chynhyrchu Cerddoriaeth (gwelwch Adran A1), naill ai gyda'r myfyrwyr yn defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau a ddysgwyd yn eu swyddi cyfredol, neu ar leoliad gwaith neu mewn ffug-amgylchedd gwaith, gan asesu'r canlyniadau dysgu mewn modiwlau megis Ymarferion y Gweithle (FdA Astudiaethau Gofal) a Datblygu Ymarfer Proffesiynol (FdA Astudiaethau Plentyndod). Mae Cydlynwyr Profiad Gwaith yn gyfrifol am fonitro a fetio darparwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Iechyd a Diogelwch. Mae Darlithwyr/Cydlynwyr Addysg Uwch yn gyfrifol am lenwi Ffurflen Gais am fetio Cyflogwyr o ran Iechyd a Diogelwch.

2.131 Mae'r mwyafrif o'r rhaglenni HNC a HND hefyd yn cynnwys uned sy'n gofyn asesu canlyniadau dysgu cysylltiedig â gwaith, er enghraifft, uned ar Gyflogadwyedd a Datblygiad Proffesiynol ar y rhaglen HNC/HND Cyfrifiadureg a Datblygu Systemau, ac uned Datblygiad Academaidd a Phroffesiynol ar y rhaglen HND Astudiaethau Busnes.

2.132 Mae safleoedd dysgu seiliedig ar waith ar gyfer myfyrwyr addysg uwch y Coleg yn cael eu hasesu a'u monitro'n unol â gofynion y cyrff dyfarnu, ynghyd â Pholisi a Gweithdrefnau Profiad Gwaith y Coleg. Mae'r Coleg yn nodi bod cyflogwyr sy'n darparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith yn derbyn pecyn i gyflogwyr, ynghyd â gwybodaeth am y cwrs a'r modiwl. Mae'r myfyrwyr yn derbyn Pecyn i Fyfrwyr cyn eu lleoliad gwaith sy'n cynnwys yr wybodaeth a'r dogfennau sy'n berthnasol i ddiogelwch, ac maent yn derbyn ymsefydliad iechyd a diogelwch gan y cyflogwr, sy'n cael ei fonitro gan ddefnyddio Atodiad 1 y ddogfennaeth dysgu seiliedig ar waith. Y myfyriwr sy'n gyfrifol am gysylltu â'r cyflogwr sy'n darparu'r lleoliad gwaith, ac am sicrhau bod cytundeb gyda'r cyflogwr wedi'i lofnodi cyn cychwyn y lleoliad gwaith. Roedd y myfyrwyr a welwyd yn ystod yr ymweliadau'n gyffredinol ganmoliaethus am yr wybodaeth a'r gefnogaeth y maent yn eu derbyn gan staff y Coleg cyn ac yn ystod lleoliadau gwaith, a'r cyfle i roi adborth ar y lleoliad gwaith.

2.133 Mae'r Coleg yn datgan ei fod yn gofyn am berson cyswllt enwebedig yn y gweithle, ynghyd ag amserlen gysylltu ac adborth ar y myfyriwr, gyda'r myfyriwr a'r cyflogwr yn llenwi ffurflenni gwerthuso ar ôl cwblhau'r lleoliad gwaith. Y cyflogwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod y myfyriwr yn derbyn ymsefydliad iechyd a diogelwch ar ddiwrnod cyntaf eu lleoliad gwaith, ac mae'r myfyriwr yn cwblhau rhestr wirio ymsefydlu. Arweinydd y rhaglen neu'r tiwtor lleoliad gwaith dynodedig sy'n gyfrifol am gysylltu ar y ffôn â'r cyflogwr sy'n darparu'r lleoliad gwaith, ac am sicrhau bod gan bob parti'r manylion cysylltu sy'n angenrheidiol. Yna, mae'r cyflogwr sy'n darparu'r lleoliad gwaith a'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth, gyda'r cyflogwr wedi'i annog i gysylltu â'r tiwtor os bydd unrhyw broblemau gyda pherfformiad, agwedd neu ymddygiad y myfyriwr gynted ag y bo modd. Mae ffurflen ddiwedd lleoliad gwaith yn gyfle i'r cyflogwr roi adborth ar berfformiad y myfyriwr yn ystod y lleoliad gwaith, gan roi graddau ar ystod o agweddau, sy'n cynnwys cyfathrebiad, cymhelliad, ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch a deddfwriaeth berthnasol, ar raddfa o wael i ragorol.

2.134 Ond, canfu'r tîm, er bod y gweithgareddau yn ystod y lleoliadau gwaith yn cael eu gweithredu'n foddhaol, gyda'r myfyrwyr wedi'u paratoi'n dda iawn ar gyfer y lleoliadau gwaith gan y Coleg, dywedodd y cyflogwyr a welwyd yn ystod yr ymweliad nad oeddent yn derbyn gwybodaeth ddigonol gan y Coleg am y cwricwlwm a chynnydd y myfyriwr ar y cwrs, hyd yn oed pan fo'r cyflogwr yn gyfrifol am dalu'r ffioedd addysgu. Nododd y tîm fod yr adroddiad ar yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru yn 2013 wedi argymhell y dylai partneriaethau 'Ddatblygu polisïau clir ar gyfer dysgu seiliedig ar waith i sicrhau bod modd cymharu'r profiad i'r myfyrwyr a bod arweiniad priodol ar gael i gyflogwyr'. Mae'r tîm yn **argymhell** bod y Coleg yn sicrhau bod yr holl gyflogwyr yn derbyn gwybodaeth briodol am gynnwys y cyrsiau a chynnydd y myfyrwyr.

2.135 I grynhoi, canfu'r tîm fod y prosesau sydd ar waith yn y Coleg yn galluogi i'r Disgwyliad hwn gael ei gyflawni. Ond, ystyrir bod lefel y risg yn ganolig oherwydd, er bod y trefnau sicrhau ansawdd sy'n ymwneud â lleoliadau gwaith yn ddigonol i raddau, mae rhai gwendidau o ran pa mor drwyadl y maent yn cael eu gweithredu.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**  
**Lefel y risg: Canolig**

**Disgwyliad (B11): Dyfernir graddau ymchwil mewn amgylchedd ymchwil sy'n darparu safonau academaidd cadarn i wneud gwaith ymchwil a dysgu am agweddau, dulliau, trefnau a phrotocolau ymchwilio. Mae'r amgylchedd hwn yn cynnig y cyfleoedd a'r gefnogaeth o safon uchel i fyfyrwyr y maent eu hangen i sicrhau canlyniadau academaidd, personol a phroffesiynol llwyddiannus yn eu graddau ymchwil.**

**Cod Ansawdd, Pennod B11: Graddau Ymchwil**

### **Y canfyddiadau**

2.136 Nid yw'r Coleg yn cynnig unrhyw raddau ymchwil, felly nid yw'r Disgwyliad hwn yn berthnasol.

## Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

2.137 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig.

2.138 O'r 10 Disgwyliad yn y maes yma, mae'r tîm adolygu o'r farn bod lefel y risg yn isel mewn saith Disgwyliad; yn achos y tri Disgwyliad arall, barnwyd bod lefel y risg yn ganolig. Mae'r argymhellion sy'n deillio o ddau o'r Disgwyliadau hyn yn ymwneud â pha mor fanteisiol yw cyflwyno crynodeb cyfunol blynyddol o'r cryfderau a'r gwendidau a bennwyd yn holl adroddiadau'r arholwyr allanol (Disgwyliad B7) ac o ddatblygu, ar y cyd gyda'i gyrff dyfarnu, fecanweithiau i'r Coleg ei hun oruchwylio'n fwy manwl brosesau'r partneriaid o fonitro ac adolygu (Disgwyliad B8). Gyda'i gilydd, byddai gweithredu'r argymhellion hyn yn sicrhau bod gan y Coleg oruchwyliaeth barhaus dros ei ddarpariaeth addysg uwch i gyd. Mae'r trydydd argymhelliad yn cyfeirio at yr angen am sicrhau bod yr holl gyflogwyr yn derbyn gwybodaeth briodol am gynnwys cyrsiau'r rhaglenni y mae eu gweithwyr neu eu myfyrwyr ar leoliad gwaith arnynt ac am gynnydd y myfyrwyr eu hunain.

2.139 Mae'r tîm adolygu'n argymhell hefyd bod y Coleg yn cymryd camau er mwyn galluogi cyflogwyr i gyfrannu at gynllunio a chymeradwyo rhaglenni (Disgwyliad B1), a'i fod yn sefydlu proses i gofnodi'n systematig ymgysylltiad y staff gyda datblygiad proffesiynol parhaus a gweithgareddau ysgolheigaidd sy'n benodol i addysg uwch.

2.140 Yn gyffredinol, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Coleg yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

### 3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu

**Disgwyliad (C): Mae darparwyr addysg uwch y DU yn cynhyrchu gwybodaeth i'w cynulleidfaoedd targed am yr addysg uwch y maent yn ei chynnig sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.**

#### Cod Ansawdd, Rhan C: Gwybodaeth am Ddarpariaeth Addysg Uwch

##### Y canfyddiadau

3.1 Gan Grŵp Marchnata'r Coleg y mae'r cyfrifoldeb am yr wybodaeth gyhoeddedig ac mae'n cael ei safoni drwy gyhoeddi Trefn Gyhoeddi a Marchnata. Mae'r wybodaeth sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu mewn proffiliau cwrs a llawlyfrau rhaglen yn cael ei chynhyrchu gan Gydlynwyr Addysg Uwch a thimau rhaglen. Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â'r corff dyfarnu'n cael ei chymeradwyo gan y brifysgol unigol cyn ei chyhoeddi, ac mae gan wefan y Coleg ddolenni at wefannau'r brifysgol. Mae'r wybodaeth am gyrsgiau'n cael ei diweddarau a'i hadolygu'n flynyddol. Mae'r Coleg wedi buddsoddi mewn system 'Curriculum Occurrence Editor (COED)' i sicrhau bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â chwricwla yn gyson ar draws y Coleg.

3.2 I raddau mawr, mae Polisi Cyhoeddi a Marchnata'r Coleg yn ganllaw dylunio sydd i gael ei ddefnyddio wrth gyflwyno gwybodaeth, ac nid yw'n amlinellu'r broses ar gyfer gwirio deunyddiau i weld a yw'n gywir, yn gyfredol, yn briodol neu'n alinio â'r canllawiau cyfredol. Nid yw'n ymddangos bod proses ffurfiol ar gael ar gyfer cymeradwyo'r wybodaeth gyhoeddedig. Mae'r Coleg yn sicrhau bod deunydd a gwybodaeth sy'n ymwneud ag addysg uwch yn cael eu rheoli'n gywir. Mae'r rhain yn cynnwys llunio prospectysau, taflenni cwrs a deunydd marchnata i'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'n ymddangos bod gan y Coleg amrediad da o ymgyrchoedd ac adnoddau marchnata i fodloni amrywiaeth o gynulleidfaoedd, drwy gyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth a phresenoldeb mewn digwyddiadau amrywiol.

3.3 Mae'r prospectws addysg uwch yn cynnwys tudalennau ar bob un o'r rhaglenni sydd yn union yr un fath â'r taflenni cwrs. Nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth am y Coleg, y cyrff dyfarnu, cysylltiadau a'r prifysgolion, ffioedd, bwrsariau neu gynnydd. Ychydig iawn o gyfeiriad sydd yn y prospectysau llawn amser a rhan amser ar wefan y Coleg at ddarpariaeth addysg uwch neu gynnydd o addysg bellach. Dim ond y myfyrwyr addysg bellach sy'n symud ymlaen i brifysgolion sy'n cael eu dangos yn y rhestr o gyflawniadau. Nid oedd hi'n bosibl lawrlwytho'r prospectws addysg uwch o'r wefan.

3.4 Mae'r prospectysau'n cynnwys lluniau o fyfyrwyr a dyfyniadau gan fyfyrwyr, ac mae'r Coleg yn gofyn am ganiatâd gan y myfyrwyr hynny sy'n ymddangos ym mhrospectysau'r Coleg.

3.5 Mae'r llawlyfrau rhaglen ar gyfer dyfarniadau prifysgolion yn cael eu cynhyrchu gan y brifysgol berthnasol. Mae'r sampl o PCYDDS wedi'i osod yn ei gyd-destun ar gyfer myfyrwyr Grŵp NPTC. Ysgrifennwyd y llawlyfr gan Brifysgol Glyndŵr ar gyfer ei fyfyrwyr ei hun, gyda gwybodaeth benodol ar gyfer myfyrwyr Grŵp NPTC. Ysgrifennwyd y llawlyfr gan Brifysgol Abertawe yn benodol ar gyfer myfyrwyr Grŵp NPTC. Y Coleg sy'n cynhyrchu'r llawlyfr ar gyfer rhaglenni Pearson. Mae'r wybodaeth gyhoeddedig yn y llawlyfrau'n gynhwysfawr ac yn ddefnyddiol i fyfyrwyr.

3.6 Mae'r llawlyfrau rhaglen, y rhith-amgylchedd dysgu a'r proffiliau ar-lein am y cyrsiau'n amlinellu gwybodaeth yn ymwneud â dysgu ac addysgu, sy'n cynnwys canlyniadau dysgu, asesiadau, calendrau asesu a'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r proffiliau ar-lein am rai cyrsiau'n wag.

3.7 Mae gan bob rhaglen lawlyfr, sy'n dilyn naill ai dempledi'r cyrff dyfarnu neu dempledi'r Coleg ar gyfer Pearson. Maent ar gael ar-lein ac mewn print, ac mae gwybodaeth gynhwysfawr ar gael am y ddarpariaeth a'r brifysgol ddyfarnu ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae'r tudalennau am addysg uwch ar y rhith-amgylchedd dysgu'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â chwynion ac apeliadau academaidd, amgylchiadau esgusodol a llais y myfyrwyr.

3.8 Mae'r myfyrwyr yn derbyn trawsgrifiad swyddogol ar ôl cwblhau eu hastudiaethau, gan naill ai'r corff dyfarnu neu'r Coleg.

3.9 Mae'r Coleg yn rhoi trosolwg o'i swyddogaethau sicrhau ansawdd ar ei wefan a thrwy wefan rannu dogfennau i staff.

3.10 Mae gwybodaeth gyhoeddedig ar wefan y Coleg yn ymwneud â derbyniadau a cheisiadau, sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol i'r darpar fyfyrwyr megis ffioedd, cwricwla a chymwysterau.

3.11 Mae gan y Coleg ystod o wasanaethau cymorth i fyfyrwyr, ac mae gwybodaeth am y rhain ar gael ar wefan y Coleg a thrwy'r rhith-amgylchedd dysgu. Mae Siarter y Myfyrwyr ar gael ar wefan y Coleg a thrwy'r rhith-amgylchedd dysgu, ac mae'n nodi disgwyliadau cyfartal y Coleg a'i fyfyrwyr. Mae Cydlynwyr Addysg Uwch yn gyfrifol am eu gwefannau ar y rhith-amgylchedd dysgu, ac mae hyfforddiant ar gael gan y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth i gefnogi'r staff i ddefnyddio'r system. Dywedodd y myfyrwyr bod y rhith-amgylchedd dysgu'n adnodd defnyddiol i'w helpu gyda'u dysgu, ac mae'r staff yn ei ddefnyddio'n effeithiol.

3.12 Mae Cyfresi Gwybodaeth Allweddol a darnau eraill o wybodaeth gyhoeddus ar gael drwy wefan y Coleg, gyda dolenni Unistats. Mae gwybodaeth yn ymwneud â phartneriaid y Coleg ar gael ar-lein, sy'n cynnwys y cyrff dyfarnu graddau eraill.

3.13 Mae'r Coleg yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gostau cwrs ychwanegol, ac yn sicrhau fod pob cyhoeddiad sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol yn cynnwys rheoli fersiwn. Cyhoeddir gwybodaeth yn ymwneud â ffioedd a chostau cwrs ychwanegol yn nogfen Ffioedd Addysg Uwch a Chymorth Ariannol y Coleg. Mae diffyg cysondeb mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth am gostau cwrs ychwanegol mewn llawlyfrau rhaglen. Er enghraifft, nodir bod y rhaglen BA Twristiaeth Ryngwladol a Rheoli Digwyddiadau a'r rhaglen FdSc Hyfforddiant a Datblygiad Chwaraeon yn cynnwys costau cwrs ychwanegol; ond nid yw hyn i'w gael yn llawlyfrau'r rhaglenni, ac nid ydynt yn egluro a yw'r costau hyn yn orfodol er mwyn symud ymlaen ar y rhaglen, er enghraifft, yn achos y rhaglen BSc Astudiaethau Gofal, sy'n gofyn am wiriad gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Coleg yn sicrhau bod holl gostau ychwanegol y cyrsiau'n cael eu datgan yn glir ymhob gwybodaeth berthnasol.

3.14 Mae'r Coleg yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg, y mae Prif Weithredwr y Coleg yn gyfrifol amdano, ac sy'n adrodd yn bennaf i gyfarfodydd y Grŵp Rheoli Dwyieithrwydd a'r Uwch Dîm Rheoli. Mae Rhestr Wirio o Wasanaethau Iaith Gymraeg y cytunwyd arni, y mae'r Coleg yn glynu ati, sydd hefyd yn cynnwys gallu'r myfyrwyr i gyflwyno gwaith i'w asesu yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn gweithio tuag at gael 14 aelod o staff addysgu llawn amser sy'n siarad Cymraeg ac mae'n paratoi ar gyfer cyflwyno Safonau Comisiynydd y Gymraeg.

3.15 Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Coleg yn sicrhau bod mecanweithiau yn eu lle i fonitro a goruchwyllo'n ganolog gywirdeb a phrydlondeb yr holl wybodaeth gyhoeddedig.

3.16 Yn gyffredinol, mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Coleg yn cynhyrchu gwybodaeth am ansawdd y cyfleoedd dysgu sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy. Mae'r trefnau sydd ar waith yn ddigonol i raddau, ond mae rhai gwendidau o ran pa mor gyson yw'r wybodaeth a ddarperir ar wefan y Coleg, darpariaeth gyson gwybodaeth ddwyieithog ar-lein, a pha mor

gyson yw'r wybodaeth a gyhoeddir am gostau ychwanegol y cyrsiau. Mae hefyd ddiffyg eglurder mewn perthynas â phroses gymeradwyo ffurfiol ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn ganolig.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Canolig**

## Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu: Crynodeb o'r canfyddiadau

3.17 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth ynglŷn ag ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu, ystyriodd y tîm adolygu'r canfyddiadau yn erbyn y meini prawf fel y maent wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2 y llawlyfr a gyhoeddwyd.

3.18 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, ond bod lefel y risg yn ganolog. Yn gyffredinol, mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Coleg yn cynhyrchu gwybodaeth am ansawdd y cyfleoedd dysgu sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy. Mae'r trefnau sydd ar waith yn ddigonol i raddau, ond mae rhai gwendidau o ran pa mor gyson yw'r wybodaeth a ddarperir ar wefan y Coleg, darpariaeth gyson gwybodaeth ddwyieithog ar-lein, a pha mor gyson yw'r wybodaeth a gyhoeddir am gostau ychwanegol y cyrsiau. Felly, mae'r tîm adolygu'n argymhell bod y Coleg yn sicrhau bod holl gostau ychwanegol y cyrsiau'n cael eu datgan yn glir ymhob cyhoeddiad priodol.

3.19 Mae hefyd ddiffyg eglurder mewn perthynas â phroses gymeradwyo ffurfiol ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth, ac mae'r tîm adolygu'n argymhell bod y Coleg yn sicrhau bod mecanweithiau yn eu lle i fonitro a goruchwyllo'n ganolog gywirdeb a phrydlondeb yr holl wybodaeth gyhoeddedig.

3.20 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu yn y Coleg yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.



## 4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

**Disgwyliad (Gwelliant): Cymerir camau pwrpasol ar lefel y darparwr i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.**

### Y canfyddiadau

4.1 Nid oes gan y Coleg unrhyw strategaeth benodol ar gyfer gwelliant, ac nid yw chwaith yn pennu prosesau ar gyfer cynnwys gwelliant yn y cwricwla neu wrth gyflenwi'r ddarpariaeth. Mae'r Coleg yn gosod themâu gwelliant blynyddol, sy'n cael eu cynnwys yn adroddiadau hunanasesu Grŵp NPTC i'r Coleg cyfan. Ychydig iawn o gyfeirio penodol at addysg uwch sydd yn yr adroddiadau hunanasesu hyn.

4.2 Mae'r Grŵp Strategaeth Dysgu ac Addysgu'n gyfrifol am ddatblygu gwelliant mewn dysgu ac addysgu, dan arweiniad y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd. Ni ddarperir unrhyw gylch gwaith na chofnodion cyfarfodydd y grŵp hwn. Adroddir gweithgareddau'r grŵp hwn i'r Grŵp Strategaeth Ansawdd, y mae ei gofnodion yn ymwneud â datblygiadau strategol a materion gweithredol, ond nid ydynt yn cyfeirio'n benodol at welliant. Sicheir gwelliant mewn dysgu ac addysgu drwy'r "dulliau wedi'u huno o arsylwi'r addysgu a RhAP sydd wedi'u tanategu gan bolisi Addysgu, Dysgu ac Asesu'r Coleg". Mae'r polisi Rheoli ac Adolygu Perfformiad (RhAP) yn ymwneud yn bennaf gyda gweithdrefnau i ymdrin â staff sy'n tanberfformio ac i'w cefnogi, ac nid yw'n cyfeirio'n benodol at welliant.

4.3 Mae'r ddogfen hunanwerthuso'n datgan bod cyflwyno technoleg dysgu drwy fideo'n hanfodol ar gyfer gwella'r cyfleoedd dysgu'n barhaus, ond nid oes disgrifiad o'r ffordd y sicheir hyn a does dim tystiolaeth wedi'i darparu i gefnogi hyn. Dwy o themâu'r Grŵp Strategaeth TG yw gwella'r profiad o ddefnyddio technoleg gwybodaeth a gwella safon y ffordd yr adroddir y data. Nid yw cofnodion y grŵp hwn yn cyfeirio'n benodol at wella profiad y myfyrwyr o ran technoleg gwybodaeth na sut y defnyddir adrodd data ar gyfer gwelliant. Cafwyd nifer o welliannau i seilwaith technoleg gwybodaeth a systemau gwybodaeth rheoli'r Coleg, ond nid oes awgrym ynghylch y ffordd y bydd hyn yn gwella'r cyfleoedd dysgu.

4.4 Mae'r Coleg wedi cyflwyno Grŵp Strategaeth Myfyrwyr yn ddiweddar. Mae hwn yn grŵp traws-Goleg sy'n ymdrin â phob lefel o'r ddarpariaeth, gyda'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Addysg Uwch yn aelod. Mae'r cofnodion cyfarfodydd a ddarparwyd yn dangos rhai cyfeiriadau penodol at addysg uwch ond dim cyfeiriad penodol at welliant.

4.5 Mae'r Grŵp Rheoli AU yn gwneud y mwyafrif o'r penderfyniadau sy'n ymwneud â gwella profiad y myfyrwyr addysg uwch, wedi'u hysbysu gan lais y myfyrwyr a mecanweithiau monitro blynyddol ac eraill, gan arwain at welliannau diweddar sy'n cynnwys cyflwyno cortynnau o wahanol liwiau ac ystafelloedd cyffredin i fyfyrwyr addysg uwch. Mae'r Grŵp hefyd yn cyfeirio adborth at grwpiau eraill, megis y Grŵp Strategaeth TG a'r Grŵp Strategaeth Myfyrwyr i gymeradwyo gwelliannau.

4.6 Pwrpas y Grŵp Strategaeth Cwricwlwm yw gwella'r cwricwlwm i gwrdd ag anghenion myfyrwyr a chyflogwyr, er enghraifft y Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau. Mae'r gwaith yma'n cynnwys datblygu cwricwla newydd, ac addasu a gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cwricwlwm i gefnogi'r mentrau hyn.

4.7 Mae'r Grŵp Strategaeth Ansawdd yn goruchwyllo ansawdd darpariaeth y cwricwla ac yn monitro'r canlyniadau. Mae'n cyfrannu at welliant drwy ymateb i lais y myfyrwyr ac i gwynion, a thrwy ymdrin â materion yn ymwneud ag ansawdd wrth iddynt godi. Mae'r Grŵp Dysgu a Rheoli Perfformiad yn goruchwyllo pob un o'r grwpiau eraill yma; mae'n cymeradwyo ac yn monitro camau gweithredu bob grŵp ac, felly, mae'n cyfrannu at welliant. Mae pob un o'r grwpiau

hyn, heblaw'r Grŵp Rheoli AU, yn ymdrin â'r holl ddarpariaeth yn y Coleg, gyda chofnodion, lle maent wedi'u darparu, yn dangos materion addysg bellach yn bennaf.

4.8 Mae cofnodion y Grŵp Cydlynwyr Addysg Uwch ar gyfer Ionawr 2015 yn dangos eitem ar themâu gwelliant sydd i gael eu dwyn ymlaen i'r cyfarfod nesaf. Nid oes unrhyw arwydd o'r eitem hon yng nghofnodion y cyfarfodydd dilynol, ac nid yw gwelliannau'n eitem safonol ar yr agenda.

4.9 Mae'r Coleg yn cymryd camau i wella ei fentrau i fyfyrwyr a grym llais y myfyrwyr trwy gyflwyno grwpiau cynrychioliadol penodol i addysg uwch a synnwyr cryfach o hunaniaeth addysg uwch, a allai gyfrannu at welliant.

4.10 Er gwaethaf y fenter a ddisgrifiwyd uchod, does dim tystiolaeth o strategaeth wella neu o oruchwyliaeth dros waith gwella. Nid oes unrhyw arwydd o brosesau i yrru mentrau gwelliant neu i sicrhau bod gwelliant yn derbyn ystyriaeth ar bob lefel. Nid oes unrhyw dystiolaeth o ddadansoddi data i gychwyn gwelliant. Nid oes unrhyw arwydd o hyfforddiant datblygiad staff penodol ar welliant na sut y gellir lledaenu gwelliant ar draws y rhaglenni a'r ysgolion astudio.

4.11 Nid yw cyflwyniad y myfyrwyr i'r adolygiad hwn yn cyfeirio at ddealltwriaeth myfyrwyr o'r syniad, neu eu cyfraniad at welliant, ac ychydig iawn o ddealltwriaeth o welliant a ddangoswyd gan y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw.

4.12 Byddai'r prosesau y cyfeirir atynt uchod yn awgrymu agwedd strategol tuag at welliant, a goruchwyliaeth dros y gwaith gwella. Ond, fel y dangoswyd eisoes, nid yw'r prosesau hyn wedi cael eu dilyn gan y gwahanol grwpiau sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r gwaith gwella. Nid yw'r mentrau a awgrymwyd wedi cael eu holrhain, does dim tystiolaeth o welliannau'n derbyn ystyriaeth mewn pwyllgorau, ac nid oes cymhelliant strategol i gymryd rhan mewn gweithredoedd gwella. O ganlyniad i hyn, ynghyd â'r diffyg dealltwriaeth gyffredinol yn ymwneud â gwelliant a ddangosodd y myfyrwyr a'r staff ar bob lefel, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad heb ei gyflawni.

4.13 Archwiliodd y tîm y dystiolaeth a ddarparwyd cyn ac yn ystod yr ymweliad a bu'n trafod gyda Phennaeth y Coleg, staff uwch, staff academiaidd a staff cymorth, a myfyrwyr, yr oeddent oll yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig ac amrywiol o welliant. Darparwyd nifer o esiamplau gan staff academiaidd a staff cymorth, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o agwedd gydlynol na lledaenu gwelliannau.

4.14 Roedd cyfarfodydd gyda staff academiaidd a staff cymorth yn dangos nifer fechan o esiamplau o welliant ar lefel y rhaglenni. Rhoddwyd esiampl gan staff technoleg gwybodaeth mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr; ond roedd hyn yn angenrheidiol er mwyn ymdrin â materion a godwyd gan y myfyrwyr. Mae'r nifer fechan o esiamplau o gamau gweithredu a gymerwyd y gellir eu hystyried yn welliannau, a'r diffyg strwythur ar gyfer rhannu arferion da a gwelliannau drwy'r Coleg cyfan yn effeithiol, yn awgrymu bod camau gweithredu wedi'u cymryd i ymateb i'r galw yn hytrach nag agwedd gydlynol tuag at welliant. Er y byddai'r prosesau sydd ar waith yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni, mae'r diffyg tystiolaeth i ddangos bod gwelliannau wedi bod yn ofynnol ac wedi cael eu hystyried ar lefelau uwch yn awgrymu nad yw'r prosesau hyn yn cael eu dilyn mewn gwirionedd.

4.15 Mae'r tîm yn **argymell** bod y Coleg yn datblygu agwedd strategol tuag at welliant ac yn sicrhau bod mentrau gwelliant yn cael eu datblygu a'u gweithredu mewn ffordd drefnus drwy'r Coleg cyfan.

4.16 Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad heb ei gyflawni a bod lefel y risg yn ganolig.

**Y Disgwyliad: Heb ei gyflawni**

**Lefel y risg: Canolig**

## Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

4.17 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig.

4.18 Barnwyd bod yr un Disgwyliad sydd i'w gael yn y maes yma heb gael ei gyflawni. Er bod y tîm adolygu wedi gweld tystiolaeth o ymrwymiad amlwg gan y Coleg i wella'r cyfleoedd dysgu i'w fyfyrwyr a'u profiad, ni allai ganfod unrhyw dystiolaeth o strategaeth gyffredinol neu gamau pwrpasol i weithredu agwedd strwythuredig tuag at welliant, ac i fonitro'r gwaith o'i weithredu a'i ledaenu. Dangosodd y myfyrwyr a'r staff ar bob lefel ddealltwriaeth gyfyngedig ac amrywiol o welliant yng nghyd-destun addysg uwch.

4.19 Felly, mae'r tîm adolygu'n argymhell bod y Coleg yn datblygu agwedd strategol tuag at welliant ac yn sicrhau bod mentrau gwelliant yn cael eu datblygu a'u gweithredu mewn ffordd drefnus drwy'r Coleg cyfan.

4.20 Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Coleg yn **gofyn gwelliant i gyflawni** disgwyliadau'r DU.

## 5 Sylwadau am Ryngwladoli

5.1 Mae Strategaeth Ryngwladol 2014-17 y Coleg yn datgan mai cenhadaeth y Coleg o ran rhyngwladoli yw "darparu addysg, hyfforddiant, sgiliau a gwasanaethau ymgynghori, yn y DU a thramor, sydd ymhlith y gorau yn y byd i gwrdd ag anghenion unigolion, sefydliadau a llywodraethau". Y nod yw sefydlu campysau'r Coleg mewn pump neu fwy o wledydd tramor dros y tair i bum mlynedd nesaf, i ddarparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghori i unigolion, sefydliadau a llywodraethau. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi beth yw cryfderau a gwendidau Cymru fel darparwr addysg alwedigaethol uwch i'r marchnadoedd hyn.

5.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai un o'i blaenoriaethau o ran addysg uwch yw bod darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'r llywodraeth i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol ac mae'r Coleg yn brysur yn ei ymdrechion i weithredu'r polisi yma. I'r perwyl hwn, sefydlodd y Coleg is-frand NPTC International yn 2013, a phenododd Bennaeth Cynorthwyol ar gyfer Gweithrediadau Byd-eang, i ddatblygu ei weithgareddau rhyngwladol ymhellach.

5.3 Mae'r Coleg yn aelod o TVET UK (Addysg a Hyfforddiant Technegol a Galwedigaethol), ac mae'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Gweithrediadau Byd-eang yn aelod o Gyngor TVET UK. Mae'r Coleg yn aelod o Gonsortium Chongqing (Tsieina) Colegau Cymru hefyd, ac mae'n rhedeg ysgol iaith ryngwladol yn Hampshire, LSI Portsmouth. Mae gan y Coleg Drwydded Swyddfa Gartref y DU a statws fel Noddwr ag Ymddiriedaeth Uchel, sy'n caniatáu i'r Grŵp noddï myfyrwyr llawn amser rhyngwladol sydd â fisa Haen 4 i astudio yn y Coleg, er nad oes unrhyw fyfyrwyr Haen 4 ar hyn o bryd sy'n astudio yn y Coleg ar Lefel 4 neu uwch. Er bod nifer o fyfyrwyr rhyngwladol wedi cael lle yn y Coleg ar wahanol fathau o fisâu, mae'r Coleg wedi noddï dau fyfyrwr o dan ei drwydded.

5.4 Mae'r Coleg wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan y Cyngor Prydeinig drwy'r prosiect Sgiliau ar gyfer Cyflogadwyedd (gan weithio gyda phartneriaid yn Tsieina), prosiect Cysgod rhwng Penaeithaid y DU a Tsieina, a rhaglen Datblygu Chwaraeon Seland Newydd. Mae'r Cyngor Prydeinig yng Nghymru wedi cefnogi'r daith i Seland Newydd i ddatblygu rhaglen gyfnewid ryngwladol a fydd yn rhoi safbwynt byd-eang gwell i ddysgwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch lefel sylfaen mewn Hyfforddiant a Datblygiad Chwaraeon. Y cynsail oedd bod myfyrwyr Grŵp NPTC sy'n astudio ar gyfer y Radd Sylfaen mewn Hyfforddiant a Pherfformiad Chwaraeon yn gweithio gyda phartneriaid yn Seland Newydd i helpu i ddarparu rhaglen o weithgareddau i blant ysgol lleol yn ardal Auckland, gan sicrhau mynediad ar yr un pryd i sgysiau a digwyddiadau gan sefydliadau chwaraeon o'r radd uchaf ar Ynys y Gogledd. Mae'r myfyrwyr wedi cael cyfle hefyd i wneud cais am ysgoloriaeth i Goleg Polytechnig Chongqing. Mae'r Coleg yn cynnig cyllid mewnol ac allanol i gefnogi cyfleoedd i'w fyfyrwyr astudio dramor a mynd ar deithiau astudio.

5.5 Nid yw'r Strategaeth Ryngwladoli wedi peri i'r Coleg sefydlu unrhyw gampysau rhyngwladol hyd yn hyn. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith rhyngwladol yn cynnwys datblygu'r cwricwlwm i gynnwys ffocws ar globaleiddio a damcaniaethau ac agweddau rhyngwladol, ynghyd â chyfleoedd i'r myfyrwyr astudio dramor. Mae'r cyntaf yn cynnwys ffocws ar agweddau rhyngwladol mewn modiwlau a rhaglenni penodol, er enghraifft Diwylliant a Chyfathrebu Rhyngwladol a Busnes Byd-eang ar y radd atodol BA (Anrh) Astudiaethau Busnes; Rheoli Twristiaeth a Chyrchfan Fyd Eang ar y rhaglen BA (Anrh) Twristiaeth Ryngwladol a Rheoli Digwyddiadau; Gweithrediadau Teithio Rhyngwladol ar y rhaglenni Gradd Sylfaen, HNC a HND Twristiaeth Ryngwladol a Rheoli Digwyddiadau; Dulliau Coginio'r Byd ar y rhaglen HND Rheoli Gwesty ac Arlwy; Hunaniaeth Genedlaethol yn Ewrop 1860-1945 a Diwylliant a Chred yn Ewrop yn ystod y Dadeni ar y rhaglen BA (Anrh) Saesneg a Hanes.

5.6 Ers dwy flynedd, mae'r Coleg wedi croesawu cynrychiolwyr o Chengdu yn Tsieina ar gyrsiau hyfforddi athrawon. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth gan y tîm hyfforddi athrawon ym maes addysg uwch a'r uwch ddarlithwyr ym maes dysgu ac addysgu. Croesawodd Y Drenewydd 16 o staff a myfyrwyr ar gyfer teithlen pythefnos fel rhan o daith Diwylliant Rhyngwladol y Coleg. Yn ddiweddar mae'r Coleg wedi cynnal y garfan gyntaf o fyfyrwyr ar y Prosiect Gweithfan o Goleg Rheolaeth Dinas Chongqing. Y nod yw datblygu sgiliau galwedigaethol y staff ym maes hyfforddi athrawon, ac mae'r cynrychiolwyr yn mynd i sesiynau hyfforddi athrawon ac yn mynd ar leoliad yn y Coleg am bedwar mis. Mae'r Coleg yn cydweithio â choleg yn St Petersburg hefyd i gynnig taith academaidd a diwylliannol i fyfyrwyr ym maes busnes ym mis Gorffennaf 2016. Bydd y daith yn cynnwys dosbarthiadau dysgu Rwseg ac ymweliadau â busnesau blaenllaw yn y ddinas.

5.7 Mae gan y Coleg rôl weithredol mewn ymchwilio cyfleoedd i gydweithio'n rhyngwladol. Mae'n cymryd rhan yng ngwaith Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru drwy ei brifysgolion partner a thrwy ei aelodaeth mewn nifer o grwpiau sy'n gweithio i ddatblygu'r ddarpariaeth ryngwladol. Gallai myfyrwyr a staff a welwyd yn ystod yr ymweliad adolygu roi esiamplau o gyfleoedd rhyngwladol.

5.8 Mae nifer o raglenni addysg uwch y Coleg yn cynnwys modiwlau sy'n cynnig amrediad eang o safbwyntiau rhyngwladol, i ddenu myfyrwyr tramor ac hefyd i roi profiad i fyfyrwyr yn y DU o ddamcaniaethau ac arferion rhyngwladol, er enghraifft Rheoli Twristiaeth a Chyrchfan Fyd Eang ar y rhaglen BA Twristiaeth Ryngwladol a Rheoli Digwyddiadau; a Dulliau Coginio'r Byd ar y rhaglen HND Rheoli Gwesty ac Arlwy.

## Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym i dermau yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Hefyd, rhoddir diffiniadau o dermau gweithredol allweddol ar dudalennau 27 i 29 y [llawlyfr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru](#).

Os byddwch eisiau diffiniadau gweithredol ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar sicrhau safonau ac ansawdd: [www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality](http://www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality).

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **Rhestr termau** hirach ar wefan ASA: [www.qaa.ac.uk/Pages/GlossaryCY.aspx](http://www.qaa.ac.uk/Pages/GlossaryCY.aspx).

### Arfer da

Proses neu ffordd o weithio sydd, ym marn tîm adolygu ASA, yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i reolaeth darparwr addysg uwch ar safonau academiaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgol. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau adolygu ASA.

### Canlyniadau dysgu

Yr hyn y disgwylir i ddysgwyr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

### Corff dyfarnu graddau

Darparwr addysg uwch y DU (prifysgol fel arfer) sydd â'r pŵer i ddyfarnu graddau, ac mae'r pwerau yma wedi'u cyflwyno drwy Siarter Frenhinol, neu dan Adran 76 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, neu o dan Adran 48 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 1992, neu drwy Fwla Pabaidd, neu, ers 1999, drwy ddyfarniad y Cyfrin Gyngor ar gyngor ASA (mewn ymateb i geisiadau am bwerau dyfarnu graddau a addysgir, pwerau dyfarnu graddau ymchwil neu deitl prifysgol).

### Credyd(au)

Ffordd o fesur a chydabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu **rhaglenni astudio** addysg uwch, wedi'i fynegi fel nifer o gredydau ar lefel benodol.

### Cyfleoedd dysgu

Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys astudiaeth a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academiaidd a phersonol, ac adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios).

### Datganiad Meincnod Pwnc

Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlyniad a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

### Diffiniad gweithredol

Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae ASA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adolygiadau ac adroddiadau.

### Disgwyliadau

Datganiadau yn y **Cod Ansawdd** sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

### Dyfarniad dwbl neu ddyfarniad deuol

Rhoi dyfarniadau (a thystysgrifau) ar wahân ar gyfer yr un **rhaglen** gan ddau **gorff dyfarnu graddau** sydd wedi darparu'r rhaglen astudio sy'n arwain atynt ar y cyd. Gweler hefyd **dyfarniad lluosog**.

### **Dyfarniad**

Cymhwyster, neu gredyd academiaidd, wedi'i gyflwyno i gydnabod yn ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni'r **canlyniadau dysgu** a fwriedir a phasio'r asesiadau sy'n ofynnol i gwrdd â'r safonau academiaidd a osodir ar gyfer **rhaglen** neu uned astudio.

### **Dyfarniadau lluosog**

Trefniant lle mae tri **chorff dyfarnu graddau** neu fwy yn darparu, gyda'i gilydd, un **rhaglen** (neu raglenni) a ddarperir ar y cyd sy'n arwain at **ddyfarniad** ar wahân (a thystysgrif ar wahân) gan bob un o'r cyrff dyfarnu. Mae'r trefniant yr un fath ag ydyw ar gyfer **dyfarniadau dwbl/deuol**, ond gyda thri chorff dyfarnu neu fwy'n cymryd rhan.

### **Dysgu cyfunol**

Dysgu a ddarperir drwy nifer o wahanol ddulliau, sydd fel arfer yn cynnwys dysgu wyneb yn wyneb ac e-ddysgu (gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**).

### **Dysgu gyda chymorth technoleg (neu e-ddysgu)**

Dysgu a ddarperir neu a gefnogir drwy ddefnyddio technoleg.

### **Dysgu hyblyg a dosranedig**

Rhaglen neu fodiwl nad yw'n gofyn i'r myfyriwr fynychu dosbarthiadau neu ddigwyddiadau ar amseroedd ac mewn lleoliadau penodol. Gweler hefyd **dysgu o bell**.

### **Dysgu o bell**

Cwrs astudio nad yw'n cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng myfyrwyr a thiworiaid ond, yn lle hynny, mae'n defnyddio technoleg megis y rhyngwyd, mewnrwydi, cyfryngau darlledu, CD-ROM a fideo, neu ddulliau traddodiadol o ohebu - dysgu 'o bell'. Gweler hefyd **dysgu cyfunol**.

### **e-ddysgu**

Gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**.

### **Ehangu cyfranogaeth**

Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

### **Fframwaith cymwysterau addysg uwch**

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academiaidd. Mae ASA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban* (FQHEIS).

### **Fframwaith**

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

### **Gwelliant**

Y broses y mae darparwyr addysg uwch yn ei defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig a'r ffyrdd y mae addysg myfyrwyr yn cael ei chefnogi. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol yn ein prosesau adolygu.

### **Gwybodaeth gyhoeddus**

Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

### **Manylebau rhaglen**

Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r rhaglenni astudio, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

### **Pwyntiau cyfeirio**

Datganiadau a chyhoeddiadau eraill sy'n sefydlu meini prawf y gellir mesur perfformiad yn eu herbyn.

### **Rhaglen (astudio)**

Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

### **Rhith-amgylchedd dysgu (RhAD)**

Mewnrwyd neu wefan ryngweithiol sydd wedi'i diogelu gan gyfrinair (cyfeirir at hwn hefyd fel plattform neu ryngwyneb defnyddiwr) sy'n rhoi mynediad yn electronig i **gyfleoedd dysgu**. Gallai'r rhain gynnwys adnoddau megis llawlyfrau cwrs, gwybodaeth a rhestrau darllen; blogiau, byrddau neges a fforymau; darlithoedd wedi'u recordio; a/neu gyfleusterau ar gyfer seminarau ar-lein (gweminarau).

### **Safon academaidd trothwy**

Y lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyrwr ei dangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn **dyfarniad** academaidd. Mae safonau academaidd trothwy wedi'u disgrifio yn y **fframweithiau** cenedlaethol a'r **Datganiadau Meincnod Pwnc**.

### **Safonau academaidd**

Y safonau a osodir gan **gyrff dyfarnu graddau** ar gyfer eu cyrsiau (rhaglenni a modiwlau) a'r safonau a ddisgwyllir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academaidd trothwy**.

### **Y Cod Ansawdd**

Term byr am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, sef y gyfres i'r DU gyfan o **bwyntiau cyfeirio** i ddarparwyr addysg uwch (y cytunwyd arnynt drwy ymgynghoriad gyda'r gymuned addysg uwch, a'i gyhoeddi gan ASA), sy'n nodi'r **Disgwyliadau** y mae gofyn i bob darparwr eu cyflawni.

## **QAA1700 - R4707 - Awst 16**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2016  
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB  
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557 050  
Gwefan: [www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)